



Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner

---

# Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

## **Cyrff Cyhoeddus: Llywodraeth Leol**

[Cyf: 20150529ASCCLI-1]

# Cynnwys

---

1	Cefndir a chyd-destun	1
2	Ymchwiliad safonau mewn perthynas â chyrrff cyhoeddus: Llywodraeth Leol	2
3	Rhesymoldeb a chymesuredd	4
4	Tystiolaeth a dderbyniwyd gan bersonau perthnasol	6
5	Tystiolaeth a dderbyniwyd gan aelodau o'r cyhoedd	86
6	Tystiolaeth a dderbyniwyd gan Banel Cynghori Comisiynydd y Gymraeg	93
7	Casgliadau'r ymchwiliad safonau	94
8	Y camau nesaf	105
	Atodiad A – Sylwadau cyffredinol a dderbyniwyd gan y cyhoedd ar ymchwiliadau safonau cylch 2	106
	Atodiad B – Rhestr o'r ymatebwyr i'r ymchwiliad safonau	111

# 1 Cefndir a chyd-destun

Prif nod Comisiynydd y Gymraeg, sefydliad annibynnol a grëwyd gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gwneir hyn drwy ddwyn sylw at y ffaith bod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru a thrwy osod safonau ar sefydliadau. Bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at hawliau i siaradwyr Cymraeg.

Bydd dwy egwyddor yn sail i waith y Comisiynydd:

- ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru
- dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Ar 7 Tachwedd 2014 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddogfen 'Rheoliadau Safonau'r Gymraeg 2015'<sup>1</sup>. Cafodd y safonau arfaethedig hyn eu datblygu i osod dyletswyddau ar gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru, awdurdodau parciau cenedlaethol a Gweinidogion Cymru.

Wrth gyflwyno'r ddogfen, nodwyd yr isod gan Lywodraeth Cymru:

Mae'r safonau wedi'u drafftio mewn ffordd sy'n adeiladu ar y cynlluniau iaith. Bellach, bydd yn ofynnol i sefydliadau a fydd yn gorfod cydymffurfio â safonau fynd ati mewn ffordd fwy rhagweithiol, strategol i roi lle canolog i'r Gymraeg. Rydym yn hyderus y bydd hyn yn darparu sylfaen gadarn, gan alluogi Comisiynydd y Gymraeg i wella gwasanaethau i siaradwyr Cymraeg.<sup>2</sup>

Bu'r rheoliadau drafft a gyhoeddwyd ar 7 Tachwedd 2014 yn sail ar gyfer ymchwiliadau safonau Comisiynydd y Gymraeg ac ymarferiad Llywodraeth Cymru i gasglu tystiolaeth er mwyn llunio asesiad effaith rheoleiddiol.

Daeth Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015<sup>3</sup> i rym ar 31 Mawrth 2015, a hynny yn dilyn dadl a phleidlais yng Nghyfarfod Llawn Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

<sup>1</sup> <http://gov.wales/docs/dcells/consultation/141106-regulations-welsh-language-standards-cy.pdf>

<sup>2</sup> <http://gov.wales/docs/dcells/consultation/141106-consultation-welsh-language-standards-cy.pdf>

<sup>3</sup> <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2015/996/made/welsh/data.pdf>

## 2 Ymchwiliad safonau mewn perthynas â chyrrff cyhoeddus: Llywodraeth Leol

Yn unol ag adran 62, Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, cyflwynwyd hysbysiad rhagymchwilio ar 31 Hydref 2014 at sylw personau yr ymddengys i'r Comisiynydd eu bod yn aelodau o'r grwpiau canlynol o bersonau:

- Byrddau Iechyd Lleol
- Cyngorau Iechyd Cymuned
- Ymddiriedolaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG)
- Awdurdod Iechyd Arbennig
- Awdurdodau Tân ac Achub
- Awdurdodau'r Heddlu.

Y personau perthnasol a ddaw o fewn y grŵp **'Byrddau Iechyd Lleol'** yn yr adroddiad safonau hwn yw:

- Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

Y personau perthnasol a ddaw o fewn y grŵp **'Cyngorau Iechyd Cymuned'** yn yr adroddiad safonau hwn yw:

- Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned Cymru
- Cyngor Iechyd Cymuned Abertawe Bro Morgannwg
- Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan
- Cyngor Iechyd Cymuned Betsi Cadwaladr
- Cyngor Iechyd Cymuned Brycheiniog a Maesyfed
- Cyngor Iechyd Cymuned Caerdydd a'r Fro
- Cyngor Iechyd Cymuned Cwm Taf
- Cyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda
- Cyngor Iechyd Cymuned Sir Drefaldwyn.

Yn unol â Gorchymyn Cyngorau Iechyd Cymuned (Sefydlu, Trosglwyddo Swyddogaethau a Diddymu) (Cymru) (Diwygio) 2015, diddymwyd Cyngorau Iechyd Cymuned Sir Drefaldwyn a Brycheiniog a Maesyfed ar 1 Ebrill 2015. Trosglwyddwyd eu swyddogaethau i sefydliad newydd a sefydlwyd ar yr un diwrnod, sef Cyngor Iechyd Cymuned Powys. Serch hynny, daw Comisiynydd y Gymraeg i gasgliadau ar gyfer y grŵp Cyngorau Iechyd Cymuned a fydd yn cynnwys y sefydliad newydd hwn. Bydd y Comisiynydd yn ystyried y newidiadau strwythurol hynny ymhellach wrth benderfynu ar gynnwys hysbysiau cydymffurfio o dan adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Y personau perthnasol a ddaw o fewn y grŵp **‘Ymddiriedolaethau GIG’** yn yr adroddiad safonau hwn yw:

- Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru
- Ymddiriedolaeth GIG Felindre
- Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Y person perthnasol a ddaw o fewn y grŵp **‘Awdurdod Iechyd Arbennig’** yn yr adroddiad safonau hwn yw:

- Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG.

Y personau perthnasol a ddaw o fewn y grŵp **‘Awdurdodau Tân ac Achub’** yn yr adroddiad safonau hwn yw:

- Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
- Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
- Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

Y personau perthnasol a ddaw o fewn y grŵp **‘Awdurdodau’r Heddlu’** yn yr adroddiad safonau hwn yw:

- Awdurdod yr Heddlu Niwclear Sifil
- Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig.

Cyflwynwyd hysbysiad rhagymchwilio ar 31 Hydref 2014 at sylw’r personau perthnasol. Hysbysiad ysgrifenedig yw hysbysiad rhagymchwilio, sy’n datgan bwriad Comisiynydd y Gymraeg i gynnal ymchwiliad safonau, ac sy’n pennu pwnc yr ymchwiliad safonau. Ni chaiff y Comisiynydd gynnal ymchwiliad safonau oni bai iddi roi hysbysiad rhagymchwilio i bob person perthnasol (sefydliad) o leiaf 14 diwrnod cyn dechrau ar yr ymchwiliad.

Pwnc yr ymchwiliad safonau hwn oedd dyfarnu ar ba safonau (os o gwbl) a ddylai fod yn benodol gymwys i bob person perthnasol a ddaw o fewn y grwpiau o bersonau (p’un a yw’r safonau eisoes wedi eu pennu gan Weinidogion Cymru o dan adran 26(1) ai peidio). Cychwynnodd cyfnod yr ymchwiliad safonau hwn ar 17 Tachwedd 2014. Daeth i ben ar 6 Chwefror 2015.

Yn rhan o’r ymchwiliad safonau hwn, casglwyd gwybodaeth gan bob person perthnasol. Gwnaethpwyd hynny trwy dderbyn holiadur wedi ei gwblhau ganddynt. Yn gyfochrog â’r broses o gasglu tystiolaeth gan y personau perthnasol, casglwyd tystiolaeth gan y Panel Cynghori a’r cyhoedd.

Gosodwyd holiadur i’r cyhoedd ar wefan Comisiynydd y Gymraeg. Pwrpas yr holiadur hwn oedd rhoi cyfle i aelodau’r cyhoedd nodi’r hyn roeddynt yn teimlo sy’n rhesymol i’r personau perthnasol ei wneud a’i ddarparu yn Gymraeg, a hynny gan ystyried y gofynion ynghlwm wrth y safonau a gyhoeddwyd ar 7 Tachwedd 2014. Gosodwyd hysbysiaid yn y wasg genedlaethol yn ystod cyfnod yr ymchwiliad safonau yn tynnu sylw’r cyhoedd at yr holiadur hwn. Yn ogystal â hynny, gosodwyd fideo ar wefan y Comisiynydd er mwyn rhoi cyflwyniad i’r broses, ac i ddangos i’r cyhoedd sut y gallant ymateb i’r ymchwiliad safonau.

### 3 Rhesymldeb a chymesuredd

Yn unol ag adran 63 (1) Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, rhaid i'r Comisiynydd roi sylw i'r angen am sicrhau nad yw gofynion am i bersonau gydymffurfio â safonau yn rhinwedd adran 25 (1) yn afresymol neu'n anghymesur.

Wrth gynnal ymchwiliad safonau, rhaid i'r Comisiynydd:

- (a) ystyried, o ran pob gweithgaredd a bennir yn Atodlen 9 y mae person yn ei wneud, a yw'n rhesymol ac yn gymesur i safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys ai peidio, ac
- (b) o ran pob gweithgaredd o'r fath, os yw'n rhesymol ac yn gymesur i safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys i berson, dod i'r casgliad y dylai safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys i'r person mewn perthynas â'r gweithgaredd hwnnw.

Wrth ystyried y cwestiwn o resymoldeb a chymesuredd, dylid nodi bod y Mesur yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod rheoliadau yn darparu bod safonau cyflenwi gwasanaethau sy'n ymwneud â phob un o'r gweithgareddau yn Atodlen 9 a wneir gan y person (ac i'r graddau y mae'n eu gwneud) yn benodol gymwys i'r person hwnnw.

Ond nid oes rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn darparu bod safonau cyflenwi gwasanaethau yn benodol gymwys i berson mewn perthynas â gweithgaredd a bennir yn Atodlen 9 os yw, neu i'r graddau y mae:

- (a) adroddiad safonau o dan adran 64 yn nodi y byddai'n afresymol neu'n anghymesur i safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys i berson mewn perthynas â'r gweithgaredd hwnnw, neu bod
- (b) Gweinidogion Cymru o'r farn y byddai'n afresymol neu'n anghymesur i safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys i berson mewn perthynas â'r gweithgaredd hwnnw.

Nid yw hynny'n atal rheoliadau rhag darparu bod safonau cyflenwi gwasanaethau eraill yn benodol gymwys i berson.

Drwy wneud rheoliadau o dan y Mesur hwn yn arferadwy drwy offeryn statudol, awdurdodir Comisiynydd y Gymraeg i roi hysbysiad cydymffurfio i berson.

Hysbysiad cydymffurfio yw hysbysiad a roddir i berson gan y Comisiynydd—

- (a) sy'n nodi, neu'n cyfeirio at, un neu ragor o safonau a bennir gan Weinidogion Cymru o dan adran 26 (1), a
- (b) sy'n ei gwneud yn ofynnol i berson gydymffurfio â'r safon neu â'r safonau a nodir neu y cyfeirir ati neu atynt.

Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn ystyried y dystiolaeth a ddarparwyd wrth ddod i benderfyniad ar gynnwys hysbysiad cydymffurfio a roddir i berson.

Nid yw'r ffaith bod safon yn benodol gymwys i berson yn golygu bod dyletswydd arno i gydymffurfio â'r safon honno. Dim ond os bydd y Comisiynydd yn rhoi hysbysiad cydymffurfio i'r person, a bod yr hysbysiad hwnnw'n ei gwneud hi'n ofynnol i gydymffurfio â safon ar ddiwrnod gosod, y bydd y ddyletswydd honno mewn grym.

Cyn rhoi hysbysiad cydymffurfio i berson, bydd Comisiynydd y Gymraeg yn ymgynghori â'r person. Nid yw methiant y person i gymryd rhan mewn ymgynghoriad yn atal y Comisiynydd rhag rhoi hysbysiad cydymffurfio i'r person hwnnw.

Wedi i Gomisiynydd y Gymraeg roi hysbysiad cydymffurfio i berson, caiff y person hwnnw wneud cais i'r Comisiynydd yn gofyn iddo ddyfarnu a yw'r gofyniad i gydymffurfio â'r safon honno, neu i gydymffurfio â'r safon yn y modd hwnnw, yn afresymol neu'n anghymesur ai peidio. Pe bai'r Comisiynydd yn hysbysu person nad yw'r gofyniad i gydymffurfio â safon yn afresymol neu'n anghymesur, rhoddir hawl yn y Mesur iddo apelio i'r Tribiwnlys er mwyn dod i ddyfarniad.

### **Meini prawf Comisiynydd y Gymraeg**

Wrth ddod i farn ar bwnc yr ymchwiliad safonau hwn, yn unol â'r gofynion a amlinellir yn Rhan 4, Pennod 8 y Mesur, ystyriwyd y meini prawf canlynol ochr yn ochr â'r dystiolaeth a dderbyniwyd fel rhan o'r ymchwiliad safonau. Nid oes rhaid ystyried pob maen prawf ymhob achos, ac nid yw unrhyw un o'r meini prawf yn bwysicach na'i gilydd.

- A yw'r person perthnasol yn agored i orfod cydymffurfio â safonau – a yw'r person perthnasol yn dod o fewn Atodlen 5 a hefyd o fewn Atodlen 6, neu yn dod o fewn Atodlen 7 a hefyd o fewn Atodlen 8?
- A yw'r dosbarth o safon (cyflenwi gwasanaethau; llunio polisi; gweithredu; cadw cofnodion; hybu) yn gymwysadwy i'r person perthnasol?
- A yw'r person perthnasol yn gwneud y gweithgaredd<sup>4</sup> dan sylw?
- A yw'r person perthnasol eisoes wedi ymrwymo i ddarparu'r gweithgaredd, neu'r weithred dan sylw, yn rhannol neu'n llawn, drwy ei gynllun iaith Gymraeg?
- A yw'r person perthnasol eisoes yn darparu'r gwasanaeth yn Gymraeg (boed hynny'n cyfateb i'r union ofynion sydd ynghlwm wrth y safon ai peidio), neu'n gwneud y gweithgaredd yn unol â'r safon?
- A yw mwyafrif helaeth y personau perthnasol eraill o fewn yr un sector yn darparu'r gwasanaeth yn Gymraeg, neu'n gwneud y gweithgaredd?
- A oes unrhyw resymau eraill yn erbyn, neu o blaid gwneud y safon yn benodol gymwys i'r person perthnasol?

---

<sup>4</sup> Ystyrir y maen prawf hwn yng nghyswllt safonau cyflenwi gwasanaethau yn unig.

## 4 Tystiolaeth a dderbyniwyd gan bersonau perthnasol

Derbyniwyd tystiolaeth gan bob un o'r personau perthnasol a enwir yn adran 2 yr adroddiad hwn. Roedd y dystiolaeth hon yn cynnwys ymatebion i 190 o gwestiynau mewn holiadur, yn ogystal â thystiolaeth bellach a ddarparwyd yn dilyn ymholiadau dilynol.

Darllenwyd pob ymateb yn unigol a defnyddiwyd meddalwedd i gofnodi a dadansoddi'r testun ac i adnabod themâu cyffredinol. Cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd ymhlith swyddogion Comisiynydd y Gymraeg er mwyn dadansoddi'r dystiolaeth a dderbyniwyd gan bersonau perthnasol yn rhan o'r ymchwiliad safonau, ynghyd ag ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg y personau perthnasol dan sylw.

Darperir yn yr adran hon ganran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau perthnasol, sy'n cyfateb i'r safonau (boed hynny'n cyfateb i'r union ofynion sydd ynghlwm wrth y safonau ai peidio) ar gyfer pob gweithgaredd.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yn erbyn y safonau, dylid nodi nad oedd modd paru nifer o'r safonau mewn perthynas â gweithgareddau cyflenwi gwasanaethau, a hynny oherwydd natur fanwl y rheoliadau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Dan rai amgylchiadau, mae'n bosibl bod y personau perthnasol dan sylw yn ymrwymo neu'n cydymffurfio â'r gofyniad, ond nid yw hwnnw wedi ei ddatgan yn benodol yn eu cynlluniau iaith Gymraeg.

Rhoddir crynodeb o'r dystiolaeth a dderbyniwyd gan bob person perthnasol a ddaw o fewn y grwpiau o bersonau a nodir yn adran 4 yr adroddiad hwn. Roedd y dystiolaeth a gyflwynwyd yn cynnwys gwybodaeth ynghylch pa weithgareddau a wneir gan y personau dan sylw, pa weithgareddau maent yn gwneud trwy'r Gymraeg ac i ba raddau y maent yn gallu cydymffurfio â'r safonau.

Ar 31 Hydref 2014, nid oedd y person perthnasol a ganlyn yn meddu ar gynllun iaith Gymraeg wedi'i gymeradwyo o dan adran 14(1) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993:

- Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG.

Lle bo unrhyw gyfeiriadau at safonau yn yr adroddiad safonau hwn, cyfeirir at y safonau a bennwyd yn y rheoliadau drafft a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 7 Tachwedd 2014.



## Byrddau Iechyd Lleol

### Safonau cyflenwi gwasanaethau

#### **Gweithgaredd 1: Gohebiaeth a anfonir gan gorff**

##### **Safonau ar gyfer gohebiaeth a anfonir gan gorff [1-7]**

Nododd pob un o'r 7 person perthnasol (100%) o fewn y grŵp Byrddau Iechyd Lleol eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 7 person perthnasol (100%), eu bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 92% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer gohebiaeth a anfonir gan gorff.<sup>5</sup>

Cadarnhaodd yr holl bersonau perthnasol fod nifer o'r gofynion ynghlwm eisoes yn arfer cyfredol o fewn eu sefydliadau. Nododd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ei fod yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur gyda 5 person perthnasol arall yn cytuno y byddai'n rhesymol a chymesur gwneud detholiad ohonynt yn benodol gymwys iddynt. Nid oedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn ystyried y byddai gwneud yr un o'r safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, er iddo nodi y byddai'n medru cydymffurfio â nifer ohonynt gydag amser.

Mynegodd pob un o'r personau perthnasol, heblaw Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, bryderon am eu gallu i gydymffurfio â safonau 2 a 3, ac yn benodol, y gofyniad i gadw cofnod o ddewis iaith personau y gohebir â hwy. Nodwyd nad oedd un system TG integredig mewn bodolaeth i gadw cofnod canolog o'r wybodaeth, er bod gwybodaeth o'r fath yn cael ei chynnal fesul adran mewn rhai sefydliadau. Roedd nifer ohonynt o'r farn y byddai angen buddsoddiad sylweddol mewn amser ac adnoddau er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.

Er i Fyrddau Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg a Chwm Taf gydnabod bod rhai elfennau o safonau 4 a 5 eisoes yn arfer cyfredol, mynegwyd pryderon ganddynt hwy ynghyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ynghylch eu gallu i fonitro cydymffurfiaeth a sicrhau cysondeb ar draws eu sefydliadau.

Mynegwyd pryderon penodol pellach gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ynghylch ei allu i gydymffurfio â safonau 6 a 7. Yng nghyswllt safon 6, nodwyd nad oedd y Gymraeg wastad yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg gan fod dyddiadau apwyntiadau yn cael eu mewnbynnu'n awtomatig yn Saesneg yn unig drwy system weinyddol electronig a ddarperir yn genedlaethol ar draws Cymru. O ran safon 7, fe noda y byddai'n rhesymol a chymesur i'w gweithredu ond y byddai'n cymryd amser i gydymffurfio'n llawn.

Roedd y pryderon cyffredinol eraill a fynegwyd yn cynnwys goblygiadau yn nhermau cost ariannol, dilyn amserlenni a sicrhau cydymffurfiaeth barhaus a chyson.

---

<sup>5</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

## **Gweithgaredd 2: Galwadau ffôn at gorff a chan gorff**

### **Safonau ar gyfer galwadau ffôn at gorff a chan gorff [8-22]**

Nododd pob un o'r 7 person perthnasol (100%) o fewn y grŵp Byrddau Iechyd Lleol eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 7 person perthnasol (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 67% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer galwadau ffôn at gorff a chan gorff.<sup>6</sup>

Cadarnhaodd yr holl bersonau perthnasol fod nifer o'r gofynion eisoes yn weithredol. At hynny, nododd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ei fod yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur gyda 5 person perthnasol arall yn nodi eu bod yn ystyried y byddai gwneud detholiad ohonynt yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Nid oedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd yn ystyried y byddai gwneud yr un o'r safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Mynegwyd pryderon penodol gan 5 person perthnasol ynghylch eu gallu i gydymffurfio â safonau 18-20. Er i nifer ohonynt gydnabod bod elfennau o'r safonau hyn eisoes yn cael eu gweithredu o fewn eu sefydliadau, roedd consensws y byddai sicrhau a monitro cysondeb ar draws eu sefydliadau'n heriol gan eu bod yn sefydliadau mawr ac yn cydweithio gyda nifer o sefydliadau eraill tebyg. Mynegwyd pryderon gan rai ynghylch y ffaith mai nifer isel o staff sy'n medru'r Gymraeg o'i gymharu â'r nifer uchel o alwadau a dderbynnir.

Pwysleisiwyd gan yr un 5 person perthnasol y byddai'r gofyniad i gadw cofnod o ddewis iaith personau yn unol â safon 21 yn anodd i'w weithredu ar hyn o bryd a hynny, yn bennaf, oherwydd nad oes ganddynt un system gofnodi ganolog mewn lle i ddal y wybodaeth berthnasol. Nododd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan hefyd y gall safon 9 fod yn amhriodol mewn rhai sefyllfaoedd gan gyfeirio'n benodol at sefyllfaoedd pan fo person yn fregus.

Ymysg y pryderon cyffredinol a nodwyd oedd bod angen staff ag arbenigedd penodol yn ogystal â sgiliau iaith Gymraeg er mwyn delio â galwadau llinellau cymorth a bod recriwtio personau o'r fath wedi bod yn heriol yn y gorffennol. Mynegwyd pryder ynglŷn â'r oedi posibl wrth orfod disgwyl am siaradwr Cymraeg perthnasol i ddychwelyd galwad yn ôl os nad oedd un ar gael yn syth.

## **Gweithgaredd 3: Cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol**

### **Safonau ar gyfer cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol [23-29]**

Nododd pob un o'r 7 person perthnasol (100%) o fewn y grŵp Byrddau Iechyd Lleol eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 4 person perthnasol (57%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 84% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol.<sup>7</sup>

<sup>6</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

<sup>7</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Nid oedd y personau perthnasol yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur, er i ambell berson nodi y byddai rhai o'r safonau yng nghyswllt darparu gwasanaeth cyfieithu yn rhesymol a chymesur i'w gweithredu.

Cadarnhaodd yr holl bersonau perthnasol eu bod ar hyn o bryd yn ceisio hwyluso dewis iaith personau sy'n dymuno i gyfarfod gael ei gynnal yn Gymraeg, os ydynt yn ymwybodol o'r dymuniad hwnnw ymlaen llaw. Fodd bynnag, roedd nifer o'r farn y byddai'n anodd sicrhau a monitro cysondeb ar draws eu sefydliadau a hynny oherwydd maint eu sefydliad, y nifer uchel o gyfarfodydd ac apwyntiadau a gynhelir ganddynt yn ddyddiol ac am mai nifer isel o staff sydd ganddynt sy'n medru'r Gymraeg.

Yn yr un modd, mynegwyd pryderon ynghylch eu gallu i ddarparu gwasanaeth cyfieithu mewn cyfarfodydd o'r math hwn gan nodi y byddai costau uchel ynghlwm â hynny ac y byddai oedi'n bosibl wrth ymgymryd â'r gwaith trefnu. Pwysleisiwyd hefyd y trefnir nifer o gyfarfodydd ac apwyntiadau brys o fewn y Byrddau Iechyd Lleol ac mewn sefyllfaoedd felly, na fyddai amser yn caniatáu ar gyfer trefnu bod cyfieithydd yn bresennol. Nododd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda y byddai'n anodd caffael cyfieithydd sy'n darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg yn unol â'r gofynion ynghlwm â safon 29A.

Cododd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys broblemau ynghylch diffinio'r safonau hyn yng nghyd-destun sefyllfaoedd iechyd gan fynegi nad yw'n glir o'r safonau beth yw'r gwahaniaeth rhwng cyfarfod ac apwyntiad yn y cyd-destun hwn. Wrth bennu safonau mewn rheoliadau, dylai Gweinidogion Cymru sicrhau eu bod yn amlinellu'r gofyniad yn glir.

Mynegodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro bryderon o ran cyfrinachedd wrth ddarparu gwasanaeth cyfieithu mewn cyfarfodydd/apwyntiadau gyda chleifion. Fe noda hefyd ei bod yn angenrheidiol bod gan y staff sy'n cyfarfod â chleifion y sgiliau clinigol a phroffesiynol priodol. Nodwyd y byddai'r angen hwn bob amser yn drech na'r angen i gynnal y cyfarfod yn Gymraeg, a hynny er mwyn sicrhau nad yw diogelwch y claf yn cael ei gyfaddawdu.

#### **Gweithgaredd 4: Cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd Safonau ar gyfer cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd [30-34]**

Nododd pob un o'r 7 person perthnasol (100%) o fewn y grŵp Byrddau Iechyd Lleol eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd pob person perthnasol heblaw Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg (86%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd.<sup>8</sup>

Cadarnhaodd Byrddau Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg ac Hywel Dda fod nifer o'r gofynion ynghlwm â'r safonau hyn eisoes yn arfer cyfredol a'u bod yn ystyried y byddai eu gwneud yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Nododd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ei fod yn ystyried y byddai gwneud pob un o'r safonau hyn heblaw safon 34 yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur. Er i'r holl bersonau perthnasol sydd yn weddill nodi bod nifer o'r gofynion eisoes yn arferion cyfredol, nid oeddynt yn ystyried y byddai eu gwneud yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

<sup>8</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Nododd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ei fod yn well ganddo'r drefn gyfredol o ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd fel trefn awtomatig mewn cyfarfodydd a drefnir yn benodol ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd.

Ymysg y pryderon eraill a gyflwynwyd oedd yr angen i sicrhau cysondeb ar draws y sefydliadau ynghyd â chontractwyr allanol, y costau ariannol ynghlwm â chyfieithu, gallu trydydd parti i gynhyrchu deunyddiau'n ddwyieithog a'r effaith y byddai argraffu'r deunyddiau perthnasol yn ddwyieithog yn ei chael ar yr amgylchedd.

### **Gweithgaredd 5: Digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff**

#### **Safonau ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff [35-36]**

Nododd pob un o'r 7 person perthnasol (100%) o fewn y grŵp Byrddau Iechyd Lleol eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 5 person perthnasol (71%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff.<sup>9</sup>

Cadarnhaodd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda bod y gofynion eisoes yn arfer cyfredol ac y byddai eu gwneud yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Er i nifer o'r gweddill gydnabod bod elfennau o'r safonau hyn yn arfer cyfredol ganddynt, nid oeddynt yn ystyried y byddai eu gwneud yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

Mynegodd nifer bryderon ynghylch eu gallu i fonitro a sicrhau cysondeb ar draws eu sefydliadau ynghyd â chostau cyfieithu'r dogfennau perthnasol. Nododd sawl person y byddant yn medru cydymffurfio â'r safonau ar lefel ehangach mewn digwyddiadau mawr ond y byddai'n anodd cydymffurfio mewn digwyddiadau llai megis boreau coffi a grwpiau cefnogi. Nododd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro na fyddant yn medru cyfiawnhau tynnu siaradwyr Cymraeg o'r rheng flaen gan fod y maes hwnnw'n flaenoriaeth iddynt.

### **Gweithgaredd 6: Cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff**

#### **Safonau ar gyfer cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff [37]**

Nododd pob un o'r 7 person perthnasol (100%) o fewn y grŵp Byrddau Iechyd Lleol eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 7 person perthnasol (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 86% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safon ar gyfer cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff.<sup>10</sup>

Nododd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a Byrddau Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Caerdydd a'r Fro a Hywel Dda fod y gofynion ynghlwm â'r safon hon eisoes yn weithredol a'i bod yn rhesymol a chymesur mewn egwyddor.

<sup>9</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

<sup>10</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Er i'r personau perthnasol sydd yn weddill gadarnhau bod elfennau o'r safon hon eisoes yn weithredol ganddynt, nid oeddynt yn ystyried y byddai ei gwneud yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Roedd hynny'n bennaf am eu bod o'r farn y byddai sicrhau a monitro cysondeb a chydymffurfiaeth ar draws eu sefydliadau, ynghyd â contractwyr a thrydydd parti yn heriol iawn.

Cododd Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg gwestiynau ynghylch union ddiffiniad "cyhoedduswydd a hysbysebu". Cyfeiriodd at ei gyfrifon *Twitter* a *Facebook* yn y cyswllt hwn gan holi a fyddai hysbysiadau a wneir drwy gyfrwng y cyfrifon hyn yn disgyn o dan y safon hon.

### **Gweithgaredd 7: Arddangos deunydd yn gyhoeddus Safonau ar gyfer arddangos deunydd yn gyhoeddus [38-39]**

Nododd pob un o'r 7 person perthnasol (100%) o fewn y grŵp Byrddau Iechyd Lleol eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 7 person perthnasol (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer arddangos deunydd yn gyhoeddus.<sup>11</sup>

Cadarnhaodd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro fod y safonau hyn eisoes yn arferion cyfredol ac y byddai eu gwneud yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

Bu i nifer o'r personau perthnasol sydd yn weddill hefyd gadarnhau bod elfennau o'r safonau hyn yn weithredol ganddynt ac y byddant yn medru cydymffurfio'n rhannol ond nid oeddynt o'r farn y byddai eu gwneud yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Y prif reswm a nodwyd am hynny oedd am y byddai'n her iddynt sicrhau a monitro cysondeb a chydymffurfiaeth ar draws eu sefydliadau a chyda contractwyr a thrydydd parti, yn enwedig pe byddant yn arddangos deunyddiau a gynhyrchir gan eraill.

### **Gweithgaredd 8: Corff yn cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau Safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau [40-49]**

Nododd pob un o'r 7 person perthnasol (100%) o fewn y grŵp Byrddau Iechyd Lleol eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 7 person perthnasol (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau.<sup>12</sup>

Cadarnhaodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr fod nifer o'r gofynion eisoes yn weithredol ac y byddai eu gwneud yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur. Er i'r personau perthnasol eraill i gyd gydnabod bod elfennau o'r safonau hyn eisoes yn weithredol ganddynt neu y byddai modd iddynt gydymffurfio'n rhannol â hwy, nid oeddynt o'r farn y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

<sup>11</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

<sup>12</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Yn gyffredinol, mynegwyd pryderon am yr angen i gynhyrchu'r holl bapurau yr amlinellir yn safon 41 yn Gymraeg a hynny am fod cynifer o bapurau ac y byddai hynny'n cael effaith fawr ar adnoddau wrth anfon y gwaith i'w gyfieithu. Awgrymodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg fod prinder cyfieithwyr cymwys ar gael i gyflawni'r gwaith gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro o'r farn mai bychain iawn fyddai'r budd cyhoeddus o wneud hynny gan fod nifer o'r papurau wedi'u hanelu at gynulleidfa gyfyngedig. Mynegodd sawl un hefyd y byddai monitro cysondeb a chydymffurfiaeth ar draws eu sefydliadau'n heriol iawn, yn enwedig wrth ystyried dogfennau a gynhyrchir gan drydydd parti a chan gontractwyr.

Nododd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys y byddai'n medru cydymffurfio y rhan fwyaf o'r amser ond y byddai rhai sefyllfaoedd lle na fyddai'n rhesymol na chymesur cyfieithu dogfennau cyn eu cyhoeddi. Ni ddarparwyd unrhyw enghraifft benodol o'r fath sefyllfa.

### **Gweithgaredd 9: Corff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni Safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni [50-51]**

Nododd pob un o'r 7 person perthnasol (100%) o fewn y grŵp Byrddau Iechyd Lleol eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd pob un o'r personau perthnasol heblaw Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd (86%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 82% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni.<sup>13</sup>

Roedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr o'r farn y byddai gwneud detholiad o'r safonau'n benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur. Ni nododd yr un o'r personau perthnasol eraill eu bod yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

Ymysg y pryderon a godwyd oedd y nifer cyfyngedig o staff sy'n medru'r Gymraeg ar hyn o bryd, y goblygiadau sylweddol, yn ariannol ac o ran adnoddau, wrth gyfieithu pob un ffurflen at ddefnydd y cyhoedd i'r Gymraeg, ac y byddai'n anodd monitro a sicrhau cysondeb ar draws y sefydliadau a chan gontractwyr.

Roedd sawl person perthnasol hefyd o'r farn bod risg glinigol ynghlwm â chynhyrchu ffurflenni dwyieithog. Er iddynt gydnabod y gall fod angen ieithyddol i glaf/defnyddiwr gwasanaeth gwblhau ffurflen yn y Gymraeg, fe nodant fod risg glinigol ynghlwm â hynny os nad yw'r aelod staff sy'n dadansoddi'r ffurflen yn deall Cymraeg. Yn yr un modd, roedd nifer o'r farn y byddai'n anodd i aelod o staff di-Gymraeg fewnbynnu gwybodaeth ymlaen llaw ar ffurflen Gymraeg.

### **Gweithgaredd 10: Gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff Safonau ar gyfer gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff [52-57]**

Nododd pob un o'r 7 person perthnasol (100%) o fewn y grŵp Byrddau Iechyd Lleol eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 7 person perthnasol (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff.<sup>14</sup>

<sup>13</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Nododd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a Byrddau Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Caerdydd a'r Fro a Hywel Dda, fod y gofynion yn arfer cyfredol ar y cyfan ac y byddai eu gwneud yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

Cadarnhaodd y gweddill fod elfennau eisoes yn weithredol ganddynt ac y byddai modd iddynt gydymffurfio'n rhannol â hwy. Fodd bynnag, nid oeddynt o'r farn y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur gan nodi y byddai'n anodd iddynt fonitro cysondeb ar draws eu sefydliadau, ynghyd â darparwyr gofal sylfaenol. Nodwyd y byddai'n anodd cadw i fyny gyda'r diweddariadau cyson a wneir i fersiynau Saesneg y gwefannau ac y byddai goblygiadau sylweddol, yn ariannol ac o ran adnoddau, ynghlwm â chyfieithu pob tudalen i'r Gymraeg.

Pwysleisiodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg ei fod wedi cael problemau wrth geisio recriwtio cyfieithydd mewnol llawn amser gan nodi ei fod o'r farn bod prinder cyfieithwyr cymwys ar gael i gyflawni'r gwaith.

### **Gweithgaredd 11: Arwyddion a arddangosir gan gorff Safonau ar gyfer arwyddion a arddangosir gan gorff [58-60]**

Nododd pob un o'r 7 person perthnasol (100%) o fewn y grŵp Byrddau Iechyd Lleol eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 7 person perthnasol (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer arwyddion a arddangosir gan gorff.<sup>15</sup>

Cadarnhaodd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr fod y gofynion eisoes yn weithredol ganddynt ac y byddai eu gwneud yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

Er i'r 5 person perthnasol arall nodi eu bod eisoes yn arddangos arwyddion dwyieithog, roeddynt i gyd o'r farn y byddai'n anodd sicrhau y byddai pob arwydd dros dro yn ddwyieithog oherwydd bod prinder staff sy'n medru'r Gymraeg ac y byddai angen disgwyl i gyfieithiad gael ei ddarparu. Mynegwyd pryderon hefyd ynghylch gallu contractwyr a darparwyr gofal sylfaenol i gydymffurfio â'r safonau, gyda nifer yn nodi nad oes ganddynt reolaeth dros gynnwys eu harwyddion ac felly y byddai monitro a sicrhau cysondeb ar draws y sefydliad yn anodd.

### **Gweithgaredd 12: Derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff Safonau ar gyfer derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff [61-66]**

Nododd pob un o'r 7 person perthnasol (100%) o fewn y grŵp Byrddau Iechyd Lleol eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 7 person perthnasol (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 86% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff.<sup>16</sup>

---

<sup>14</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

<sup>15</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

<sup>16</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Nododd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys y byddai'n medru cydymffurfio â'r safonau hyn gan fod ganddo nifer ddigonol o staff sy'n medru'r Gymraeg i'w gweithredu ac felly y byddai eu gwneud yn benodol gymwys iddo'n rhesymol a chymesur.

Roedd Byrddau Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Cwm Taf, Abertawe Bro Morgannwg a Hywel Dda o'r farn y byddai gwneud detholiad o'r safonau yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Nid oedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn ystyried y byddai gwneud yr un o'r safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Ymysg y pryderon eraill oedd bod prinder staff sy'n medru'r Gymraeg ar gael i ddarparu gwasanaeth derbynfa drwy gyfrwng y Gymraeg ac felly na fyddai modd gwarantu y byddai modd i hynny ddigwydd bob amser. Yn ategol i hynny nodwyd bod prinder cyllid ar gael ar gyfer hyfforddiant ynghyd â monitro a sicrhau cysondeb ar draws y sefydliadau a darparwyd gofal sylfaenol.

Nododd sawl person perthnasol y byddai'n anymarferol holi am ddewis iaith personau sy'n ymweld â'u derbynfydd ar bob achlysur oherwydd natur eu sefydliadau a nifer y derbynfydd.

### **Gweithgaredd 13: Corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol Safonau ar gyfer corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol [67-68]**

Nododd pob un o'r 7 person perthnasol (100%) o fewn y grŵp Byrddau Iechyd Lleol eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 7 person perthnasol (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 50% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol.<sup>17</sup>

Derbyniwyd ymateb cadarnhaol i'r safonau hyn gyda phob un yn cadarnhau bod y gofynion yn arfer cyfredol ac y byddai eu gwneud yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Er hynny, nododd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda nad oes ganddynt yr awdurdod i sicrhau cydymffurfiaeth gan ddarparwyd gofal sylfaenol.

### **Gweithgaredd 14: Corff yn dyfarnu ar geisiadau am grant Safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar geisiadau am grant [69-73]**

Nododd 3 o'r 7 person perthnasol (43%) o fewn y grŵp Byrddau Iechyd Lleol, sef Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys eu bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 50% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar geisiadau am grant.<sup>18</sup>

Cadarnhaodd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ei fod yn gwneud y gweithgaredd, gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg yn nodi fod ganddo gytundeb lefel gwasanaeth gyda'r trydydd sector sy'n darparu grantiau ar ei ran ar hyn o bryd. Roeddynt

<sup>17</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

<sup>18</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.



yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Nid oedd yr un o'r personau perthnasol eraill yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

Er i Fyrddau Iechyd Prifysgol Cwm Taf a Chaerdydd a'r Fro nodi nad ydynt yn gwneud y gweithgaredd, fe nodant eu bod yn rhoi cyllid i wahanol bartïon, yn drydydd parti ac yn adrannau mewnol, ond nad ydynt yn ystyried bod hyn yn gyfystyr â dyrannu 'grant' fel y cyfryw. Yn yr un modd, nododd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ei fod yn dyrannu arian i rai partiïon ond nad oedd y gofynion yn arfer cyfredol ganddynt ac nad oeddynt yn gwahodd ceisiadau am grantiau. Roeddynt o'r farn y byddai goblygiadau ariannol ynghlwm â darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd mewn cyfweiliad, pe byddant yn cynnal un.

Er i Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan nodi nad yw'n gwneud y gweithgaredd ar hyn o bryd, nododd y byddai'n medru cyfieithu'r dogfennau perthnasol pe bai'n rhaid gan fod ganddo fynediad at wasanaeth cyfieithu'r Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Gofal Cymdeithasol ac Iechyd, sy'n adran o fewn Llywodraeth Cymru.

### **Gweithgaredd 15: Corff yn dyfarnu ar dendrau am gontract Safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar dendrau am gontract [74-78]**

Nododd pob un o'r 7 person perthnasol (100%) o fewn y grŵp Byrddau Iechyd Lleol eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, ni nododd yr un person perthnasol eu bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 50% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar dendrau am gontract.<sup>19</sup>

Er i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr nodi y byddai goblygiadau ar adnoddau wrth ddarparu a chaffael gwasanaeth cyfieithu, roedd o'r farn y byddai'n medru cydymffurfio gydag amser digonol ac y byddai eu gwneud yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur. Nid oedd yr un o'r personau perthnasol eraill o'r farn y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur, er i Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro nodi y byddai'n medru cydymffurfio â safonau 74-75A.

Ymhlith y pryderon a godwyd oedd y byddai costau sylweddol ynghyd â goblygiadau o ran adnoddau pe byddai'n rhaid cyfieithu pob dogfen berthnasol i'r Gymraeg, bod prinder staff sy'n medru'r Gymraeg ar gael er mwyn cynnal cyfweiliad heb gymorth gwasanaeth cyfieithu, a bod contractau yn aml yn ddogfennau swmpus a thechnegol eu natur gydag amserlenni tynn ar gyfer hysbysebu'r tendrau.

Nododd sawl person perthnasol fod y wefan a ddefnyddir ar gyfer hysbysebu tendrau am gontract yn cael ei darparu'n genedlaethol ar draws Cymru gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ac felly mai'r sefydliad hwnnw fyddai'n gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth â'r elfen honno. Nodwyd hefyd ei fod yn bosibl mai'r sefydliad hwn sy'n gyfrifol am ddarparu rhai ffurflenni a dogfennau'n ymwneud â thendrau am gontract. Cadarnhaodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn ogystal bod nifer o'u gweithgareddau caffael wedi'u trosglwyddo'n gyfrifoldeb i Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru.

---

<sup>19</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Nododd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ei fod yn ymrwmo i gcontractau gyda nifer o sefydliadau eraill y GIG, a bod nifer o'r rheiny wedi'u lleoli yn Lloegr, ond y byddant yn cydymffurfio â'r rhain yn unol â'r safonau.

### **Gweithgaredd 16: Codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff**

#### **Safonau ar gyfer codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff [79-80]**

Nododd pob un o'r 7 person perthnasol (100%) o fewn y grŵp Byrddau Iechyd Lleol eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd pob un o'r personau perthnasol heblaw Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (86%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 64% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff.<sup>20</sup>

Dylid nodi bod adran 12(2)(b) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn nodi bod rhaid i gynlluniau iaith Gymraeg bennu ym mha ffyrdd y bydd sefydliad yn sicrhau cyhoeddusrwydd i'r cynllun. Pwysleisia'r Comisiynydd nad yw'r mesur hwn yn elfen ddewisol o fewn y ddeddfwriaeth.

Cadarnhaodd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr fod y gofynion eisoes yn weithredol ganddynt gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn nodi eu bod yn gyraeddadwy er y byddai'n anodd sicrhau cysondeb ar draws y sefydliad. Roedd y personau perthnasol hyn oll yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

Er i'r gweddill nodi eu bod yn medru cydymffurfio'n rhannol neu bod elfennau o'r safonau eisoes yn weithredol ganddynt, nid oeddynt yn ystyried y byddai eu gwneud yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Y prif bryderon a fynegwyd dros hynny oedd prinder staff â'r sgiliau Cymraeg angenrheidiol ynghyd â sicrhau a monitro cydymffurfiaeth ar draws y sefydliadau. Ymhellach i hynny, roedd nifer o'r personau perthnasol o'r farn y byddai'n afresymol disgwyl iddynt sicrhau bod darparwyr gofal sylfaenol, elusennau a grwpiau gwirfoddoli'n cydymffurfio i'r un graddau â hwy.

### **Gweithgaredd 17: Hunaniaeth gorfforaethol corff**

#### **Safonau ar gyfer hunaniaeth gorfforaethol corff [81]**

Nododd pob un o'r 7 person perthnasol (100%) o fewn y grŵp Byrddau Iechyd Lleol eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 7 person perthnasol (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safon ar gyfer hunaniaeth gorfforaethol corff.<sup>21</sup>

Derbyniwyd ymateb cadarnhaol gan yr holl bersonau perthnasol i'r safon hon gyda phob un yn cadarnhau ei bod eisoes yn weithredol ganddynt ac y byddai ei gwneud y benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

<sup>20</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

<sup>21</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

**Gweithgaredd 18: Cyrsiau a ddarperir gan gorff  
Safonau ar gyfer cyrsiau a ddarperir gan gorff [82-84]**

Nododd 4 o'r 7 person perthnasol (57%) o fewn y grŵp Byrddau Iechyd Lleol, sef Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a Byrddau Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Cwm Taf a Chaerdydd a'r Fro, eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, ni nododd yr un eu bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cyrsiau a ddarperir gan gorff.

Ni nododd yr un person perthnasol eu bod yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. O'r personau perthnasol hynny a nododd eu bod yn gwneud y gweithgaredd, nodwyd bod prinder staff sy'n medru'r Gymraeg ar gael i ddarparu cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg ac y byddai goblygiadau ariannol sylweddol ynghlwm â darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd a chyfieithu deunyddiau i'r Gymraeg.

Roedd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys o'r farn y byddai darparu pob cwrs yn Gymraeg yn anymarferol ac, er nodi y byddai'n gwneud trefniadau i ddarparu cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg pe amlygir yr angen am hynny, nid oedd o'r farn y dylai hynny fod yn orfodol.

**Gweithgaredd 19: Systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff  
Safonau ar gyfer systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff [85]**

Nododd 5 o'r 7 person perthnasol (71%) o fewn y grŵp Byrddau Iechyd Lleol, sef Byrddau Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Cwm Taf, Abertawe Bro Morgannwg, Betsi Cadwaladr a Chaerdydd a'r Fro, eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, ni nododd yr un person perthnasol eu bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 43% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff.<sup>22</sup>

Nid oedd yr un person perthnasol yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Lleisiwyd pryderon ynghylch y nifer isel o staff sydd â sgiliau iaith Gymraeg ac felly na fyddai modd iddynt warantu cydymffurfiaeth bob amser. Roedd nifer hefyd o'r farn y byddai'n anodd monitro a sicrhau cysondeb ar draws eu sefydliadau. Serch hynny, nododd Byrddau Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Cwm Taf, Abertawe Bro Morgannwg, Betsi Cadwaladr a Chaerdydd a'r Fro y byddai modd iddynt gydymffurfio'n rhannol pe byddai rhai negeseuon wedi'u recordio o flaen llaw.

**Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau cyflenwi  
gwasanaethau [158-163]**

Cadarnhaodd y 7 person perthnasol (100%) o fewn y grŵp Byrddau Iechyd Lleol fod nifer o'r gofynion ynghlwm â'r safonau hyn eisoes yn arfer cyfredol ganddynt neu y gallent gydymffurfio'n rhannol yn y dyfodol. Ymhellach i hynny, nododd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a Byrddau Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Aneurin Bevan a Chwm Taf eu bod yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

<sup>22</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Fodd bynnag, nododd sawl un y byddai monitro cydymffurfiaeth ar draws eu sefydliadau a chan gontractwyr a darparwyr gofal sylfaenol yn heriol. Nodwyd fod cadw goruchwyliaeth o gydymffurfiaeth ynghyd â chasglu gwybodaeth a data perthnasol wedi bod yn heriol iawn o dan y broses gyfredol o adrodd ar weithrediad eu cynlluniau iaith Gymraeg. Yng nghyswllt safon 159, nododd sawl person perthnasol nad oes ganddynt yr awdurdod i orfodi darparwyr gofal sylfaenol i ddilyn yr un prosesau â hwy wrth ddelio â chwynion, dim ond hwyluso a monitro'r broses pan fo hynny'n berthnasol.

At hynny, roedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro o'r farn bod y gofyniad i gadw copiâu o'r dogfennau perthnasol ym mhob un o'u swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd yn feichus iawn gan ystyried bod ganddo nifer o safleoedd gwahanol.

### **Safonau llunio polisi [86-95]**

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau llunio polisi.<sup>23</sup>

Cadarnhaodd y 7 person perthnasol fod nifer o'r gofynion ynghlwm â'r safonau llunio polisi eisoes yn arferion cyfredol gan fod ganddynt drefniadau mewn lle er mwyn sicrhau bod pob polisi newydd neu ddiwygiedig yn destun asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb a bod y Gymraeg yn faes cydraddoldeb safonol yn y broses honno.

At hynny, cadarnhaodd pob un o'r personau perthnasol heblaw Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Roedd Byrddau Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Aneurin Bevan a Chwm Taf o'r farn y dylai'r safonau llunio polisi fod yn gymwys i'r polisiâu a ddatblygir ganddynt hwy fel sefydliad yn unig ac nid y rhai a ddatblygir gan gontractwyr a darparwyr gofal sylfaenol. Fe nododd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda hefyd eu bod yn gweithredu nifer o bolisiâu cenedlaethol a ddatblygir yn ganolog gan Lywodraeth Cymru.

Nododd Byrddau Iechyd Prifysgol Cwm Taf, Abertawe Bro Morgannwg a Hywel Dda y byddai'n anodd gwarantu y byddai effeithiau o ran y Gymraeg a siaradwyr Cymraeg yn cael eu cymryd i ystyriaeth bob tro yng nghyswllt safonau 93, 94 a 95.

### **Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau llunio polisi [164-169]**

Derbyniwyd ymateb cadarnhaol gan y personau perthnasol i'r safonau hyn gyda phob un yn nodi eu bod yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Serch hynny, nodwyd bod monitro cydymffurfiaeth wedi bod yn heriol yn y gorffennol ac y byddai hyn o bosibl yn effeithio ar eu gallu i adrodd yn gywir ac yn llawn. Pwysleisiodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ei fod o'r farn bod y gofyniad i ddarparu copi o'r dogfennau perthnasol ym mhob un o'i swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd yn feichus. Ategwyd gan nifer nad oes ganddynt awdurdod i orfodi darparwyr gofal sylfaenol i ddilyn yr un prosesau â hwy wrth ddelio â chwynion.

### **Safonau gweithredu [96-142]**

#### **Safonau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol corff [96-109]**

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 64% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol corff.<sup>24</sup>

<sup>23</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

Cadarnhaodd y 7 person perthnasol y gallant ddatblygu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol. Er hynny, roedd nifer o'r farn na fyddant yn medru cydymffurfio â'r safonau gweithredu i gyd a hynny am eu bod yn ddibynnol ar gydweithio â system genedlaethol Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru. Nodwyd hefyd y byddai nifer o'r safonau hyn yn gostus ac yn cymryd gormod o adnoddau i'w gweithredu. Roedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr o'r farn na fyddai datblygu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg fel iaith fusnes y sefydliad o ddydd i ddydd yn rhesymol.

Nododd y 7 person perthnasol nad yw'r gofynion ynghlwm â safonau 97-102 yn arfer cyfredol ganddynt ar hyn o bryd gan fynegi pryderon yn eu cylch. Ymysg y pryderon hynny oedd eu gallu i ymyrryd yng nghytundebau cyflogi a gynhyrchir gan ddarparwyr gofal sylfaenol ynghyd â chytundeb cyflogaeth cenedlaethol Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru. Roedd sgiliau iaith staff a chostau cyfieithu hefyd yn bryderon iddynt.

Nododd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr fodd bynnag y byddai'n rhaid iddo ddarparu rhywfaint o wybodaeth megis fersiwn Gymraeg o deitlau swyddi i Bartneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru er mwyn medru cydymffurfio'n llawn. Fe nododd hefyd y byddai'n rhaid ymchwilio i weld a fyddai modd cadw cofnod o ddewis iaith staff ar eu system TG cyfredol a ddarperir gan system genedlaethol ar draws y DU.

Er i Fyrddau Iechyd Prifysgol Cwm Taf, Aneurin Bevan, Abertawe Bro Morgannwg, Hywel Dda, Caerdydd a'r Fro a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys nodi nad oedd y gofynion ynghlwm â safonau 103-109 yn arfer cyfredol ganddynt ar hyn o bryd, roeddynt o'r farn y byddai modd iddynt gydymffurfio er y byddai costau cyfieithu sylweddol ynghlwm â hynny. Nodwyd hefyd fod nifer o'r polisiâu yn cael eu datblygu'n ganolog gan GIG Cymru.

### **Safonau ar gyfer cwynion gan aelodau o staff corff [110-113]**

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 94% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cwynion gan aelodau o staff corff.<sup>25</sup>

Nododd 6 pherson perthnasol (Byrddau Iechyd Prifysgol Cwm Taf, Aneurin Bevan, Abertawe Bro Morgannwg, Hywel Dda, Caerdydd a'r Fro a Betsi Cadwaladr) nad yw'r gofynion ynghlwm â safonau 110-113 yn arferion cyfredol ar hyn o bryd ar y cyfan. Serch hynny, fe nododd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf y byddai'n ymateb i gwynion a wnaed gan staff drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn sicrhau, i'r graddau sy'n bosibl, fod y broses yn ddwyieithog. Nododd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda y byddai'n darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd yn unol â safon 112.

Fe nodwyd rhai pryderon gan Fyrddau Iechyd Prifysgol Cwm Taf, Aneurin Bevan, Abertawe Bro Morgannwg, Hywel Dda a Betsi Cadwaladr ynghylch eu gallu i sicrhau cysondeb ar draws y sefydliad a hynny oherwydd prinder staff sy'n medru'r Gymraeg ac na fyddai modd iddynt warantu bod cyllid ar gael er mwyn darparu gwasanaeth cyfieithu. Lleisiwyd rhai pryderon pellach gan Fyrddau Iechyd Prifysgol Cwm Taf a Chaerdydd a'r Fro o ran cyfrinachedd mewn sefyllfaoedd o'r fath. Nodwyd hefyd nad oes ganddynt ddylanwad dros weithdrefnau cwyno mewnol darparwyr gofal sylfaenol nac ychwaith ar bolisiâu a ddatblygir yn genedlaethol.

---

<sup>24</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

<sup>25</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

### **Safonau ar gyfer corff yn disgyblu staff [114-117]**

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 97% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn disgyblu staff.<sup>26</sup>

Er i Fyrddau Iechyd Prifysgol Cwm Taf, Abertawe Bro Morgannwg, Hywel Dda a Betsi Cadwaladr nodi eu bod yn caniatáu i bob aelod o staff ymateb yn Gymraeg i honiadau a wneir yn ei erbyn, nid oedd gweddill y gofynion ynghlwm â safonau 114A-117 yn arfer cyfredol ganddynt. Fe nododd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda y byddai'n darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfod yn unol â safon 116.

Fe nododd Byrddau Iechyd Prifysgol Cwm Taf, Aneurin Bevan a Hywel Dda y byddai'n hynod o anodd iddynt gynnig cynnal cyfarfodydd drwy gyfrwng y Gymraeg ond pe byddai aelod o staff yn gwneud cais am un, yna byddai'n ceisio ateb y gofyn hwnnw. Nododd Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg a Chaerdydd a'r Fro y byddai'n anodd iddynt gynnig cynnal cyfarfod yn Gymraeg oherwydd bod ganddynt brinder cyfieithwyr a diffyg adnoddau i gyllido'r broses.

Ateggodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr fod y safonau yn gofyn am addasiadau i bolisiâu a ddatblygir yn genedlaethol. Roeddynt hefyd yn bryderus na fyddai modd cynnal cyfarfod heb gymorth gwasanaeth cyfieithu a hynny oherwydd diffyg sgiliau Cymraeg staff.

Nododd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys y byddai'n cydymffurfio pe byddai'r safonau yn cael eu gwneud yn benodol gymwys iddynt.

### **Safonau ar gyfer technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan gorff, ac ynghylch y fewnrwyd [118-124]**

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 61% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan gorff, ac ynghylch y fewnrwyd.<sup>27</sup>

Cadarnhaodd y personau i gyd y byddant yn medru cydymffurfio â detholiad o'r safonau hyn. Er hynny, mynegwyd pryderon ynghylch yr angen i sicrhau cysondeb ar draws y sefydliadau ac o fewn y sector gofal sylfaenol ynghyd â'r costau ynghlwm â chydymffurfio a gan fynegi mai budd cyfyngedig fyddai gyda hynny.

Eglurodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr fod ei fewnrwyd yn rhan o wasanaeth cenedlaethol gan awgrymu y gallasai Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru ddatblygu templed ar eu cyfer i gyd. Nodwyd hefyd fod sawl is safle arall yn bodoli ar lefel genedlaethol ac na fyddai ganddo'r adnoddau i gyfieithu a golygu mewnwyd ar raddfa fel hyn. Nodwyd bod y fewnrwyd yn cael ei defnyddio fel teclyn i ddarparu gwybodaeth yn gyflym ac y byddai gorfod disgwyl i gyfieithiadau ddod yn ôl cyn cyhoeddi gwybodaeth yn anymarferol.

### **Safonau ar gyfer corff yn meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu [125-133]**

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 89% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu.<sup>28</sup>

<sup>26</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

<sup>27</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

Cadarnhaodd y 7 person perthnasol fod nifer helaeth o'r safonau hyn eisoes yn arfer cyfredol ac y byddant yn parhau i wneud hynny i'r dyfodol. Er hynny, nododd Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg nad yw safon 127 yn weithredol ganddynt am eu bod yn gweithio ar y sail mai'r Saesneg yw iaith fusnes y sefydliad.

Mynegwyd pryderon gan nifer ynghylch eu gallu i gydymffurfio'n llawn â safonau 128 a 129 gan nodi bod goblygiadau sylweddol ynghlwm â hynny ac y byddai'n heriol o ran adnoddau. Oherwydd natur gwaith y Byrddau Iechyd Lleol, gyda nifer o aelodau staff yn gweithio sifftiau nos, nifer yn cynnal clinigau ac yn y blaen, roedd sawl un o'r farn na fyddant yn medru darparu cyfleoedd cyfartal i'r holl staff dderbyn gwersi Gymraeg sylfaenol yn ystod oriau gwaith.

### **Safonau ar gyfer recriwtio gan gorff [134-138]**

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 82% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer recriwtio.<sup>29</sup>

Nododd 3 pherson perthnasol fod ganddynt Strategaeth Sgiliau Dwyieithog mewn lle i'w cynorthwyo i asesu'r anghenion ieithyddol ar gyfer swyddi newydd neu swyddi wag. Er nad oedd gan y personau perthnasol eraill strategaeth o'r fath mewn lle, fe nodant fod hynny'n digwydd ar lefel mwy anffurfiol.

Cadarnhawyd bod eu gweithgareddau recriwtio yn digwydd trwy wefan genedlaethol GIG Cymru ac nad oes ganddynt unrhyw reolaeth dros honno. Eglurodd sawl person perthnasol hefyd mai Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru sydd ar hyn o bryd yn gyfrifol am ffurflenni a deunyddiau recriwtio ac felly mai eu cyfrifoldeb hwy fyddai cydymffurfio â'r safonau hyn.

Mynegwyd pryderon ynghylch eu gallu i gynnal cyfweiliad drwy gyfrwng y Gymraeg heb gymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd, a hynny oherwydd prinder staff sy'n medru'r Gymraeg. Nodwyd, y byddai'n bosibl y byddai oedi ynghlwm â threfnu gwasanaeth cyfieithu ac y gallai hynny amharu ar y broses benodi.

### **Safonau ar gyfer arwyddion a arddangosir yng ngweithle corff [139-141]**

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer arwyddion a arddangosir yng ngweithle corff.<sup>30</sup>

Cadarnhaodd y 7 person perthnasol eu bod eisoes yn arddangos arwyddion o fewn eu gweithle yn Gymraeg ac, o'r rheiny, fe nododd pob un ohonynt heblaw Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro eu bod yn gosod y testun Cymraeg fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.

### **Safonau ar gyfer cyhoeddiadau a negeseuon sain yng ngweithle corff [142]**

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safon ar gyfer cyhoeddiadau a negeseuon sain yng ngweithle corff.

---

<sup>28</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

<sup>29</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

<sup>30</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

Cadarnhaodd 5 person perthnasol, sef Byrddau Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Cwm Taf, Caerdydd a'r Fro, Abertawe Bro Morgannwg a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys eu bod yn gwneud cyhoeddiadau dros offer sain o fewn eu gweithle. O'r rhai hynny, dim ond Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wnaeth nodi ei fod yn gwneud y cyhoeddiadau hyn yn Gymraeg.

Nid oedd yr un o'r personau perthnasol yn ystyried y byddai gwneud y safon hon yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Y prif reswm a roddwyd dros nodi hynny oedd prinder staff sy'n medru'r Gymraeg, ac felly na fyddai modd sicrhau bod hynny'n digwydd yn gyson ar draws eu sefydliadau. Serch hynny, nododd Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg y byddai modd iddo gydymffurfio'n rhannol pe byddai rhai cyhoeddiadau wedi'u recordio o flaen llaw.

### **Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau gweithredu [170-175]**

Cadarnhaodd pob un o'r personau perthnasol heblaw Bwrdd Iechyd Addysgu Powys fod nifer o'r gofynion ynghlwm eisoes yn arfer cyfredol ganddynt a, lle nad ydynt, y byddant yn medru cydymffurfio. Fodd bynnag, lleisiwyd pryderon gan nifer helaeth o'r personau ynghylch eu gallu i fonitro cydymffurfiaeth darparwyr gofal sylfaenol ac y byddai'n heriol casglu a dadansoddi gwybodaeth gan bob adran o fewn eu sefydliadau.

Pwysleisiodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ei fod o'r farn bod y gofyniad i ddarparu copïau o'r dogfennau perthnasol y cyfeirir atynt yn y safonau hyn, ym mhob swyddfa sy'n agored i'r cyhoedd, yn feichus iawn.

Nid oedd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur gan ei fod o'r farn nad yw'n rhesymol disgwyl bod holl agweddau mewnol y sefydliad yng nghyswllt gweithgareddau ei staff yn Gymraeg.

### **Safonau hybu [143-144]**

Nid oedd yr un o'r personau perthnasol o fewn y grŵp Byrddau Iechyd Lleol yn dymuno cydsynio i wneud safonau hybu yn gymwysadwy iddynt.

### **Safonau cadw cofnodion [145-157]**

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 77% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau cadw cofnodion.<sup>31</sup>

Cadarnhaodd yr holl bersonau perthnasol fod nifer o'r gofynion eisoes yn arfer cyfredol ganddynt a bod sgiliau ieithyddol eu staff yn cael eu cofnodi ar system gofnodi electronig. Er hynny, nid oes gan yr un person perthnasol brosesau ffurfiol mewn lle er mwyn asesu anghenion ieithyddol swyddi newydd neu swyddi gwag.

Cwestiynwyd ymarferoldeb cadw cofnod o'r holl alwadau Cymraeg a dderbynnir, a hynny oherwydd nifer y galwadau a dderbynnir yn ddyddiol. Roedd nifer o'r farn na fyddai'n bosibl cadw cofnod o gydymffurfiaeth darparwyr gofal sylfaenol ychwaith.

Eglurodd nifer o'r personau perthnasol nad oeddynt yn cynnig hyfforddiant mewnol trwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd ond y byddai modd cadw cofnod o nifer y cyflogeion sy'n eu mynychu pe byddai hynny'n digwydd yn y dyfodol. Cadarnhaodd sawl un fod y

<sup>31</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.



wybodaeth berthnasol y cyfeirir ati yn safon 156 eisoes yn cael ei chadw'n ganolog gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru.

Yn gyffredinol, mynegwyd pryderon ynghylch eu gallu i gadw cofnod o gydymffurfiaeth darparwyr gofal sylfaenol â'r safonau gan nad oes rheidrwydd arnynt i rannu'r wybodaeth hon â hwy.

**Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau cadw cofnodion [178-179]**

Nododd yr holl bersonau perthnasol y byddai modd iddynt gydymffurfio â'r safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau cadw cofnodion. O'r rhai hynny, roedd 3 o'r farn y byddai eu gwneud yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

Nid oedd y gweddill o'r farn y byddai eu gwneud yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur am nad oeddynt yn medru ymrwymo i allu cydymffurfio â'r safonau cadw cofnodion cysylltiedig i gyd. Roedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro o'r farn bod y gofyniad i ddarparu'r ddogfen berthnasol yn unol â safon 178 yn feichus er y byddai'n fodlon ei gyhoeddi ar y wefan, gan ddarparu copïau yn ei brif fynedfeydd.

## Cynghorau Iechyd Cymuned

### Safonau cyflenwi gwasanaethau

#### **Gweithgaredd 1: Gohebiaeth a anfonir gan gorff**

##### **Safonau ar gyfer gohebiaeth a anfonir gan gorff [1-7]**

Nododd pob un o'r 9 person perthnasol (100%) o fewn y grŵp Cynghorau Iechyd Cymuned eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 7 person perthnasol (78%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 76% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer gohebiaeth a anfonir gan gorff.<sup>32</sup>

Cadarnhaodd y mwyafrif o'r personau perthnasol fod nifer o'r gofynion eisoes yn arfer cyfredol. Nododd Cynghorau Iechyd Cymuned Hywel Dda, Betsi Cadwaladr, Brycheiniog a Maesyfed, Sir Drefaldwyn ac Aneurin Bevan y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Nododd Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru a Chyngor Iechyd Cymuned Cwm Taf y byddai gwneud detholiad o'r safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Er hynny, mynegwyd pryderon ynghylch eu gallu i gydymffurfio â safonau 4 a 5.

Yn yr un modd, fe nododd Cyngor Iechyd Cymuned Cwm Taf y byddai gorfod cydymffurfio â'r safonau hyn yn ddefnydd anghymesur o'i adnoddau. O ran safon 4, fe nododd y gallasai olygu ei fod yn cynhyrchu gohebiaeth Gymraeg ar gyfer personau nad ydynt o bosibl, yn dymuno hynny. Yn yr un modd, fe nododd ei fod yn cychwyn gohebu â nifer o bersonau yn ddyddiol ond nad oedd ganddo ffordd o wybod beth yw dewis iaith y personau hynny. Nododd fod ganddo nifer cyfyngedig o adnoddau, ac y byddai gorfod sicrhau bod pob darn o ohebiaeth yn ddwyieithog at y diben hwn yn anghymesur.

Er i Gyngor Iechyd Cymuned Abertawe Bro Morgannwg gydnabod y byddai'n ymateb i gais am ohebiaeth yn Gymraeg, nododd nad oedd ganddo'r adnoddau i gydymffurfio â'r safonau hyn yn llawn ar hyn o bryd. Nid oedd Cynghorau Iechyd Cymuned Abertawe Bro Morgannwg na Chaerdydd a'r Fro yn ystyried y byddai gwneud yr un o'r safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

Pwysleisiodd Cyngor Iechyd Cymuned Caerdydd a'r Fro mai sefydliad bach ydyw a'i fod yn gorfod defnyddio gwasanaeth cyfieithu allanol ac ewyllys da aelodau gwirfoddol sy'n medru'r Gymraeg. Roedd o'r farn bod y safonau'n anghymesur gan nodi bod dros 52 iaith mewn defnydd yng Nghaerdydd ac nad oedd y Gymraeg ymhlith y prif ieithoedd yr oedd galw amdanynt gan y sefydliad. Ychwanegodd ei fod o'r farn y byddai materion cydraddoldeb yn codi pe byddai'n rhaid cydymffurfio â'r safonau yn y cyd-destun hwn. Dylid nodi bod Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru.

#### **Gweithgaredd 2: Galwadau ffôn at gorff a chan gorff**

##### **Safonau ar gyfer galwadau ffôn at gorff a chan gorff [8-22]**

Nododd pob un o'r 9 person perthnasol (100%) o fewn y grŵp Cynghorau Iechyd Cymuned eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 5 person perthnasol (56%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

<sup>32</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 65% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer galwadau ffôn at gorff a chan gorff.<sup>33</sup>

Cadarnhaodd sawl un fod nifer o'r gofynion hyn yn weithredol o fewn eu sefydliadau gyda Chynghorau Iechyd Cymuned Aneurin Bevan a Hywel Dda yn nodi y byddai eu gwneud yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Nododd Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru a Chynghorau Iechyd Cymuned Cwm Taf a Betsi Cadwaladr y byddai gwneud detholiad o'r safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Nid oedd Cynghorau Iechyd Cymuned Caerdydd a'r Fro, Sir Drefaldwyn, Abertawe Bro Morgannwg a Brycheiniog a Maesyfed yn ystyried y byddai gwneud yr un o'r safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

Y prif rwystr a nodwyd ynghylch eu gallu i gydymffurfio â'r safonau hyn ar hyn o bryd oedd diffyg staff sy'n medru'r Gymraeg yn rhugl. Nododd Cyngor Iechyd Cymuned Abertawe Bro Morgannwg nad oedd ceisiadau am alwadau Gymraeg yn ei gyrraedd yn aml ac roedd felly'n cwestiynu cymesuredd gosod y safonau hyn arno. Roedd Cyngor Iechyd Cymuned Betsi Cadwaladr yn bryderus o'i allu i gydymffurfio â safon 14 o ran llenyddiaeth sydd eisoes wedi'i chynhyrchu. Fe nododd y byddai'n anodd galw llenyddiaeth sydd eisoes wedi'i chylchredeg yn ôl, er cydnabod ei bod yn ystyried y byddai gwneud y safon hon yn benodol gymwys o ran llenyddiaeth newydd yn rhesymol a chymesur.

### **Gweithgaredd 3: Cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol**

#### **Safonau ar gyfer cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol [23-29]**

Nododd pob un o'r 9 person perthnasol (100%) o fewn y grŵp Cynghorau Iechyd Cymuned eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 2 berson perthnasol (22%), sef Cynghorau Iechyd Cymuned Hywel Dda a Betsi Cadwaladr, eu bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 86% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol.<sup>34</sup>

Cadarnhaodd Cyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda fod elfennau o'r safonau hyn eisoes yn arfer cyfredol ac y byddai eu gwneud yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur. Yn yr un modd, nododd Cynghorau Iechyd Cymuned Betsi Cadwaladr a Chwm Taf fod nifer o'r safonau eisoes yn weithredol ganddynt neu y byddant yn medru cydymffurfio drwy gyfrwng gwasanaeth cyfieithu allanol. Nid oedd y 6 pherson perthnasol arall yn ystyried y byddai gwneud yr un o'r safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

Y prif bryderon a fynegwyd ynghylch eu gallu i gydymffurfio oedd cyfyngiadau ariannol ac adnoddau staffio. Mynegodd Cyngor Iechyd Cymuned Betsi Cadwaladr bryderon ynghylch ei allu i gydymffurfio â rhai o'r safonau pe byddai'r aelodau perthnasol o staff a fyddai'n medru cynnal y cyfarfod drwy gyfrwng y Gymraeg yn absennol, gan nodi y byddai'n rhaid darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn lle. Yn yr un modd, nododd Cyngor Iechyd Cymuned Cwm Taf na fyddai modd iddo gydymffurfio â safonau 23 a 28 gan nad oes

<sup>33</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

<sup>34</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

ganddo staff sy'n medru'r Gymraeg yn rhugl ar hyn o bryd. Eglurodd Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru y byddai'r safonau hyn yn heriol iawn i'w gweithredu ac er nodi y byddai'n ceisio darparu gwasanaeth cyfieithu mewn cyfarfodydd, nid oedd yn credu y byddai'n medru cynnig cyfarfodydd drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig yn eu cyfanrwydd ar hyn o bryd. Mynegodd hefyd y byddai materion cyfrinachedd ynghlwm â'r safonau hyn ond nid ymhelaethwyd ymhellach ar hynny.

Nododd Cynghorau Iechyd Cymuned Abertawe Bro Morgannwg ac Aneurin Bevan nad oedd ceisiadau am gynnal cyfarfodydd trwy gyfrwng y Gymraeg yn eu cyrraedd yn aml gan awgrymu felly nad oes galw am y gwasanaethau hyn.

Nododd Cynghorau Iechyd Cymuned Aneurin Bevan a Chaerdydd a'r Fro fod canran o'u cyfarfodydd yn gaeedig a'u bod yn cael eu cynnal rhwng aelodau staff ac aelodau gwirfoddol y sefydliad yn unig. Ategwyd hynny gan nodi na fyddai modd iddynt gynnal unrhyw gyfarfodydd pe byddai'r safonau hyn yn orfodol ac felly o ganlyniad y byddant yn methu â chyflawni eu swyddogaethau statudol yn eu tyb hwy.

#### **Gweithgaredd 4: Cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd Safonau ar gyfer cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd [30-34]**

Nododd 8 o'r 9 person perthnasol (89%), sef pob person perthnasol o fewn y grŵp Cynghorau Iechyd Cymuned heblaw Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 4 person perthnasol (50%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 80% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd.<sup>35</sup>

Cadarnhaodd Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru nad yw'n gwneud y gweithgaredd ar hyn o bryd, ond pe byddai hynny'n newid, y byddai'n medru cydymffurfio ac roedd o'r farn bod y gofynion yn rhesymol a chymesur mewn egwyddor. Cadarnhaodd Cynghorau Iechyd Cymuned Cwm Taf, Brycheiniog a Maesyfed, Betsi Cadwaladr a Hywel Dda fod nifer o'r gofynion eisoes yn weithredol o fewn eu sefydliadau neu y byddant yn medru cydymffurfio.

Er i Gyngor Iechyd Cymuned Caerdydd a'r Fro nodi na fyddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, fe wnaeth gydnabod y byddai'n medru cydymffurfio petai'n derbyn rhybudd o ddewis iaith o flaen llaw.

Mynegodd Cynghorau Iechyd Cymuned Aneurin Bevan, Cwm Taf, Sir Drefaldwyn ac Abertawe Bro Morgannwg i gyd bryderon yn nhermau ariannol ac adnoddau pe byddai'n rhaid iddynt gydymffurfio â'r safonau hyn. Nododd Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan nad oes ganddo gyllid i ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ac felly pe byddai'r safon yn orfodol, ni fyddai'n medru parhau i gynnal cyfarfodydd. Ategodd Cyngor Iechyd Cymuned Abertawe Bro Morgannwg nad oedd ceisiadau i gynnal cyfarfod drwy gyfrwng y Gymraeg yn ei gyrraedd yn aml.

---

<sup>35</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

### **Gweithgaredd 5: Digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff**

#### **Safonau ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff [35-36]**

Nododd 6 o'r 9 person perthnasol (67%) o fewn y grŵp Cynghorau Iechyd Cymuned eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 5 person perthnasol (83%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff.<sup>36</sup>

Cadarnhaodd Cynghorau Iechyd Abertawe Bro Morgannwg ac Aneurin Bevan a Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru nad ydynt yn gwneud y gweithgaredd ar hyn o bryd. Er i Fwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru nodi nad yw'n gwneud y gweithgaredd ar hyn o bryd, fe nododd y byddai'n cydymffurfio pe byddai amgylchiadau'n newid ac felly y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur. Yn yr un modd, nododd Cyngor Iechyd Abertawe Bro Morgannwg ei fod yn ystyried y safonau hyn yn rhesymol a chymesur mewn egwyddor.

Cadarnhaodd Cynghorau Iechyd Cymuned Hywel Dda, Betsi Cadwaladr, Brycheiniog a Maesyfed, Cwm Taf a Sir Drefaldwyn fod nifer o'r gofynion eisoes yn weithredol ganddynt. O'r rheiny, roedd Cynghorau Iechyd Cymuned Hywel Dda, Betsi Cadwaladr a Chwm Taf yn ystyried y byddai eu gwneud yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

Nododd Cyngor Iechyd Cymuned Caerdydd a'r Fro ei fod yn cydweithio â phartneriaid a rhan ddeiliaid allweddol pan fo'n ofynnol er mwyn sicrhau yr hwylusir y defnydd o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd. Nododd Cyngor Iechyd Cymuned Brycheiniog a Maesyfed fod rhai digwyddiadau cyhoeddus yn rhai lle gall aelodau'r cyhoedd alw i mewn a chael trafodaeth un wrth un. Mewn sefyllfaoedd fel hyn, nododd y byddai'n ceisio darparu siaradwr Cymraeg yn hytrach na gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. Serch hynny, nid oedd y personau perthnasol hyn yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

### **Gweithgaredd 6: Cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff**

#### **Safonau ar gyfer cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff [37]**

Nododd 8 o'r 9 person perthnasol (89%) o fewn y grŵp Cynghorau Iechyd Cymuned eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 8 person perthnasol (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safon ar gyfer cyhoeddusrwydd a hysbysebu.<sup>37</sup>

Derbyniwyd ymateb cadarnhaol i'r safon hon gyda phob un yn ystyried y byddai ei gwneud yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

Nododd Cyngor Iechyd Cymuned Cwm Taf fod ganddo golofn fisol yn y papur lleol ond, oherwydd cyfyngiad lle, y cyhoeddir y papur yn Saesneg yn unig. Er cydnabod y gellid

<sup>36</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

<sup>37</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

cynnwys cyfieithiad Cymraeg o'r golofn ar ei wefan, nododd y byddai costau ynghlwm â hynny.

### **Gweithgaredd 7: Arddangos deunydd yn gyhoeddus Safonau ar gyfer arddangos deunydd yn gyhoeddus [38-39]**

Nododd 8 o'r 9 person perthnasol (89%) o fewn y grŵp Cynghorau Iechyd Cymuned eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. Er i Gyngor Iechyd Cymuned Brycheiniog a Maesyfed nodi nad ydyw'n gwneud y gweithgaredd, fe nododd ef ynghyd â'r 8 person perthnasol arall eu bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer arddangos deunydd yn gyhoeddus.<sup>38</sup>

Cadarnhaodd pob un o'r personau perthnasol heblaw Cyngor Iechyd Cymuned Caerdydd a'r Fro fod y gofynion hyn eisoes yn arfer cyfredol, y byddant yn medru cydymffurfio ac y byddai eu gwneud yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Nododd Cyngor Iechyd Cymuned Cwm Taf ei fod yn arddangos deunydd a gynhyrchwyd gan asiantaethau eraill hefyd, ac nad oes ganddo'r adnoddau i gyfieithu'r rhain yn ogystal.

Nid oedd Cyngor Iechyd Cymuned Caerdydd a'r Fro yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur gan nodi fod ganddo ddiffyg adnoddau iaith Gymraeg a'i fod yn gorfod talu cyfieithwyr proffesiynol i gyfieithu pob eitem ar y wefan.

### **Gweithgaredd 8: Corff yn cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau Safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau [40-49]**

Nododd pob un o'r 9 person perthnasol (100%) o fewn y grŵp Cynghorau Iechyd Cymuned eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 8 person perthnasol (89%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 91% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau.<sup>39</sup>

Cadarnhaodd pob un o'r personau perthnasol fod nifer o'r gofynion hyn yn cael eu gweithredu ganddynt eisoes. O ran hynny, fe nododd 6 person perthnasol (Cynghorau Iechyd Cymuned Hywel Dda, Betsi Cadwaladr, Brycheiniog a Maesyfed, Abertawe Bro Morgannwg, Sir Drefaldwyn a Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru) y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Nododd Cyngor Iechyd Cymuned Cwm Taf y byddai gwneud detholiad o'r safonau'n benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur ond roedd ganddo bryderon ynghylch safonau 40, 41, 44 a 47. Nid oedd Cynghorau Iechyd Cymuned Aneurin Bevan a Chaerdydd a'r Fro yn ystyried y byddai gwneud yr un o'r safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

Nododd Cyngor Iechyd Cymuned Cwm Taf nad oedd y gofynion ynghlwm â safon 45 yn eglur iddo er nad ymhelaethwyd ymhellach ar hynny. Wrth bennu safonau mewn

<sup>38</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

<sup>39</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

rheoliadau, dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod y rheoliadau terfynol yn amlinellu'r gofyniad yn glir.

O ran safonau 40, 41, 44 a 47, nododd Cyngor Iechyd Cymuned Cwm Taf y byddai'n medru cydymffurfio ond y byddai costau sylweddol ynghlwm â chyfieithu pob dogfen berthnasol i'r Gymraeg. Yn yr un modd, nododd Cyngor Iechyd Cymuned Abertawe Bro Morgannwg nad yw'n darparu cofnodion Cymraeg ar gyfer cyfarfodydd ar hyn o bryd gan nad oes galw wedi bod amdanynt dros y blynyddoedd diwethaf yn ei dyb ef.

Nododd Cyngorau Iechyd Cymuned Brycheiniog a Maesyfed a Sir Drefaldwyn nad oeddynt yn credu ei bod yn rhesymol disgwyl iddynt gyfieithu dogfennau a gyflwynir i gyfarfodydd y Bwrdd gan sefydliadau eraill. Mynegodd Cyngorau Iechyd Cymuned Aneurin Bevan a Chaerdydd a'r Fro ynghyd â Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned Cymru bryderon ynghylch yr angen i gyhoeddi pob dogfen yng nghyswllt cyfarfodydd y Bwrdd yn ddwyieithog gan nodi bod cyfyngiadau ariannol a diffyg adnoddau i sicrhau cydymffurfiaeth â hwy. Nododd Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned Cymru y byddai hynny'n debygol o arwain at gyhoeddi llai o ddogfennau a bod risg ynghlwm â hynny o ran ymddangos yn llai tryloyw.

#### **Gweithgaredd 9: Corff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni Safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni [50-51]**

Nododd 7 o'r 9 person perthnasol (78%) o fewn y grŵp Cyngorau Iechyd Cymuned eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 6 person perthnasol (86%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 78% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni.<sup>40</sup>

Cadarnhaodd 6 person perthnasol (Cyngorau Iechyd Cymuned Sir Drefaldwyn, Cwm Taf, Brycheiniog a Maesyfed, Betsi Cadwaladr, Hywel Dda ac Aneurin Bevan) fod nifer o'r gofynion ynghlwm â'r safonau hyn eisoes yn arfer cyfredol. O ran hynny, nododd Cyngorau Iechyd Cymuned Aneurin Bevan, Betsi Cadwaladr a Hywel Dda eu bod yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Er i Fwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned Cymru nodi nad ydyw'n gwneud y gweithgaredd ar hyn o bryd, fe nododd y gallasai hynny newid gyda'r newidiadau arfaethedig i'w swyddogaethau ac os felly, y byddai'n medru cydymffurfio â'r safonau hyn.

Cadarnhaodd Cyngor Iechyd Cymuned Caerdydd a'r Fro nad yw'n cynhyrchu ffurflenni ond bod ganddo ffurflenni Cymraeg a gynhyrchwyd yn ganolog. At hynny, fe nododd nad oedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Nododd Cyngorau Iechyd Cymuned Sir Drefaldwyn a Brycheiniog a Maesyfed y byddai angen gwneud newidiadau i rai o'u systemau TG er mwyn medru cydymffurfio'n llawn. Fe nodant fod rhai cronfeydd data ond ar gael yn Saesneg ac y byddai angen buddsoddiad sylweddol er mwyn adnewyddu'r rheiny. Gan ystyried hynny, nid oeddynt yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

Eglurodd Cyngor Iechyd Cymuned Cwm Taf ei fod yn defnyddio holiaduron a ffurflenni ar gyfer y cyhoedd a hynny'n aml ar gyfer prosiectau ar raddfa fach. Roedd o'r farn y byddai

---

<sup>40</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

goblygiadau adnoddau sylweddol ynghlwm â chyfieithu'r rhain i gyd ac felly nid oedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur. Yn yr un modd, roedd Cyngor Iechyd Cymuned Abertawe Bro Morgannwg o'r farn bod y safonau hyn yn gofyn am ormod o adnoddau gan sefydliad bach. Serch hynny, roedd o'r farn y dylai bod gofyniad arno i gynhyrchu fersiwn Gymraeg o ffurflen os gwneir cais amdani.

**Gweithgaredd 10: Gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff  
Safonau ar gyfer gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff [52-57]**

Nododd pob un o'r 9 person perthnasol (100%) o fewn y grŵp Cyngorau Iechyd Cymuned eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 9 person perthnasol (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 80% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff.<sup>41</sup>

Cadarnhaodd pob un o'r personau perthnasol fod nifer o'r gofynion ynghlwm â'r safonau hyn eisoes yn arfer cyfredol neu y medrant gydymffurfio â hwy. O ran hynny, roedd pob un heblaw Cyngorau Iechyd Cymuned Cwm Taf a Chaerdydd a'r Fro yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

Er i Gyngor Iechyd Cymuned Cwm Taf nodi bod y safonau hyn yn gyraeddadwy ar gyfer nifer o dudalennau'r wefan, roedd o'r farn y byddai costau sylweddol, a fyddai tu hwnt i gyllideb y sefydliad, ynghlwm â chyfieithu dogfennau megis adroddiadau a chofnodion cyfarfod llawn y cyngor. Dylid nodi yr eglurir yn nogfen rheoliadau'r Gymraeg nad yw safonau 52-56 yn gymwys i'r dogfennau hyn.<sup>42</sup>

Cydnabu Cyngor Iechyd Cymuned Caerdydd a'r Fro fod nifer o'r gofynion hyn yn arfer cyfredol ond ei fod yn gorfod talu i'r gwaith gael ei gyfieithu. At hynny, oherwydd diffyg dealltwriaeth o'r Gymraeg ymhlith ei staff, fe nododd ei bod yn heriol priodoli'r dogfennau cywir i'r penawdau cywir. Roedd hefyd yn cwestiynu cydraddoldeb aelodau eraill o'r boblogaeth yn y cyswllt hwn.

**Gweithgaredd 11: Arwyddion a arddangosir gan gorff  
Safonau ar gyfer arwyddion a arddangosir gan gorff [58-60]**

Nododd 7 o'r 9 person perthnasol (78%) o fewn y grŵp Cyngorau Iechyd Cymuned eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 7 person perthnasol (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 89% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer arwyddion a arddangosir gan gorff.<sup>43</sup>

Cadarnhaodd 7 person perthnasol (Cyngorau Iechyd Cymuned Caerdydd a'r Fro, Betsi Cadwaladr, Abertawe Bro Morgannwg, Cwm Taf, Sir Drefaldwyn ac Aneurin Bevan ynghyd â Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned Cymru) fod y gofynion eisoes yn arfer cyfredol o fewn eu sefydliadau neu y byddant yn medru cydymffurfio â hwy. O'r rheiny,

<sup>41</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

<sup>42</sup> Gweler paragraff 32, Rhan 3, Atodlen 1, Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Gweinidogion Cymru, Cyngorau Sir a Chyngorau Bwrdeistref Sirol, ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) 2015

<sup>43</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.



roedd pob un ond Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

Nododd Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan fod nifer o'r gofynion yn arfer cyfredol ond bod y testun Saesneg wedi'i osod fel mai hwnnw sy'n cael ei ddarllen gyntaf ar hyn o bryd. Er nodi ei fod o'r farn y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn afresymol, nododd y byddai'n gosod y Gymraeg yn gyntaf ar arwyddion pe byddai'n rhaid eu disodli yn y dyfodol.

### **Gweithgaredd 12: Derbynn ymwelwyr i adeiladau'r corff Safonau ar gyfer derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff [61-66]**

Nododd 7 o'r 9 person perthnasol (78%) o fewn y grŵp Cyngorau Iechyd Cymuned eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 4 person perthnasol (57%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 22% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff.<sup>44</sup>

Cadarnhaodd Cyngorau Iechyd Cymuned Betsi Cadwaladr a Hywel Dda fod y gofynion ynghlwm eisoes yn weithredol ac y byddai eu gwneud yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Nododd Cyngor Iechyd Cymuned Cwm Taf y byddai'n medru cydymffurfio â nifer o'r safonau hyn. Er hynny, nid oedd o'r farn y byddai'n medru gwarantu cydymffurfiaeth lawn â safonau 63-65 am nad oes ganddo staff sy'n medru'r Gymraeg yn rhugl ar hyn o bryd ac felly nid oedd yn ystyried y byddai gwneud yr holl safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Nid oedd yr un o'r personau perthnasol eraill yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Y prif reswm a roddwyd dros hynny oedd prinder neu ddiffyg staff sy'n medru'r Gymraeg. Er i nifer nodi y byddai modd iddynt gydymffurfio'n rhannol, nid oeddynt yn credu eu bod mewn sefyllfa i fedru gwarantu y byddai'r gwasanaeth ar gael bob amser. At hynny, roedd Cyngor Iechyd Cymuned Abertawe Bro Morgannwg o'r farn y byddai'r safonau yn gofyn am adnoddau sylweddol gan sefydliad bach ac felly y dylai cymesuredd fod yn berthnasol ym mhob achos.

Nododd Cyngor Iechyd Cymuned Sir Drefaldwyn a Brycheiniog a Maesyfed fod eu swyddfeydd wedi'u lleoli mewn adeiladau sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru a'r Cyngor Sir ac mai'r sefydliadau hynny sy'n gyfrifol am drefniadau staffio'r brif dderbynfa.

Nododd Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan nad oes modd i aelodau'r cyhoedd gerdded i mewn i'w swyddfa fel y dymunent, dim ond trwy apwyntiad neu gyfarfod a drefnir o flaen llaw. Eglurwyd y gofynnir am ddewis iaith adeg hynny ac y darperir gwasanaeth cyfieithu at y perwyl hwnnw os mai Cymraeg a ddewisir.

### **Gweithgaredd 13: Corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol Safonau ar gyfer corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol [67-68]**

Nododd 8 o'r 9 person perthnasol (89%) o fewn y grŵp Cyngorau Iechyd Cymuned eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 8 person perthnasol (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

---

<sup>44</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Wrth ddadansoddi ymrwymiadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 50% o'r ymrwymiadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol.<sup>45</sup>

Cadarnhaodd pob un o'r personau perthnasol heblaw Cyngor Iechyd Cymuned Caerdydd a'r Fro fod y gofynion ynghlwm â'r safonau eisoes yn arfer cyfredol. O'r rheiny, fe nododd pob un heblaw Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan eu bod yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Ni ddarparodd Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan dystiolaeth yn y cyd-destun hwn.

Nododd Cyngor Iechyd Cymuned Caerdydd ei fod yn gweithio tuag at y safonau hyn ond nad oedd yn ystyried y byddai eu gwneud yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

#### **Gweithgaredd 14: Corff yn dyfarnu ar geisiadau am grant Safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar geisiadau am grant [69-73]**

Ni nododd yr un o'r 9 person perthnasol (0%) o fewn y grŵp Cynghorau Iechyd Cymuned eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Wrth ddadansoddi ymrwymiadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 54% o'r ymrwymiadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar geisiadau am grant.<sup>46</sup>

Cadarnhaodd pob un o'r personau perthnasol nad ydynt yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

#### **Gweithgaredd 15: Corff yn dyfarnu ar dendrau am gontract Safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar dendrau am gontract [74-78]**

Nododd 1 o'r 9 person perthnasol (11%) o fewn y grŵp Cynghorau Iechyd Cymuned eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, ni nododd yr un person perthnasol (0%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymiadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 54% o'r ymrwymiadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar dendrau am gontract.<sup>47</sup>

Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru oedd yr unig berson perthnasol i nodi ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. Serch hynny, nid oedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur gan nodi pryderon ynghylch maint y sefydliad. Fe nododd fod nifer o'r contractau o werth isel ac nad oedd y rhain yn gofyn am unrhyw broses dendro ffurfiol. Pe byddai'n edrych i ddyfarnu ar dendrau am gontractau mwy, fe nododd y byddai'n dilyn rheolau caffael y GIG o dan oruchwyliaeth Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, sef y sefydliad sy'n ei weinyddu.

<sup>45</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymiadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

<sup>46</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymiadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

<sup>47</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymiadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

### **Gweithgaredd 16: Codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff**

#### **Safonau ar gyfer codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff [79-80]**

Nododd 4 o'r 9 person perthnasol (44%) o fewn y grŵp Cyngorau lechyd Cymuned eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 4 person perthnasol (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 44% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff.<sup>48</sup>

Dylid nodi bod adran 12(2)(b) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn nodi bod rhaid i gynlluniau iaith Gymraeg bennu ym mha ffyrdd y bydd sefydliad yn sicrhau cyhoeddusrwydd i'r cynllun. Pwysleisia'r Comisiynydd nad yw'r mesur hwn yn elfen ddewisol o fewn y ddeddfwriaeth.

Cadarnhaodd Cyngorau lechyd Cymuned Betsi Cadwaladr, Brycheiniog a Maesyfed, Sir Drefaldwyn ac Aneurin Bevan fod y safonau hyn eisoes yn weithredol i raddau mwy neu lai ac roeddynt o'r farn y byddai eu gwneud yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Er i Gyngor lechyd Cymuned Abertawe Bro Morgannwg nodi nad yw'n gwneud y gweithgaredd hwn ar hyn o bryd, roedd o'r farn y byddai gwneud y safonau'n benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Cadarnhaodd Bwrdd Cyngorau lechyd Cymuned Cymru a Chyngor lechyd Cymuned Caerdydd a'r Fro nad ydynt yn gwneud y gweithgaredd ac nad ydynt yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur o'r herwydd.

Ym marn Cyngor lechyd Cymuned Cwm Taf, mae'r safonau hyn yn aneglur ac yn ymddangos i fod yn dyblygu safonau eraill. Wrth bennu safonau mewn rheoliadau, dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod y rheoliadau terfynol yn amlinellu'r gofyniad yn glir.

### **Gweithgaredd 17: Hunaniaeth gorfforaethol corff**

#### **Safonau ar gyfer hunaniaeth gorfforaethol corff [81]**

Nododd 8 o'r 9 person perthnasol (89%) o fewn y grŵp Cyngorau lechyd Cymuned eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 8 person perthnasol (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safon ar gyfer hunaniaeth gorfforaethol corff.<sup>49</sup>

Cadarnhaodd pob un o'r personau perthnasol heblaw Cyngor lechyd Cymuned Caerdydd a'r Fro fod ganddynt hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog eisoes a'u bod yn ystyried y byddai gwneud y safon hon yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Nododd Cyngor lechyd Cymuned Caerdydd a'r Fro nad ydyw'n gwneud y gweithgaredd ar hyn o bryd gan nad ydyw'n sefydliad corfforaethol. Oherwydd hynny, nid oedd yn ystyried y byddai gwneud y safon hon yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

<sup>48</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

<sup>49</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

**Gweithgaredd 18: Cyrsiau a ddarperir gan gorff  
Safonau ar gyfer cyrsiau a ddarperir gan gorff [82-84]**

Ni nododd yr un o'r 9 person perthnasol (0%) o fewn y grŵp Cynghorau Iechyd Cymuned eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cyrsiau a ddarperir gan gorff.

Cadarnhaodd pob un o'r personau perthnasol nad ydynt yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

**Gweithgaredd 19: Systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff  
Safonau ar gyfer systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff [85]**

Nododd 1 o'r 9 person perthnasol (11%) o fewn y grŵp Cynghorau Iechyd Cymuned eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 1 person perthnasol (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 11% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safon ar gyfer systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff.<sup>50</sup>

Cyngor Iechyd Cymuned Cwm Taf oedd yr unig berson perthnasol i nodi ei fod yn gwneud y gweithgaredd hwn ac yn gwneud y gweithgaredd hwnnw'n Gymraeg. Er hynny, roedd o'r farn bod y safon wedi'i diffinio'n wael a bod angen gwell eglurder ar beth yw system annerch y cyhoedd. Fe nododd fod y sefydliad yn cadeirio nifer o gyfarfodydd cyhoeddus sydd weithiau yn gofyn am ddefnyddio system annerch neu feicroffon. Er i'r person perthnasol egluro y cyfarchir yn ddwyieithog drwy gyfrwng y rhain, nid oes ganddo staff Cymraeg ar hyn o bryd ac felly fe nododd y byddai'n rhaid iddo ddefnyddio cyfieithydd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth ac y byddai hynny'n gostus. Cadarnhaodd nad oes ganddo system annerch gyhoeddus yn ei swyddfa ac nid oedd yn ystyried y byddai gwneud y safon hon yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur oherwydd y rhesymau hyn.

Roedd Cyngor Iechyd Cymuned Abertawe Bro Morgannwg yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

**Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau cyflenwi gwasanaethau [158-163]**

Ymddengys o'r dystiolaeth a dderbyniwyd fod nifer o'r personau perthnasol wedi camddehongli'r safonau hyn. Nododd sawl un fod y cyfrifoldeb o lunio safonau cyflenwi gwasanaethau yn rhan o gylch gwaith Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru. Eglurodd Cyngor Iechyd Cymuned Cwm Taf fod angen gwell eglurder ar hyn ac nad ydyw'n glir o'r safonau hyn a ydynt yn cyfeirio at safonau cyflenwi gwasanaethau yng nghyswllt y Gymraeg yn unig ynteu safonau cyflenwi gwasanaethau ar draws holl gyfrifoldebau'r cynghorau iechyd cymuned. Wrth bennu safonau mewn rheoliadau, dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod y rheoliadau terfynol yn amlinellu'r gofyniad yn glir.

Fe nododd Cyngor Iechyd Cymuned Cwm Taf hefyd fod y gofynion ynghlwm â chynnwys adroddiadau blynyddol y cynghorau iechyd cymuned wedi'u gosod allan ym mharagraff 25, Rheoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2010. Fe nododd bod elfennau o safon 161 i'w gweld yn gwrthdaro â'r gofynion

<sup>50</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

yn y rheoliadau hynny. Roedd o'r farn y byddai'n amhriodol iddo orfod adrodd ar ddwy amserlen reoleiddiol ar wahân yn ogystal â dwy set wahanol o ofynion.

Nododd Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan ei fod eisoes yn gwario tua £11,990 ar y Gymraeg ac y byddai gwario mwy ar wasanaethau cyfieithu yn gorfod cael ei dynnu o'i ddyletswyddau statudol. Gan ystyried hynny, nid oedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

### **Safonau llunio polisi [86-95]**

Wrth ddadansoddi ymrwymïadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymïadau'n cyfateb i'r safonau llunio polisi.<sup>51</sup>

Cadarnhaodd Cyngor Iechyd Cymuned Cwm Taf ei fod eisoes yn defnyddio teclyn asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer penderfyniadau polisi, er cydnabod ei fod angen gwneud mwy o ddefnydd ohono. O ran hynny, fe nododd ei fod yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur. Yn yr un modd, nododd Cyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda fod yr holl wybodaeth berthnasol yn ei gynllun iaith Gymraeg a'i fod yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Nododd Cyngorau Iechyd Cymuned Caerdydd a'r Fro, Aneurin Bevan, Sir Drefaldwyn, Brycheiniog a Maesyfed, Betsi Cadwaladr ac Abertawe Bro Morgannwg nad ydynt yn sefydliadau sy'n llunio polisiâu. Nodwyd y llunnir eu polisiâu gan Fwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned Cymru a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a'u bod o'r farn y byddai'r safonau hyn yn gymwys iddynt hwy yn unig. Nid oeddynt yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

Nododd Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned Cymru, fodd bynnag, nad ydyw yntau'n sefydliad sy'n llunio polisiâu chwaith ar hyn o bryd. Fe nododd bod ganddo rôl wrth ymgynghori â'r cyhoedd ar faterion sy'n ymwneud â gwasanaethau'r GIG a bod y newidiadau arfaethedig i'w swyddogaethau yn golygu y bydd ganddo swyddogaeth llunio polisi maes o law. Er cydnabod y byddai'n ymdrechu i gydymffurfio â'r safonau hyn, nododd fod cyfyngiadau staffio a chyllid, ac felly nid oedd yn ystyried y byddai eu gwneud yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

### **Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau llunio polisi [164-169]**

Nododd Cyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda a Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned Cymru eu bod yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

Nid oedd y personau perthnasol eraill yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur gyda Chyngorau Iechyd Cymuned Sir Drefaldwyn, Brycheiniog a Maesyfed a Betsi Cadwaladr yn nodi mai Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned Cymru a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys sy'n gyfrifol am lunio'u polisiâu. Nododd Cyngor Iechyd Cymuned Abertawe Bro Morgannwg nad oedd ganddo, fel sefydliad bach, yr adnoddau na'r cyllid i gydymffurfio.

Pwysleisiodd Cyngor Iechyd Cymuned Cwm Taf fod angen gwell eglurder ar y safonau hyn ac nad ydyw'n glir a ydynt yn cyfeirio at safonau llunio polisi yng nghyswllt y Gymraeg yn unig ynteu safonau llunio polisi ar draws holl gyfrifoldebau'r cyngor. Wrth bennu

<sup>51</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymïadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

safonau mewn rheoliadau, dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod y rheoliadau terfynol yn amlinellu'r gofyniad yn glir.

At hynny, fe nododd Cyngor Iechyd Cymuned Cwm Taf fod y gofynion ynghlwm â chynnwys adroddiadau blynyddol y cyngorau iechyd cymuned wedi'u gosod allan ym mharagraff 25, Rheoliadau Cyngorau Iechyd Cymuned (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2010. Fe nododd fod elfennau o safon 167 i'w gweld yn gwrthdaro â'r gofynion yn y rheoliadau hynny. Roedd o'r farn y byddai'n amhriodol iddo orfod adrodd ar ddwy amserlen reoleiddiol ar wahân yn ogystal â dwy set wahanol o ofynion.

## **Safonau gweithredu [96-142]**

### **Safonau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol corff [96-109]**

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 7% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol corff.<sup>52</sup>

Nododd sawl un o'r personau perthnasol nad oeddynt yn credu bod y safonau hyn (boed i gyd neu ddetholiad ohonynt) yn gymwys iddynt gan nodi eu bod ar ddeall mai cyfrifoldeb Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned Cymru a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, fel eu cyflogwyr, fyddai eu gweithredu. Fe nododd Cyngor Iechyd Cymuned Betsi Cadwaladr y byddai'n croesawu gweithio tuag at y safonau ond bod angen darparu'r dogfennau perthnasol yn ddwyieithog yn genedlaethol.

Fodd bynnag, nododd Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned Cymru ei fod yn sefydliad a gaiff ei weinyddu gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys ac felly y byddai'n ofynnol iddo ddilyn yr un safonau a osodir ar Fwrdd Iechyd Addysgu Powys yn y cyd-destun hwn.

Nododd Cyngor Iechyd Cymuned Cwm Taf nad oes dyletswydd arno i hybu'r Gymraeg ond ei fod, serch hynny, yn awyddus i gefnogi defnydd o'r Gymraeg o fewn ei sefydliad. Fe nododd y byddai'n medru cydymffurfio â safon 98 ond y byddai angen cymorth cyfieithu arno. Yn yr un modd, nododd Cyngor Iechyd Cymuned Caerdydd a'r Fro ei fod eisoes yn cydymffurfio'n rhannol â safonau 97 a 98 ond nid oedd o'r farn bod safonau 97-102 yn rhesymol a chymesur gan nad oes ganddo staff sy'n medru'r Gymraeg ar hyn o bryd.

Nododd Cyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda fod y gofynion ynghlwm â'r safonau hyn eisoes yn arfer cyfredol a bod yr holl wybodaeth ar gael yn ei gynllun iaith Gymraeg.

### **Safonau ar gyfer cwynion gan aelodau o staff corff [110-113]**

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cwynion gan aelodau o staff corff.

Cadarnhaodd y mwyafrif o'r personau perthnasol fod nifer o'r gofynion ynghlwm â'r safonau hyn eisoes yn weithredol ond eu bod yn cael eu darparu'n genedlaethol gan Fwrdd Cyngorau Iechyd Cymru o dan adain Bwrdd Iechyd Addysgu Powys. Serch hynny, nododd Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned Cymru nad oes yr un o'r safonau gweithredu yn gymwys iddo gan ei fod yn rhwym i brosesau Bwrdd Iechyd Addysgu Powys.

---

<sup>52</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

Nododd Cyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda fod y safonau hyn eisoes yn weithredol ganddo gan nodi bod yr holl wybodaeth yn ei gynllun iaith Gymraeg.

Yn ategol i hynny, nododd Cynghorau Iechyd Cymuned Abertawe Bro Morgannwg, Caerdydd a'r Fro a Chwm Taf nad oes ganddynt staff sy'n medru'r Gymraeg ac nad oes yr un aelod o staff wedi dangos dyhead i dderbyn gwasanaeth yn unol â'r safonau hyn hyd yma. Fe nododd Cyngor Iechyd Cymuned Cwm Taf y byddai'n rhaid defnyddio gwasanaeth cyfieithu at y pwrpas hwnnw.

### **Safonau ar gyfer corff yn disgyblu staff [114-117]**

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn disgyblu staff.

Cadarnhaodd Cyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda fod y gofynion ynghlwm â'r safonau hyn eisoes yn weithredol ganddo a bod yr holl wybodaeth yn ei gynllun iaith Gymraeg. Nododd Cyngor Iechyd Cymuned Cwm Taf fod rhai o'r gofynion yn arfer cyfredol ond nad oes ganddo staff sy'n medru'r Gymraeg ac nad oes yr un aelod o staff wedi dangos dyhead i dderbyn gwasanaeth yn unol â'r safonau hyn hyd yma. Fe nododd y byddai'n rhaid defnyddio gwasanaeth cyfieithu at y pwrpas hwnnw. Cadarnhaodd y byddai'n medru cydymffurfio â safon 110A.

Nododd pob un o'r cynghorau Iechyd Cymuned sy'n weddill nad ydynt yn rhan o brosesau cwyntion am staff ac mai swyddogaeth Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, fel eu cyflogwyr, fyddai gweithredu'r safonau hyn yn y cyswllt hwn. Fodd bynnag, nododd Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru ei fod yn sefydliad a gaiff ei weinyddu gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys ac felly y byddai'n ofynnol iddo ddilyn yr un safonau a osodir ar Fwrdd Iechyd Addysgu Powys yn y cyd-destun hwn.

### **Safonau ar gyfer technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan gorff, ac ynghylch y fewnwyd [118-124]**

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 14% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan gorff, ac ynghylch y fewnwyd.<sup>53</sup>

Nododd Cynghorau Iechyd Cymuned Aneurin Bevan, Hywel Dda a Betsi Cadwaladr fod safon 118 eisoes yn weithredol ganddynt i raddau mwy neu lai.

Nododd Cyngor Iechyd Cymuned Cwm Taf, pe byddai system mewnwyd yn cael ei datblygu, y byddai hynny'n digwydd ar sail genedlaethol wedi'i arwain gan Fwrdd Cynghorau Iechyd Cymru.

Nododd Cyngor Iechyd Cymuned Caerdydd nad yw'r safonau hyn yn weithredol ganddo ar hyn o bryd ac nad oes ganddo gyfleusterau ar eu cyfer. Fodd bynnag, fe nododd ei fod yn trosglwyddo i Wasanaeth Gwybodaeth GIG Cymru yn fuan ac efallai y caiff hyn sylw bryd hynny. Ni ddarparwyd rhagor o wybodaeth yn y cyswllt hwn.

Nododd Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru ei fod yn sefydliad a gaiff ei weinyddu gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys ac felly y byddai'n ofynnol i ddilyn yr un safonau a osodir ar Fwrdd Iechyd Addysgu Powys yn y cyd-destun hwn.

---

<sup>53</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

### **Safonau ar gyfer corff yn meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu [125-133]**

Wrth ddadansoddi ymrwymiadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 78% o'r ymrwymiadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu.<sup>54</sup>

Nododd Cyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda fod y safonau hyn yn arfer cyfredol a bod yr holl wybodaeth wedi'i chynnwys yn ei gynllun iaith Gymraeg. Cadarnhaodd Cyngorau Iechyd Cymuned Cwm Taf, Caerdydd a'r Fro, Aneurin Bevan a Betsi Cadwaladr fod nifer o'r safonau'n cael eu gweithredu ganddynt i raddau mwy neu lai.

Roedd Cyngorau Iechyd Cymuned Sir Drefaldwyn, Brycheiniog a Maesyfed ac Abertawe Bro Morgannwg o'r farn mai cyfrifoldeb Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys fel eu cyflogwyr fyddai gweithredu'r safonau hyn. Fodd bynnag, nododd Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned Cymru ei fod yn sefydliad a gaiff ei weinyddu gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys ac felly y byddai'n ofynnol iddo ddilyn yr un safonau a osodir ar Fwrdd Iechyd Addysgu Powys yn y cyd-destun hwn.

### **Safonau ar gyfer recriwtio gan gorff [134-138]**

Wrth ddadansoddi ymrwymiadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 59% o'r ymrwymiadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer recriwtio gan gorff.<sup>55</sup>

Cadarnhaodd Cyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda fod y gofynion ynghlwm â'r safonau hyn eisoes yn weithredol o fewn ei sefydliad a bod y wybodaeth berthnasol yn ei gynllun iaith Gymraeg.

Er i ambell berson perthnasol arall nodi fod rhai elfennau o'r safonau hyn yn cael eu gweithredu, nododd 7 person perthnasol (Cyngorau Iechyd Cymuned Cwm Taf, Caerdydd a'r Fro, Aneurin Bevan, Sir Drefaldwyn, Brycheiniog a Maesyfed, Abertawe Bro Morgannwg a Betsi Cadwaladr) fod recriwtio yn gyfrifoldeb i Fwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned Cymru a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys fel eu cyflogwyr. O'r rheiny, nododd sawl un fod hysbysebion swyddi yn cael eu gwneud gan GIG Cymru. Nododd Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned Cymru eisoes nad oedd yn credu bod yr un o'r safonau gweithredu'n gymwys iddo gan ei fod yn rhwym i brosesau Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, sef y sefydliad sy'n ei weinyddu.

### **Safonau ar gyfer arwyddion a arddangosir yng ngweithle corff [139-141]**

Wrth ddadansoddi ymrwymiadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 92% o'r ymrwymiadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer arwyddion a arddangosir yng ngweithle corff.<sup>56</sup>

Cadarnhaodd Cyngorau Iechyd Cymuned Caerdydd a'r Fro, Aneurin Bevan, Sir Drefaldwyn, Brycheiniog a Maesyfed, Abertawe Bro Morgannwg a Betsi Cadwaladr eu bod eisoes yn arddangos arwyddion tu fewn i adeiladau'r sefydliad yn Gymraeg. Nododd pob un ohonynt hwy heblaw Cyngorau Iechyd Cymuned Aneurin Bevan ac Abertawe Bro Morgannwg fod y testun Gymraeg yn cael ei arddangos fel mai hwnnw sy'n debygol o gael

<sup>54</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymiadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

<sup>55</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymiadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

<sup>56</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymiadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.



ei ddarllen yn gyntaf. Nododd Cyngor Iechyd Cymuned Cwm Taf fod rhan fwyaf o'i arwyddion yn Gymraeg ond bod rhai anghysonderau ar hyn o bryd.

Nododd Cyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda nad yw'n arddangos arwyddion yn Gymraeg o fewn ei weithle ar hyn o bryd. Ni ddarparodd Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned Cymru dystiolaeth yng nghyswllt yr uchod er nodi eisoes nad oedd yn ystyried bod yr un o'r safonau gweithredu yn gymwys iddo gan ei fod yn rhwym i brosesau Bwrdd Iechyd Addysgu Powys.

### **Safonau ar gyfer cyhoeddiadau a negeseuon sain yng ngweithle corff [142]**

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cyhoeddiadau a negeseuon sain yng ngweithle corff.

Cadarnhaodd pob un o'r personau perthnasol heblaw Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned Cymru nad ydynt yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. Er hynny, nid oedd Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned Cymru yn ystyried bod yr un o'r safonau gweithredu yn gymwys iddo gan ei fod yn rhwym i brosesau Bwrdd Iechyd Addysgu Powys.

### **Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau gweithredu [170-175]**

Ni ddarparodd Cyngor Iechyd Cymuned Caerdydd a'r Fro a Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned Cymru dystiolaeth yn y cyswllt hwn. Nododd Cyngorau Iechyd Cymuned Betsi Cadwaladr, Hywel Dda, Brycheiniog a Maesyfed a Sir Drefaldwyn eu bod yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

Nid oedd Cyngorau Iechyd Cymuned Abertawe Bro Morgannwg, Aneurin Bevan a Chwm Taf yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Cwestiynodd Cyngor Iechyd Cymuned Abertawe Bro Morgannwg gymesured y gofynion ond ni ddarparwyd unrhyw wybodaeth bellach i ategu'r farn honno. Nid oedd Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan o'r farn y byddai'n medru cydymffurfio oherwydd cyfyngiadau ariannol. Eglurodd Cyngor Iechyd Cymuned Cwm Taf fod angen gwell eglurder ar hyn ac nad ydyw'n glir o'r safonau hyn a ydynt yn cyfeirio at safonau gweithredu yng nghyswllt y Gymraeg yn unig ynteu safonau gweithredu ar draws holl gyfrifoldebau'r cyngorau Iechyd Cymuned. Wrth bennu safonau mewn rheoliadau, dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod y rheoliadau terfynol yn amlinellu'r gofyniad yn glir.

At hynny, cyfeiriodd Cyngor Iechyd Cymuned Cwm Taf fod y gofynion ynghlwm â chynnwys adroddiadau blynyddol y cyngorau Iechyd Cymuned wedi'u gosod allan ym mharagraff 25, Rheoliadau Cyngorau Iechyd Cymuned (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2010. Fe nododd bod elfennau o safon 173 i'w gweld yn gwrthdaro â'r gofynion yn y rheoliadau hynny. Roedd o'r farn y byddai'n amhriodol iddo orfod adrodd ar ddwy amserlen reoleiddiol ar wahân yn ogystal â dwy set wahanol o ofynion.

### **Safonau hybu [143-144]**

Cadarnhaodd Cyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda ei fod yn dymuno cydsynio i wneud safonau hybu yn gymwysadwy iddo ynghyd â'r safonau sy'n ymdrin â materion atodol yn y cyswllt hwn ac y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Nid oedd yr un o'r personau perthnasol eraill yn dymuno cydsynio i wneud safonau hybu yn gymwysadwy iddynt.

### **Safonau cadw cofnodion [145-157]**

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 77% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau cadw cofnodion.<sup>57</sup>

Cadarnhaodd sawl un o'r personau perthnasol fod nifer o'r gofynion eisoes yn arfer cyfredol. Roedd 6 pherson perthnasol (Cynghorau Iechyd Cymuned Cwm Taf, Aneurin Bevan, Sir Drefaldwyn, Brycheiniog a Maesyfed, Hywel Dda a Betsi Cadwaladr) yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Er hynny, nododd Cyngor Iechyd Cymuned Cwm Taf fod safon 147 yn aneglur iddo gan nodi nad yw'n glir a yw'r safon yn cyfeirio at safonau'r Gymraeg yn unig ai peidio. Wrth bennu safonau mewn rheoliadau, dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod y rheoliadau terfynol yn amlinellu'r gofyniad yn glir.

Er i Gyngorau Iechyd Cymuned Caerdydd a'r Fro ac Abertawe Bro Morgannwg nodi bod rhai o'r safonau hyn yn weithredol ganddynt, nid oeddynt yn ystyried y byddai eu gwneud yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Cyfeiriwyd at ddiffyg staff sy'n medru'r Gymraeg ynghyd â lefel y galw am dderbyn y gwasanaethau hyn yn Gymraeg.

Nododd Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned Cymru y caiff ei weinyddu gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys ac y byddai'n ofynnol iddo gydymffurfio â'r un safonau â Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn y cyd-destun hwn.

### **Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau cadw cofnodion [178-179]**

Roedd Cyngorau Iechyd Cymuned Sir Drefaldwyn, Brycheiniog a Maesyfed, Hywel Dda a Betsi Cadwaladr yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Serch hynny, fe nododd Cyngorau Iechyd Cymuned Sir Drefaldwyn a Brycheiniog a Maesyfed y byddai cydymffurfio yn golygu goblygiadau adnoddau a chyllid gan mai tîm bach o staff sydd ganddynt.

Nododd Cyngorau Iechyd Cymuned Caerdydd a'r Fro, Cwm Taf, Aneurin Bevan ac Abertawe Bro Morgannwg nad oeddynt yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Ni ddarparwyd rhesymau penodol dros hynny, er i Gyngor Iechyd Cymuned Abertawe Bro Morgannwg gyfeirio at ei sylwadau blaenorol am gymesuredd ac adnoddau.

Cyfeiriodd Cyngor Iechyd Cymuned Cwm Taf unwaith eto at y gofynion ynghlwm â chynnwys adroddiadau blynyddol y cyngorau Iechyd Cymuned sydd wedi'u gosod allan ym mharagraff 25, Rheoliadau Cyngorau Iechyd Cymuned (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2010. Fe nododd bod elfennau o safon 178 i'w gweld yn gwrthdaro â'r gofynion yn y rheoliadau hynny. Roedd o'r farn y byddai'n amhriodol iddo orfod adrodd ar ddwy amserlen reoleiddiol ar wahân yn ogystal â dwy set wahanol o ofynion. Er hynny, cydnabu fod gofyniad i gynhyrchu "Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg" yn ymddangos i fod yn ddull synhwyrol.

---

<sup>57</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

## Ymddiriedolaethau GIG

### Safonau cyflenwi gwasanaethau

#### **Gweithgaredd 1: Gohebiaeth a anfonir gan gorff**

#### **Safonau ar gyfer gohebiaeth a anfonir gan gorff [1-7]**

Nododd pob un o'r 3 pherson perthnasol (100%) o fewn y grŵp Ymddiriedolaethau GIG eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 3 pherson perthnasol (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 91% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer gohebiaeth a anfonir gan gorff.<sup>58</sup>

Yn dilyn derbyn ymateb gan Lywodraeth Cymru, nododd Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru nad oedd y term "personau" yn y rheoliadau drafft yn cynnwys sefydliadau corfforaethol ac anghorfforaethol. Gyda hynny mewn golwg, ymatebwyd i'r holiadur gydag aelodau'r cyhoedd yn unig mewn golwg. Wrth bennu safonau mewn rheoliadau, dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod y rheoliadau terfynol yn amlinellu'r gofyniad yn glir.

O ran safonau 2 a 3, nododd yr holl bersonau perthnasol nad ydynt ar hyn o bryd yn cadw cofnod ffurfiol o ddymuniad person i dderbyn gohebiaeth ganddynt yn Gymraeg. Serch hynny, nododd Ymddiriedolaethau GIG Felindre a Gwasanaethau Ambiwylans Cymru fod hynny'n digwydd yn anffurfiol mewn rhai adrannau ond bod anghysonderau ar draws y sefydliad cyfan. Nododd Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru ei bod ar hyn o bryd yn anfon pob gohebiaeth at y cyhoedd yn ddwyieithog, waeth be fo'u dewis iaith. Er cydnabod y byddai'n dechnegol bosibl i wneud y newidiadau angenrheidiol i'w systemau TG er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofyniad hwn, nodwyd y byddai angen buddsoddiad sylweddol mewn amser ac adnoddau i wireddu hynny.

Nododd Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru fod anghysonderau wrth weithredu safonau 4 a 5 ar hyn o bryd ac y gallai sicrhau cysondeb fod yn anodd wrth ystyried nad oes ganddi gyfieithwyr mewnol a bod rhaid contractio'r gwaith cyfieithu i asiantaethau allanol.

Yn yr un modd, mynegodd Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru bryderon ynghylch ymarferoldeb cydymffurfio â safon 7 mewn rhai sefyllfaoedd. Nodwyd y byddai goblygiadau ariannol sylweddol wrth addasu rhai llythyrau templed sy'n bodoli i gynnwys y datganiad perthnasol, yn enwedig pan fo llythyrau o'r fath wedi'u cyfyngu i un dudalen a'r gwagle yn gyfyngedig.

Nododd Ymddiriedolaeth GIG Felindre ei bod yn ystyried y byddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddi yn rhesymol a chymesur. Nododd y ddau berson perthnasol arall eu bod yn ystyried y byddai gwneud detholiad o'r safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

---

<sup>58</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

## **Gweithgaredd 2: Galwadau ffôn at gorff a chan gorff**

### **Safonau ar gyfer galwadau ffôn at gorff a chan gorff [8-22]**

Nododd pob un o'r 3 pherson perthnasol (100%) o fewn y grŵp Ymddiriedolaethau GIG eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd Ymddiriedolaethau GIG Felindre a Gwasanaethau Ambiwylans Cymru eu bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 58% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer galwadau ffôn at gorff a chan gorff.<sup>59</sup>

Nododd Ymddiriedolaeth GIG Felindre fod anghysonderau o fewn gwahanol adrannau a sefydliadau a weinyddir ganddi a bod ei gallu i ymateb i alwadau ffôn yn amrywio yn unol ag argaeledd staff sydd â sgiliau iaith Gymraeg ar ddyletswydd. Serch hynny, mae'n nodi ei bod yn ystyried y byddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

Nododd y ddau berson perthnasol arall eu bod yn ystyried y byddai gwneud detholiad o'r safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Nododd Ymddiriedolaethau GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru y byddai'n anodd gwarantu gwasanaeth Gymraeg bob amser ar hyn o bryd ac y byddai eu gallu i gydymffurfio â rhai o'r gofynion yn y dyfodol yn ddibynnol ar eu gallu i recriwtio staff cymwys â sgiliau iaith Gymraeg perthnasol.

Mynegodd Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru bryderon pellach ynglŷn â'i gallu i gydymffurfio â'r safonau hyn yng nghyswllt galwadau brys a hynny yn bennaf oherwydd eu natur argyfyngus, ynghyd â nifer y staff sydd â'r sgiliau iaith Gymraeg perthnasol i ddelio â hwy yn syth.

Yn yr un modd, nododd Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru y byddai'n anodd iawn cydymffurfio â safon 17 gan y byddai angen disodli neu ailwampio ei system teleffonau i gydymffurfio.

## **Gweithgaredd 3: Cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol**

### **Safonau ar gyfer cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol [23-29]**

Nododd pob un o'r 3 pherson perthnasol (100%) o fewn y grŵp Ymddiriedolaethau GIG eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 2 berson perthnasol (67%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 82% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol.<sup>60</sup>

Ni nododd yr un person perthnasol eu bod yn ystyried y byddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur gan godi cwestiynau ynghylch ymarferoldeb eu gweithredu ar hyn o bryd o ystyried nifer y staff sydd ganddynt sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg. Nododd y 3 pherson perthnasol y

<sup>59</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

<sup>60</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

byddai eu gallu i gydymffurfio â'r safonau yn y dyfodol yn dibynnu ar eu gallu i recriwtio neu gaffael staff cymwys â'r sgiliau iaith Gymraeg perthnasol.

Mynegwyd rhai pryderon pellach o ran darparu gwasanaeth cyfieithu mewn cyfarfodydd o'r math hwn gan amlygu y byddai goblygiadau ariannol sylweddol ynghlwm â chontractio'r gwaith i asiantaethau allanol gan nad oes ganddynt gyfieithwyr mewnol ac y gallasai fod yn anodd caffael cyfieithwyr cymwys i fodloni'r galw. Nododd Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru ymhellach y gallasai darparu gwasanaeth cyfieithu mewn rhai cyfarfodydd fod yn anaddas, gan egluro y byddai'n rhaid derbyn cydsyniad y claf yn gyntaf.

Yn ogystal, nododd Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru nad oedd yn deall y rhesymeg dros ddefnyddio canrannau yn safonau 27A-27C ac roedd yn dymuno arweiniad pellach yn eu cylch. Dylid nodi mai mater i'r Comisiynydd fydd dewis pa safonau i'w gosod ar bob person drwy hysbysiad cydymffurfio. Mae'r Rheoliadau'n pennu'r ystod o safonau y gellir eu gosod ar berson. Nid oes rhaid i'r Comisiynydd ei gwneud yn ofynnol i bob person gydymffurfio â phob safon.

#### **Gweithgaredd 4: Cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd Safonau ar gyfer cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd [30-34]**

Nododd pob un o'r 3 pherson perthnasol (100%) o fewn y grŵp Ymddiriedolaethau GIG eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd Ymddiriedolaethau GIG Felindre a Gwasanaethau Ambiwylans Cymru eu bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 93% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd.<sup>61</sup>

Cadarnhaodd Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru fod safonau 30 a 34 eisoes yn arferion cyfredol. Er nad oedd hynny'n wir am safonau 31-33, roedd o'r farn y byddai modd cydymffurfio â hwy a'u bod yn rhesymol a chymesur mewn egwyddor.

Yn yr un modd, nododd Ymddiriedolaeth GIG Felindre y byddai gwneud detholiad o'r safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddi yn rhesymol a chymesur ond y byddai ei gallu i gydymffurfio â safon 34 yn dibynnu ar adnoddau ariannol adrannol ac y byddai costau ychwanegol ynghlwm â darparu gwasanaethau cyfieithu mewn cyfarfodydd o'r fath.

Mynegwyd pryder pellach gan Ymddiriedolaethau GIG Felindre ac Iechyd Cyhoeddus Cymru ynghylch eu gallu i gydymffurfio pe byddai'r safon yn cwmpasu deunydd ysgrifenedig a gynhyrchwyd gan sefydliad arall, a dim fersiwn Gymraeg ar gael.

Nododd Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru y gallasai gydymffurfio â safonau 30-33 ar gyfer cyfarfodydd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth ond nid yng nghyswllt pob cyfarfod cyhoeddus a gynhelir ganddi. Y prif reswm a roddwyd dros hynny oedd nad oes ganddi'r gallu i ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ym mhob cyfarfod cyhoeddus ar hyn o bryd, a hynny oherwydd diffyg gwasanaeth cyfieithu mewnol.

Yn yr un modd, nid oedd yn ystyried y byddai gwneud safon 34 yn benodol gymwys iddi yn rhesymol a chymesur a hynny oherwydd y costau ynghlwm â chyfieithu dogfennau ysgrifenedig. Er iddi egluro bod agenda a chofnodion eu cyfarfodydd Bwrdd yn cael eu

---

<sup>61</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

cyfieithu i'r Gymraeg ar hyn o bryd, fe noda nad oedd ganddi'r gallu na'r adnoddau ariannol i gyfieithu'r holl ddogfennau ar gyfer pob cyfarfod cyhoeddus.

#### **Gweithgaredd 5: Digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff**

##### **Safonau ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff [35-36]**

Nododd pob un o'r 3 pherson perthnasol (100%) o fewn y grŵp Ymddiriedolaethau GIG eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd y 3 pherson perthnasol (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymïadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymïadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff.<sup>62</sup>

Cadarnhaodd y 3 pherson perthnasol (100%) fod y gofynion ynghlwm â'r safonau hyn eisoes yn arfer cyfredol ar y cyfan. Er hynny, nododd Ymddiriedolaeth GIG Felindre fod rhai anghysonderau yn y ddarpariaeth o fewn gwahanol adrannau a sefydliadau a weinyddir ganddi ar hyn o bryd. Yn ategol i hynny, nododd Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru na fyddai'n medru sicrhau cydymffurfiaeth lawn gyda safon 36 ar hyn o bryd oherwydd proffil ieithyddol ei gweithlu cyfredol.

Roedd yr holl bersonau perthnasol yn ystyried y byddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

#### **Gweithgaredd 6: Cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff**

##### **Safonau ar gyfer cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff [37]**

Nododd pob un o'r 3 pherson perthnasol (100%) o fewn y grŵp Ymddiriedolaethau GIG eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd y 3 pherson perthnasol (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymïadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymïadau'n cyfateb i'r safon ar gyfer cyhoeddusrwydd a hysbysebu.<sup>63</sup>

Nododd y 3 pherson perthnasol bod y gofynion ynghlwm â'r safon hon eisoes yn arfer cyfredol, er i Ymddiriedolaeth GIG Felindre nodi bod rhai anghysonderau rhwng y gwahanol adrannau a'r sefydliadau a weinyddir ganddi. Roedd pob un o'r personau perthnasol yn ystyried y byddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

#### **Gweithgaredd 7: Arddangos deunydd yn gyhoeddus**

##### **Safonau ar gyfer arddangos deunydd yn gyhoeddus [38-39]**

Nododd pob un o'r 3 pherson perthnasol (100%) o fewn y grŵp Ymddiriedolaethau GIG eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd y 3 pherson perthnasol (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

<sup>62</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymïadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

<sup>63</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymïadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer arddangos deunydd yn gyhoeddus.<sup>64</sup>

Cadarnhaodd Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru fod y gofynion ynghlwm â'r safonau hyn eisoes yn arfer cyfredol a'i bod o'r farn y byddai'n rhesymol a chymesur iddi gydymffurfio â hwy.

Er hynny, roedd Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn ystyried y byddai gwneud detholiad o'r safonau yn benodol gymwys iddi yn rhesymol a chymesur, a hynny oherwydd nad oes ganddi wasanaeth cyfieithu mewnol na'r gallu, yn ariannol nac mewn adnoddau, i gyfieithu'r holl ddogfennaeth berthnasol.

Nid oedd Ymddiriedolaeth GIG Felindre yn ystyried y byddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddi yn rhesymol a chymesur er iddi nodi y byddai'n gallu cydymffurfio'n rhannol â hwy. Fe noda y byddai'r dasg o sicrhau bod yr holl ddeunydd a gaiff ei arddangos yn gyhoeddus ar draws y gwahanol adrannau a'r sefydliadau a weinyddir ganddi yn heriol iawn.

### **Gweithgaredd 8: Corff yn cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau Safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau [40-49]**

Nododd pob un o'r 3 pherson perthnasol (100%) o fewn y grŵp Ymddiriedolaethau GIG eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd Ymddiriedolaethau GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru eu bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 97% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau.<sup>65</sup>

Cadarnhaodd Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru fod nifer o'r gofynion ynghlwm â'r safonau yn arfer cyfredol ac y byddai gwneud detholiad ohonynt yn benodol gymwys iddi yn rhesymol a chymesur.

Fodd bynnag, nid oedd yn ystyried y byddai gwneud safonau 41(a)<sup>66</sup>, 44 na 46 yn benodol gymwys iddi yn rhesymol a chymesur. Fe noda y byddai'r gofyniad i gynhyrchu'r holl bapurau sydd ar gael i'r cyhoedd yng nghyswllt safon 41(a) yn anodd iawn i'r sefydliad gydymffurfio ag ef. Roedd y rhesymau dros hynny'n cynnwys bod papurau o'r fath yn cael eu cynhyrchu o fewn amserlenni tynn a'r rheiny yn aml yn bapurau hir gyda pheth manylder technegol ynddynt, ynghyd â'r ffaith bod nifer o bapurau yn rhai sydd wedi'u cyflwyno gan drydydd parti. Yn yr un modd, nodwyd y byddai'n anodd cydymffurfio â safon 46 mewn argyfyngau pan fyddai rhaid i ddatganiad i'r wasg gael ei ryddhau yn syth.

Er i Ymddiriedolaeth GIG Felindre nodi bod nifer o'r safonau yn arfer cyfredol, fe noda nad ydyw'n ystyried y byddai gosod y gofynion ynghlwm â safon 41 arni yn rhesymol a chymesur. Roedd hynny am fod cynifer ohonynt yn bodoli, am eu bod yn cynnwys dogfennau gan drydydd parti ac am fod nifer o'r papurau ar eu ffurf drafft. Fe noda y

<sup>64</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

<sup>65</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

<sup>66</sup> [Noder mai cymal o fewn safon 41 y cyfeirir ato yma yn hytrach na safon ar wahân.](#)

byddai'n rhaid contractio'r gwaith cyfieithu i asiantaethau allanol ac roedd o'r farn y byddai hynny'n anymarferol, yn gostus ac yn wrthgynhyrchiol.

Nododd Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru ei bod yn ystyried y byddai gwneud detholiad o'r safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddi yn rhesymol a chymesur, gan nodi y byddai costau sylweddol ynghlwm â chyfieithu'r holl ddogfennau perthnasol.

### **Gweithgaredd 9: Corff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni Safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni [50-51]**

Nododd pob un o'r 3 pherson perthnasol (100%) o fewn y grŵp Ymddiriedolaethau GIG eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd y 3 pherson perthnasol (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni.<sup>67</sup>

Cadarnhaodd Ymddiriedolaethau GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru fod y gofynion ynghlwm â'r safonau yn arferion cyfredol ac y byddai eu gwneud yn benodol gymwys i'r sefydliad yn rhesymol a chymesur.

Fodd bynnag, nid oedd Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ystyried y byddai gwneud safon 51 yn benodol gymwys iddi yn rhesymol a chymesur. Fe noda fod cyfeiriadau Saesneg yn cael eu mewnosod ar wahoddiadau sgrinio Cymraeg gan fod y wybodaeth yn cael ei thynnu o system Gwasanaethau Demograffig Cymru (a ddarperir mewn partneriaeth gan GIG Cymru a Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru) sydd ond yn cadw cyfeiriadau Saesneg. Fe eglura fod y system hon tu hwnt i reolaeth yr Ymddiriedolaeth ac felly na fyddai modd iddi gydymffurfio â'r safon wrth fewnbynnu cyfeiriadau i ffurflenni.

Er i Ymddiriedolaeth GIG Felindre gydnabod bod nifer o'r gofynion ynghlwm yn arferion cyfredol, nid oedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddi yn rhesymol a chymesur. Roedd o'r farn bod angen rhoi ystyriaeth i'r risg glinigol ynghlwm â chynhyrchu ffurflenni dwyieithog mewn sefyllfaoedd lle nad yw aelodau staff yr Ymddiriedolaeth sy'n cwblhau neu'n dadansoddi ffurflen Gymraeg yn meddu ar y sgiliau iaith Gymraeg perthnasol i wneud hynny.

### **Gweithgaredd 10: Gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff Safonau ar gyfer gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff [52-57]**

Nododd pob un o'r 3 pherson perthnasol (100%) o fewn y grŵp Ymddiriedolaethau GIG eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd y 3 pherson perthnasol (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 94% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff.<sup>68</sup>

<sup>67</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

<sup>68</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.



Cadarnhaodd y 3 pherson perthnasol fod cyfran helaeth o'u gwefannau ar gael yn ddwyieithog gydag Ymddiriedolaeth GIG Felindre yn nodi bod ei holl wefannau ac apiau ar gael yn gwbl ddwyieithog. O ran hynny, roedd Ymddiriedolaeth GIG Felindre yn ystyried y byddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddi yn rhesymol a chymesur.

Nododd Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru ei bod yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys yng nghyswllt gwefannau a anelwyd at y cyhoedd yn gyffredinol yn rhesymol a chymesur ond nid felly ar gyfer gwefannau a anelwyd at weithwyr iechyd proffesiynol. Fe noda fod gwefannau o'r fath yn dechnegol iawn eu natur ac y byddai'r gost o'u cynnal yn anferth, yn nhermau amser a chostau staff ac yn nhermau costau cyfieithu.

Yn yr un modd, nid oedd Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys i'w holl wefannau yn rhesymol a chymesur. Cyfeiria at y ffaith nad ydyw'n cyflogi cyfieithwyr mewnol ac nad oes adnoddau wedi'u neilltuo ar gyfer cynorthwyo gyda'r gwaith o gyfieithu cynnwys yr holl dudalennau sydd ar ei gwefannau.

#### **Gweithgaredd 11: Arwyddion a arddangosir gan gorff Safonau ar gyfer arwyddion a arddangosir gan gorff [58-60]**

Nododd pob un o'r 3 pherson perthnasol (100%) o fewn y grŵp Ymddiriedolaethau GIG eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd y 3 pherson perthnasol (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer arwyddion a arddangosir gan gorff.<sup>69</sup>

Derbyniwyd ymateb cadarnhaol i'r safonau ar gyfer arwyddion a arddangosir gan gorff, gyda phob un o'r 3 pherson perthnasol (100%) yn cadarnhau bod y gofynion eisoes yn arfer cyfredol, a'u bod yn rhesymol a chymesur mewn egwyddor.

#### **Gweithgaredd 12: Derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff Safonau ar gyfer derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff [61-66]**

Nododd pob un o'r 3 pherson perthnasol (100%) o fewn y grŵp Ymddiriedolaethau GIG eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ei bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 76% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff.<sup>70</sup>

Nododd Ymddiriedolaethau GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru eu bod yn ystyried y byddai gwneud detholiad o'r safonau yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Nid oedd Ymddiriedolaeth GIG Felindre yn ystyried y byddai gwneud y safonau ar gyfer y gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddi yn rhesymol a chymesur.

<sup>69</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

<sup>70</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Y prif bryder a fynegwyd ynghylch eu gallu i gydymffurfio â'r safonau oedd y nifer o staff sydd ganddynt â sgiliau iaith Gymraeg. Nododd Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru y byddai'n rhaid i'r holl staff sy'n darparu gwasanaethau derbynfa fod yn gallu siarad Cymraeg er mwyn cydymffurfio â safon 61, 62 a 62A ac nad ydynt yn medru ar hyn o bryd. Yn yr un modd, nododd Ymddiriedolaethau GIG Felindre a Gwasanaethau Ambiwlans Cymru y byddai'n anodd trefnu bod siaradwr Cymraeg ar gael, hyd yn oed pe byddant yn ymwybodol o'r dymuniad hwnnw ymlaen llaw, oherwydd bod y nifer o staff sydd â sgiliau iaith Gymraeg cyn ised.

### **Gweithgaredd 13: Corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol Safonau ar gyfer corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol [67-68]**

Nododd 2 o'r 3 pherson perthnasol (67%) o fewn y grŵp Ymddiriedolaethau GIG, sef Ymddiriedolaethau GIG Felindre a Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw ac yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 67% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol.<sup>71</sup>

Nododd y 3 pherson perthnasol eu bod yn ystyried y byddai gwneud y safonau ar gyfer y gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

### **Gweithgaredd 14: Corff yn dyfarnu ar geisiadau am grant Safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar geisiadau am grant [69-73]**

Nododd 1 o'r 3 pherson perthnasol (33%) o fewn y grŵp Ymddiriedolaethau GIG, sef Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru ei bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw ond nad oedd yn gwneud hynny'n Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 50% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar geisiadau am grant.<sup>72</sup>

Nododd Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru ei bod yn ystyried y byddai gwneud detholiad o'r safonau ar gyfer y gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddi yn rhesymol a chymesur. Fodd bynnag, mynegwyd pryderon am ei gallu i gydymffurfio â safon 71 a hynny am na allai warantu y byddai modd i siaradwr Cymraeg â'r ddealltwriaeth berthnasol o'r pwnc dan sylw fod ar gael i gynnal y cyfarfod yn Gymraeg.

Cadarnhaodd Ymddiriedolaethau GIG Felindre a Gwasanaethau Ambiwlans Cymru nad oeddynt yn gwneud y gweithgaredd dan sylw ac felly nad oeddynt yn ystyried y byddai gwneud y safonau ar gyfer y gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

### **Gweithgaredd 15: Corff yn dyfarnu ar dendrau am gontract Safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar dendrau am gontract [74-78]**

Nododd pob un o'r 3 pherson perthnasol (100%) o fewn y grŵp Ymddiriedolaethau GIG eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, ni nododd yr un person perthnasol eu bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

<sup>71</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

<sup>72</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 50% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar dendrau am gontract.<sup>73</sup>

Ni nododd yr un o'r 3 pherson perthnasol eu bod yn ystyried y byddai gwneud y safonau ar gyfer y gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Nododd y personau perthnasol i gyd y byddai costau sylweddol ynghlwm â chyfieithu'r dogfennau perthnasol ac y byddai hynny, o bosibl, hefyd yn arwain at oedi yn y broses o brosesu'r tendrau.

Derbyniwyd tystiolaeth gan Ymddiriedolaethau GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru a oedd yn cadarnhau bod eu gweithgareddau caffael yn cael eu cynnal gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ac y buasent yn dibynnu ar y sefydliad hwnnw er mwyn cydymffurfio â'r safonau hyn.

### **Gweithgaredd 16: Codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Gymraeg a ddarperir gan gorff**

#### **Safonau ar gyfer codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Gymraeg a ddarperir gan gorff [79-80]**

Nododd 2 o'r 3 pherson perthnasol (67%) o fewn y grŵp Ymddiriedolaethau GIG, sef Ymddiriedolaeth GIG Felindre ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw ac yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 50% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Gymraeg a ddarperir gan gorff.<sup>74</sup>

Dylid nodi bod adran 12(2)(b) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn nodi bod rhaid i gynlluniau iaith Gymraeg bennu ym mha ffyrdd y bydd sefydliad yn sicrhau cyhoeddusrwydd i'r cynllun. Pwysleisia'r Comisiynydd nad yw'r mesur hwn yn elfen ddewisol o fewn y ddeddfwriaeth.

Nododd pob un o'r 3 pherson perthnasol (100%) eu bod yn ystyried y byddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

### **Gweithgaredd 17: Hunaniaeth gorfforaethol corff**

#### **Safonau ar gyfer hunaniaeth gorfforaethol corff [81]**

Nododd pob un o'r 3 pherson perthnasol (100%) o fewn y grŵp Ymddiriedolaethau GIG eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd y 3 pherson perthnasol (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safon ar gyfer hunaniaeth gorfforaethol corff.<sup>75</sup>

<sup>73</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

<sup>74</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

<sup>75</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Derbyniwyd ymateb cadarnhaol i'r safon ar gyfer hunaniaeth gorfforaethol corff gyda'r 3 pherson perthnasol yn cadarnhau bod y gofynion eisoes yn arfer cyfredol a'u bod o'r farn y byddai'n rhesymol a chymesur gwneud y safon hon yn benodol gymwys iddynt.

**Gweithgaredd 18: Cyrsiâu a ddarperir gan gorff  
Safonau ar gyfer cyrsiau a ddarperir gan gorff [82-84]**

Nododd pob un o'r 3 pherson perthnasol (100%) o fewn y grŵp Ymddiriedolaethau GIG eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, ni nododd yr un person perthnasol eu bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 33% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cyrsiau a ddarperir gan gorff.<sup>76</sup>

Nid oedd yr un o'r personau perthnasol yn ystyried y byddai gwneud y safonau ar gyfer y gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Nododd y 3 pherson perthnasol eu bod o'r farn y byddai'n heriol, neu'n amhosibl, mewn rhai achosion i gydymffurfio â'r gofynion ynghlwm ar hyn o bryd, am mai prin, os o gwbl, yw'r staff â'r sgiliau Cymraeg gofynnol sydd ganddynt i allu darparu cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mynegwyd pryderon pellach gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre ynglŷn â'i gallu i gydymffurfio gan nodi nad oes ganddi'r gallu i gyfieithu deunyddiau ysgrifenedig ar gyfer cyrsiau heb iddo beri oedi ac nad oedd ganddi gyllideb ar gyfer darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ychwaith.

**Gweithgaredd 19: Systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff  
Safonau ar gyfer systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff [85]**

Nododd 1 o'r 3 pherson perthnasol (33%) o fewn y grŵp Ymddiriedolaethau GIG, sef Ymddiriedolaeth GIG Felindre, eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. Ni nododd y person perthnasol hwnnw ei fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, nid oedd unrhyw ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff.

Er iddi nodi nad oedd yn gwneud y gweithgaredd, nododd Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru ei bod o'r farn y byddai gwneud y safonau ar gyfer y gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddi yn rhesymol a chymesur.

Nododd Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru nad oedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddi yn rhesymol a chymesur, a hynny am nad oedd yn gwneud y gweithgaredd.

Nid oedd Ymddiriedolaeth GIG Felindre yn ystyried ei bod yn rhesymol a chymesur gwneud y safonau yn benodol gymwys iddi, a hynny oherwydd diffyg sgiliau iaith Gymraeg ymysg eu staff fyddai'n medru cyhoeddi neges yn y Gymraeg. Fe noda fodd bynnag, y gallasai fod yn bosibl i'r Ymddiriedolaeth gyhoeddi rhai negeseuon yn ddwyieithog pe baent wedi'u recordio o flaen llaw.

---

<sup>76</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

### **Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau cyflenwi gwasanaethau [158-163]**

Darparwyd tystiolaeth gan Ymddiriedolaethau GIG Felindre ac Iechyd Cyhoeddus Cymru a oedd yn cadarnhau bod nifer o'r gofynion yn arferion cyfredol a, lle nad oeddynt, y byddant yn gwneud trefniadau i gydymffurfio maes o law. O ran hynny, fe nodant eu bod yn ystyried y byddai gwneud y safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau cyflenwi gwasanaethau yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

Yn yr un modd, nododd Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru ei bod yn ystyried y byddai gwneud detholiad o'r safonau hyn yn benodol gymwys iddi yn rhesymol a chymesur. Fodd bynnag, mynegwyd pryderon ynghylch ei gallu i gydymffurfio ag elfennau o safon 161 sef cymalau 161(2)(a)-(c)<sup>77</sup> gan nodi y byddai'n anodd monitro cydymffurfiaeth ar draws y sefydliad ac y byddai peryg y byddai'r wybodaeth a gaiff ei chynnwys yn yr adroddiad blynyddol yn annibynadwy.

### **Safonau llunio polisi [86-95]**

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau llunio polisi.<sup>78</sup>

Darparwyd tystiolaeth gan y 3 pherson perthnasol a oedd yn cadarnhau bod nifer o'r gofynion ynghlwm â'r safonau llunio polisi eisoes yn arferion cyfredol. Nodwyd bod trefniadau mewn lle er mwyn datblygu a chymeradwyo polisiâu a'u bod yn cynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer pob un, sy'n cynnwys yr effeithiau posibl ar yr iaith Gymraeg.

Er cydnabod y byddai angen addasu'r teclyn cyfredol a ddefnyddir er mwyn cydymffurfio â'r gofynion ynghlwm â'r safonau llunio polisi, roedd y 3 pherson perthnasol yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

Dylid nodi hefyd fod Ymddiriedolaeth GIG Felindre wedi nodi ei bod ar hyn o bryd yn ei chael hi'n anodd sicrhau bod polisiâu contractwyr annibynnol a thrydydd parti yn cydymffurfio â'r gofynion yn eu cynllun iaith Gymraeg. Nododd Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru fod polisiâu cenedlaethol ar draws Cymru yn cael eu datblygu a'u hasesu ar y cyd drwy Fforwm Partneriaeth Cymru a noddir gan Lywodraeth Cymru.

### **Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau llunio polisi [164-169]**

Cadarnhaodd y 3 pherson perthnasol bod nifer o'r gofynion ynghlwm â'r safonau hyn yn arfer cyfredol a, lle nad ydynt, y byddant yn gwneud trefniadau i gydymffurfio maes o law. O ran hynny, roeddynt i gyd o'r farn y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

### **Safonau gweithredu [96-142]**

#### **Safonau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol corff [96-109]**

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 50% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol corff.<sup>79</sup>

<sup>77</sup> Noder mai cymalau o fewn safon 161 y cyfeirir atynt yma yn hytrach na safonau ar wahân.

<sup>78</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

Cadarnhaodd Ymddiriedolaethau GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru nad ydynt ar hyn o bryd yn gweithredu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol fel yr amlinellir yn safon 96 ond y buasent, fodd bynnag, yn medru datblygu un i'r perwyl hwnnw. Nododd Ymddiriedolaeth GIG Felindre ei bod yn ystyried fod bodolaeth ei chynllun iaith Gymraeg cyfredol yn bodloni'r gofyniad hwn a bod y cynllun hwnnw wedi'i osod ar y fewnwyd.

Gan ystyried y gofynion ynghlwm â safonau 97-109, nododd y personau i gyd nad oeddynt yn arferion cyfredol o fewn y sefydliadau. Derbyniwyd tystiolaeth gan y 3 pherson perthnasol a gadarnhaodd fod nifer o'r dogfennau ynghlwm â'r safonau hyn yn cael eu darparu'n genedlaethol gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ac er bod rhai agweddau o'r gwaith yn gyfrifoldeb i'r Ymddiriedolaeth, megis darparu'r teitlau swyddi iddynt ar gyfer swydd ddisgrifiadau, y buasent yn ddibynnol ar y sefydliad hwn i sicrhau cydymffurfiaeth.

Mynegwyd rhai pryderon pellach ynglŷn â'u gallu i gydymffurfio â'r safonau hyn megis y byddai costau ychwanegol ynghlwm â chyfieithu'r dogfennau dan sylw a'i bod hi'n bosibl y byddai materion cyfrinachedd yn codi pe byddai angen defnyddio trydydd parti i gyfieithu contract cyflogaeth cyfreithiol ei natur.

### **Safonau ar gyfer cwynion gan aelodau o staff corff [110-113]**

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 67% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cwynion gan aelodau o staff corff.<sup>80</sup>

Nododd Ymddiriedolaeth GIG Felindre nad oedd yr un o'r safonau ar gyfer cwynion yn arfer cyfredol ar hyn o bryd. Serch hynny, fe noda y byddai'n medru cydymffurfio maes o law er ei bod yn bosibl y byddai oedi wrth drefnu bod aelod staff sy'n siarad Cymraeg ar gael neu wrth drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn cael eu darparu mewn cyfarfodydd o'r fath.

Er i Ymddiriedolaethau GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru nodi nad oedd safonau 110-113 yn arfer cyfredol, cydnabuwyd y byddai modd cydymffurfio â hwy maes o law er y byddai costau ychwanegol ynghlwm â hynny.

Mynegwyd pryder gan Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru ynghylch ei gallu i gydymffurfio â safon 111(b)<sup>81</sup> gan fod y nifer o staff sydd â sgiliau iaith Gymraeg yn isel ac felly y byddai'n anarferol iawn cael cyfarfod lle byddai pob aelod staff sy'n mynychu yn siarad Cymraeg.

Nododd Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru fod rhai polisiâu sy'n ymwneud â materion disgyblaeth a chwynion yn cael eu datblygu ar lefel genedlaethol ar draws y GIG yng Nghymru ac y byddai'n rhaid addasu'r rhain yn ganolog.

---

<sup>79</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

<sup>80</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

<sup>81</sup> [Noder mai cymal o fewn safon 111 y cyfeirir ato yma yn hytrach na safon ar wahân.](#)

### **Safonau ar gyfer corff yn disgyblu staff [114-117]**

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 67% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn disgyblu staff.<sup>82</sup>

Nododd Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru y byddai costau ychwanegol ynghlwm â gweithredu safonau 115-117 a hynny am nad oes gwasanaeth cyfieithu mewnol yn bodoli. Roedd Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru o'r farn y byddai angen i bob aelod o staff fedru siarad Cymraeg er mwyn medru cydymffurfio â safon 115 ac nad dyna oedd y sefyllfa ar hyn o bryd. Mynegwyd pryderon ynghylch cyfieithu dogfennau sensitif eu natur gan nodi y byddai lefel uchel o gyfrinachedd ynghlwm â darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd o'r fath.

Nododd Ymddiriedolaeth GIG Felindre nad oedd y safonau hyn yn arfer cyfredol ar hyn o bryd, ond y byddai'n medru cydymffurfio maes o law. Er hynny, nodwyd y byddai oedi wrth drefnu bod aelod staff sy'n siarad Cymraeg ar gael mewn cyfarfodydd o'r fath.

### **Safonau ar gyfer technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan gorff, ac ynghylch y fewnwyd [118-124]**

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 24% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan gorff, ac ynghylch y fewnwyd.<sup>83</sup>

Cadarnhaodd y 3 pherson perthnasol fod safon 118 eisoes yn arfer cyfredol o fewn eu sefydliadau a'u bod yn cydymffurfio'n rhannol â rhai agweddau o safonau 119-124. Fodd bynnag, derbyniwyd nifer o bryderon gan 2 o'r personau hynny ynghylch eu gallu i gydymffurfio â safonau 119-124 gydag Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru yn nodi ei bod o'r farn y byddai'n rhaid creu mewnwyd newydd a chyfieithu'r holl destun cyfredol er mwyn cydymffurfio â hwy. Yn yr un modd, nododd Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru y byddai costau uchel ynghlwm â chyfieithu'r holl destun cyfredol sydd ar ei mewnwyd.

### **Safonau ar gyfer corff yn meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu [125-133]**

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 89% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu.<sup>84</sup>

Cadarnhaodd Ymddiriedolaethau GIG Felindre a Gwasanaethau Ambiwllans Cymru eu bod yn asesu sgiliau iaith Gymraeg eu cyflogeion yn unol â'r gofyniad yn safon 125. Er nad oedd safonau 126-127 yn arfer cyfredol i'r naill sefydliad, roedd Ymddiriedolaeth GIG Felindre o'r farn y byddai modd cydymffurfio maes o law. Fodd bynnag, nid oedd Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddi yn rhesymol a chymesur. Roedd elfennau o safonau 128-133 yn arferion cyfredol gan y ddau berson perthnasol ac er i Ymddiriedolaeth GIG Felindre nodi nad ydyw'n medru cydymffurfio â safon 129 ar hyn o bryd oherwydd prinder adnoddau, nid amlygwyd unrhyw broblemau neilltuol eraill ganddi ynglŷn â'i gallu i gydymffurfio.

<sup>82</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn..

<sup>83</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

<sup>84</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

Nododd Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru nad oedd y gofynion ynghlwm â safonau 125-129 yn arferion cyfredol o fewn ei sefydliad ar hyn o bryd er bod elfennau o safonau 130-133 yn cael eu gweithredu eisoes. Roedd o'r farn y byddai gwneud detholiad ohonynt yn benodol gymwys iddi yn rhesymol a chymesur a hynny oherwydd bod rhywfaint o'r hyfforddiant a ddarperir i'w cyflogeion yn cael ei ddarparu gan staff mewnol ac nad oedd y rheiny i gyd yn medru'r Gymraeg.

### **Safonau ar gyfer recriwtio gan gorff [134-138]**

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 71% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer recriwtio gan gorff.<sup>85</sup>

Darparwyd tystiolaeth gan Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru a oedd yn cadarnhau nad oes ganddi broses fewnol ffurfiol er mwyn dod i benderfyniad ar gynnwys anghenion sgiliau Cymraeg angenrheidiol wrth hysbysebu swydd wag neu swydd newydd. Yn yr un modd, nodwyd nad oedd y gofynion ynghlwm â safonau 136-138 yn arferion cyfredol, er bod elfennau o safonau 135-135B yn cael eu gweithredu eisoes o dan gyfrifoldeb Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru.

Cadarnhaodd Ymddiriedolaethau GIG Felindre a Gwasanaethau Ambiwllans Cymru fod safon 134 eisoes yn weithredol ac y byddai ei gwneud yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur, er y byddai costau ynghlwm â hynny. Roedd Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru o'r farn y byddai gwneud safon 138 yn benodol gymwys iddi yn rhesymol a chymesur.

O ran safonau 135-136, nododd y 3 pherson perthnasol fod hysbysebion swyddi yn cael eu gwneud drwy Wasanaethau Cyflogaeth Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Er bod elfennau o'r safonau hyn eisoes yn cael eu gweithredu, fe nodant y byddai eu gallu i gydymffurfio â'r safonau'n ddibynnol ar gydymffurfiaeth y sefydliad hwn.

Nid oedd Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru yn ystyried y byddai gwneud safon 137 yn benodol gymwys iddi yn rhesymol a chymesur gan nad oedd rhai asesiadau ar gael yn Gymraeg.

### **Safonau ar gyfer arwyddion a arddangosir yng ngweithle corff [139-141]**

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer arwyddion a arddangosir yng ngweithle corff.<sup>86</sup>

Cadarnhaodd Ymddiriedolaethau GIG Felindre a Gwasanaethau Ambiwllans Cymru eu bod yn arddangos arwyddion tu fewn i adeiladau'r sefydliad yn Gymraeg ac wedi'i gosod fel mai'r Gymraeg sy'n debygol o gael ei darllen yn gyntaf gan Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru.

Cadarnhaodd Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru nad ydyw'n arddangos arwyddion tu fewn i adeiladau'r sefydliad yn Gymraeg ond ei bod yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddi yn rhesymol a chymesur.

---

<sup>85</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

<sup>86</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.



### **Safonau ar gyfer cyhoeddiadau a negeseuon sain yng ngweithle corff [142]**

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, nid oedd unrhyw ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cyhoeddiadau a negeseuon sain yng ngweithle corff.

Cadarnhaodd Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru ac Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru nad ydynt yn gwneud cyhoeddiadau dros offer sain o fewn eu gweithle. Er hynny, roedd Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ystyried y byddai gwneud y safon yn benodol gymwys iddi yn rhesymol a chymesur.

Nid oedd Ymddiriedolaeth GIG Felindre yn ystyried y byddai gwneud y safon hon yn benodol gymwys iddi yn rhesymol a chymesur a hynny gan na fyddai'n medru cydymffurfio ar hyn o bryd oherwydd y prinder sydd yn nifer y staff sy'n medru'r Gymraeg.

### **Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau gweithredu [170-175]**

Cadarnhaodd Ymddiriedolaeth GIG Felindre ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru bod nifer o'r gofynion ynghlwm â'r safonau hyn eisoes yn arferion cyfredol o fewn eu sefydliadau a, lle nad ydynt, y byddant yn medru cydymffurfio â hwy maes o law. Nododd Felindre fodd bynnag, ei bod hi'n bosibl y byddai oedi wrth drefnu rhai cyfieithiadau ac y byddai safon 174 yn gofyn am gydweithio gyda Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ac eraill er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.

Nododd Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru ei bod o'r farn y byddai gwneud pob un o'r safonau heblaw 171(a)<sup>87</sup> o fewn y categori hwn yn benodol gymwys iddi yn rhesymol a chymesur. Fe noda yng nghyswllt safon 171(a)<sup>88</sup> mai dyletswydd Llywodraeth Cymru fyddai sicrhau bod y weithdrefn gwyno yn adlewyrchu gofynion y safon gan mai nhw sy'n gyfrifol am y polisi cyfredol sy'n weithredol yn genedlaethol ar draws Cymru.

### **Safonau hybu [143-144]**

Nid oedd yr un o'r 3 pherson perthnasol (100%) o fewn y grŵp Ymddiriedolaethau Gwasanaethau Iechyd Gwladol yn dymuno cydsynio i wneud safonau hybu yn gymwysadwy iddynt.

### **Safonau cadw cofnodion [145-157]**

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 77% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau cadw cofnodion.<sup>89</sup>

Cadarnhaodd Ymddiriedolaeth GIG Felindre fod nifer o'r gofynion yn arferion cyfredol a, lle nad ydynt, y byddai'n medru cydymffurfio maes o law. O ran hynny, roedd o'r farn y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

Serch hynny, mynegodd Ymddiriedolaethau GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru bryderon ynghylch eu gallu i gydymffurfio â detholiad ohonynt gydag Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru hefyd yn mynegi pryder am ei gallu i gydymffurfio â safon 157 yn ogystal.

Nododd Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru y buasai'n rhoi trefniadau yn eu lle er mwyn cofnodi'r wybodaeth yn unol â'r safonau, ond y byddai monitro cydymffurfiaeth

<sup>87</sup> Noder mai cymal o fewn safon 171 y cyfeirir ato yma yn hytrach na safon ar wahân.

<sup>88</sup> Noder mai cymal o fewn safon 171 y cyfeirir ato yma yn hytrach na safon ar wahân.

<sup>89</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

## **Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Cyrff Cyhoeddus: Llywodraeth Leol – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011**

ar draws y sefydliad yn anodd. O'r herwydd roedd risg y byddai'r wybodaeth a'r data a gaiff ei chynnwys yn yr adroddiad blynyddol yn anghywir ac yn annibynadwy. Fe noda hefyd y buasai'n ddibynnol ar Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru i ddarparu rhywfaint o'r wybodaeth a'r data perthnasol er mwyn medru cydymffurfio.

Nododd Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru nad oedd yn ystyried y byddai gweithredu safonau 150 a 152-154 yn rhesymol yng nghyswllt galwadau brys yn yr un modd ac y noda o ran y safonau ar gyfer galwadau ffôn.

### **Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau cadw cofnodion [178-179]**

Cadarnhaodd y 3 pherson perthnasol eu bod yn ystyried y byddai gwneud y safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau cadw cofnodion yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

## Awdurdod Iechyd Arbennig

### Safonau cyflenwi gwasanaethau

#### **Gweithgaredd 1: Gohebiaeth a anfonir gan gorff**

##### **Safonau ar gyfer gohebiaeth a anfonir gan gorff [1-7]**

Nododd Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Er i Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG nodi ei fod eisoes yn gweithredu nifer o'r safonau hyn, fe nododd fod hynny'n digwydd yn bennaf drwy gyfrwng gwasanaeth cyfieithu. Roedd o'r farn bod y galw am wasanaethau Cymraeg yn isel iawn o ystyried y nifer o geisiadau a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac felly nad oedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

#### **Gweithgaredd 2: Galwadau ffôn at gorff a chan gorff**

##### **Safonau ar gyfer galwadau ffôn at gorff a chan gorff [8-22]**

Nododd Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Eglurodd Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG y delir â phob galwad ffôn a dderbynnir i'w ganolfan gyswllt yn Saesneg i ddechrau ac y defnyddir gwasanaeth cyfieithu trydydd parti i ddarparu cyfieithiad i'r Gymraeg ac i ieithoedd eraill, pan fo hynny'n berthnasol. Roedd o'r farn mai isel iawn yw'r galw am wasanaethau Cymraeg dros y ffôn gan nad yw ceisiadau o'r fath yn ei gyrraedd yn aml. O ganlyniad, fe nododd nad oedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Fe nododd yn ogystal ei fod o'r farn y byddai angen cyflwyno rhif ffôn ar wahân ar gyfer siaradwyr Cymraeg a'i hybu ar ddeunyddiau a ddosberthir yng Nghymru ac y byddai hynny'n ymgymeriad sylweddol ynddo'i hun ac yn gofyn am newidiadau sylweddol yn eu prosesau. Fe nododd hefyd y byddai'n rhaid iddo ystyried recriwtio siaradwyr Cymraeg.

#### **Gweithgaredd 3: Cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol**

##### **Safonau ar gyfer cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol [23-29]**

Nododd Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nad yw'n gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Fe nododd Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG nad oedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur gan nodi nad oes ganddo swyddfeydd yng Nghymru ac felly nad oedd yn ystyried bod y safonau hyn yn addas. Cyfeiriwyd at wasanaeth Pensiynau'r GIG sy'n wasanaeth o fewn ei sefydliad, ac y cynhelir cyfarfodydd ganddynt â grwpiau sy'n cynnwys cyflogeion Cymraeg. Er nodi nad yw ceisiadau i gynnal cyfarfodydd drwy gyfrwng y Gymraeg yn ei gyrraedd yn aml, nododd y byddai'n bosibl darparu gwasanaethau cyfieithu at y diben hwnnw.

Yn yr un modd, cynhelir cyfarfodydd gan Wasanaethau Deintyddol, sy'n wasanaeth arall o fewn ei sefydliad, gyda Llywodraeth Cymru a'r Byrddau Iechyd Lleol ac nad oedd cais i'w cynnal yn Gymraeg wedi bod hyd yma. Nododd, fodd bynnag, y byddai'n darparu

gwasanaeth cyfieithu pe byddai cais o'r fath yn dod.

**Gweithgaredd 4: Cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd  
Safonau ar gyfer cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd [30-34]**

Nododd Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nad yw'n gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Eglurodd Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG mai un cyfarfod blynyddol a gynhelir ganddo sy'n agored i'r cyhoedd sef cyfarfod y Bwrdd ac y cynhelir hwnnw yn ei bencadlys yn Newcastle upon Tyne. Nodwyd na chafwyd erioed gais i gynnal y cyfarfod hwn yn Gymraeg ac felly roedd o'r farn nad oedd gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

**Gweithgaredd 5: Digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff  
Safonau ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff [35-36]**

Nododd Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG nad yw'n gwneud y gweithgaredd dan sylw ac o'r herwydd nid oedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

**Gweithgaredd 6: Cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff  
Safonau ar gyfer cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff [37]**

Nododd Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nad yw'n gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Er i Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG nodi bod deunyddiau a gynhyrchir ar gyfer cleifion yng Nghymru gan Wasanaethau Deintyddol yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog, a bod rhai taflenni ar gyfer elfennau eraill o waith y sefydliad yn cael eu cynhyrchu yn Gymraeg gan Lywodraeth Cymru, nid oedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn rhesymol a chymesur.

Mynegwyd rhai pryderon ynghylch union ddiffiniad 'cyhoeddusrwydd a hysbysebu' gan nodi bod potensial y byddai nifer fawr o ddeunyddiau angen eu cyfieithu i'r Gymraeg ac y byddai goblygiadau ariannol sylweddol ynghlwm â hynny. Roedd y person perthnasol o'r farn y byddai cynhyrchu rhai deunyddiau penodol yn Gymraeg yn codi disgwyliadau o ran agweddau eraill ar ei wasanaethau.

Fe nododd hefyd mai Cyllid a Thollau EM sy'n gyfrifol am geisiadau am eithriad credyd treth gan awgrymu felly mai eu cyfrifoldeb nhw fyddai cydymffurfio â'r agwedd honno.

**Gweithgaredd 7: Arddangos deunydd yn gyhoeddus  
Safonau ar gyfer arddangos deunydd yn gyhoeddus [38-39]**

Nododd Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nad yw'n gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

**Gweithgaredd 8: Corff yn cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau  
Safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau [40-49]**

Nododd Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nad yw'n gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Er i Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG nodi mai yn y Saesneg yn unig y cynhyrchir y

dogfennau y cyfeirir atynt yn safonau 41, 44 a 46 ar hyn o bryd, nododd y byddai modd gwneud hynny pe cyfyd cais. Eglurodd hefyd fod y dogfennau y cyfeirir atynt yn safonau 42, 43 a 45 yn cael eu cynhyrchu yn Gymraeg ond mai GIG Cymru oedd yn gyfrifol am sicrhau hynny. Yn yr un modd, eglurwyd bod nifer o ddeunyddiau a gynhyrchwyd ar gyfer cleifion yng Nghymru eisoes yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog.

Nodwyd nad oedd cais i ddarparu unrhyw ddogfen a gynhyrchwyd gan Bensiynau'r GIG yn Gymraeg wedi bod hyd yma. Nododd y person perthnasol ei fod o'r farn bod y galw am hynny yn isel iawn ac felly na fyddai gwneud gofyniad o'r fath yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

#### **Gweithgaredd 9: Corff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni Safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni [50-51]**

Nododd Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nad yw'n gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Cadarnhawyd bod nifer o ddeunyddiau a gynhyrchir ar gyfer cleifion yng Nghymru gan Wasanaethau Deintyddol, yn cael eu cynhyrchu yn Gymraeg eisoes. Eglurodd Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG fod ffurflenni ar gyfer Cynllun Incwm Isel yn cael eu cynhyrchu yn Gymraeg, ond mai GIG Cymru oedd yn gyfrifol am sicrhau hynny. Yn yr un modd, fe nodwyd bod fersiwn Gymraeg o ffurflen gais ar gyfer Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd, ond mai Adran Iechyd y Llywodraeth oedd yn gyfrifol am sicrhau hynny.

Roedd o'r farn y byddai nifer fawr o ffurflenni yn dod o dan y safonau hyn ac y byddai goblygiadau ariannol sylweddol ynghlwm â chyfieithu'r rheiny i gyd i'r Gymraeg. O ran hynny, fe nododd nad oedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn rhesymol a chymesur. Fe nododd, fodd bynnag, y byddai'n darparu rhai ffurflenni yn Gymraeg ar gais.

#### **Gweithgaredd 10: Gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff Safonau ar gyfer gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff [52-57]**

Nododd Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ai fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Cadarnhaodd Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG ei fod yn gwneud y gweithgaredd ond bod hynny ond yng nghyswllt y Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd. Fe nododd fod modd gwneud cais am gerdyn drwy gyfrwng y Gymraeg a bod cynnig cychwynnol i ddewis rhwng y Gymraeg neu'r Saesneg ond bod pob tudalen we arall yn Saesneg yn unig.

Nid oedd Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur a hynny oherwydd iddo nodi y byddai goblygiadau ariannol sylweddol ynghlwm â diweddarau a chyfieithu'r holl wybodaeth sydd ar ei wefan i'r Gymraeg. Roedd o'r farn mai isel yw'r galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar ei wefan a'i wasanaethau ar-lein ac felly y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn anghymesur. Fe nododd hefyd bod dyfodol ei wefan yn cael ei adolygu ar hyn o bryd a bod trafodaethau ar y gweill gydag Adran Iechyd y Llywodraeth, Llywodraeth Cymru, Llywodraethau'r Alban ac Ynys Manaw yn y cyswllt hwn.

#### **Gweithgaredd 11: Arwyddion a arddangosir gan gorff Safonau ar gyfer arwyddion a arddangosir gan gorff [58-60]**

Er i Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG nodi nad yw'n gwneud y gweithgaredd dan sylw, fe nododd ei fod yn arddangos arwyddion ar ei adeiladau, ond nad oes ganddo adeiladau yng Nghymru. Roedd felly o'r farn na fyddai gwneud y safonau hyn yn benodol

gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

**Gweithgaredd 12: Derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff  
Safonau ar gyfer derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff [61-66]**

Er i Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG nodi nad yw'n gwneud y gweithgaredd dan sylw, fe nododd ei fod yn derbyn ymwelwyr i'w adeiladau, ond nad oes ganddo adeiladau yng Nghymru. Roedd felly o'r farn na fyddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

**Gweithgaredd 13: Corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol  
Safonau ar gyfer corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol [67-68]**

Nododd Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nad yw'n gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

**Gweithgaredd 14: Corff yn dyfarnu ar geisiadau am grant  
Safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar geisiadau am grant [69-73]**

Nododd Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nad yw'n gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Cadarnhaodd Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG ei fod yn darparu grantiau ond bod y rheiny ond yn cael eu darparu yn Lloegr. Eglurwyd bod GIG Cymru yn gweithredu cynllun bwrsariaeth ar wahân, tebyg i'r un y maent hwy'n ei weithredu yn Lloegr, yng Nghymru. O ran hynny, nid oedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

**Gweithgaredd 15: Corff yn dyfarnu ar dendrau am contract  
Safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar dendrau am contract [74-78]**

Nododd Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nad yw'n gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Eglurodd fod paragraff ynghylch gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn cael ei gynnwys ym mhob contract am wasanaethau a ddarperir yng Nghymru. Nodwyd bod contractau yn cael eu dyfarnu drwy fframwaith masnachol y Goron neu drwy broses Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd. Nid oedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

**Gweithgaredd 16: Codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff  
Safonau ar gyfer codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff [79-80]**

Nododd Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Cadarnhawyd bod y gofynion ynghlwm â'r safonau hyn eisoes yn weithredol yng nghyswllt y Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd ac y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys yng nghyswllt y gwasanaeth hwnnw yn rhesymol a chymesur. Pwysleisiwyd mai GIG Cymru sy'n gyfrifol am gynhyrchu nifer o ddeunyddiau ar gyfer agweddau eraill o'i waith gan awgrymu y byddai'r cyfrifoldeb o gydymffurfio â'r safonau yn gyfrifoldeb i GIG Cymru yn y cyd-destun hwnnw.

### **Gweithgaredd 17: Hunaniaeth gorfforaethol corff**

#### **Safonau ar gyfer hunaniaeth gorfforaethol corff [81]**

Nododd Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nad yw'n gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Er i'r person perthnasol gydnabod nad oes ganddo hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog ar hyn o bryd, roedd o'r farn y byddai modd gwneud hynny pe byddai'r galw yn ddigonol ac felly y byddai gwneud y safon yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur. Mynegwyd pryder fodd bynnag, y gallai cynhyrchu hunaniaeth gorfforaethol godi disgwyliadau o ran agweddau eraill ar ei wasanaethau.

### **Gweithgaredd 18: Cyrsiau a ddarperir gan gorff**

#### **Safonau ar gyfer cyrsiau a ddarperir gan gorff [82-84]**

Nododd Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nad yw'n gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

### **Gweithgaredd 19: Systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff**

#### **Safonau ar gyfer systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff [85]**

Nododd Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nad yw'n gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

### **Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau cyflenwi gwasanaethau [158-163]**

Nododd Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG nad oedd y gofynion ynghlwm â'r safonau hyn yn arfer cyfredol ganddo ar hyn o bryd ond pe byddai cais am wybodaeth o'r fath yn dod, yna byddai'n edrych ar ei ddarparu ar sail achos wrth achos. Er hynny, nid oedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur gan ei fod o'r farn bod y galw am ddarparu'r fath wybodaeth yn isel yn absenoldeb unrhyw gais amdano yn y gorffennol.

### **Safonau llunio polisi [86-95]**

Eglurodd Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG mai Adran Iechyd y Llywodraeth a Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am greu ac ymgynghori ar bolisïau, a'i fod yntau'n gyfrifol am eu gweinyddu. Fe noda hefyd ei fod yn dilyn protocol cydnabyddedig lle bo'r holl wybodaeth fewnol yn cael ei darparu yn Saesneg i staff.

Nododd y person perthnasol ei fod yn ymgymryd ag ymchwil er mwyn asesu perfformiad cyfredol ac er mwyn arddangos anghenion cyflenwi gwasanaethau i'r dyfodol. Fe noda nad yw'r ymchwil hwnnw wedi arddangos unrhyw angen am ragor o ddarpariaeth cyfrwng Gymraeg dros y 6 mlynedd ddiwethaf.

Gyda hyn oll mewn golwg, fe nododd Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG nad oedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau llunio polisi yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur. Dylid nodi y diffinnir "penderfyniadau polisi" yn nogfen Rheoliadau Safonau'r Gymraeg fel "unrhyw benderfyniad a wneir gan gorff sy'n ymwneud ag arfer ei swyddogaethau neu gynnal ei fusnes neu ymgymeriad arall, ac mae hynny'n cynnwys, ymysg pethau eraill (ac fel y bo'n briodol i'r corff), penderfyniadau ynghylch-

- (a) cynnwys deddfwriaeth;
- (b) y defnydd o bwerau statudol;
- (c) cynnwys datganiadau polisi;
- (d) strategaethau neu gynlluniau strategol;

(e) strwythurau mewnol.<sup>90</sup>

### **Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau llunio polisi [164-169]**

Nododd Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG ei fod eisoes yn cydymffurfio â'r gofynion hyn yng nghyswllt gwasanaeth Pensiynau'r GIG a'i fod yn cyhoeddi'r dogfennau perthnasol yn Saesneg ar ei wefan. Pwysleisiwyd eto mai Adran Iechyd y Llywodraeth a Llywodraeth Cymru sy'n llunio polisiâu ar ei ran yng nghyswllt gwasanaethau deintyddol a'i fod yntau yn gweithredu yn unol â'r polisiâu hynny.

### **Safonau gweithredu [96-142]**

#### **Safonau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol corff [96-109]**

Cadarnhaodd Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG nad yw'r gofynion ynghlwm yn arfer cyfredol o fewn ei sefydliad ar hyn o bryd. Nododd ei fod o'r farn bod y safonau hyn yn anghymesur ac yn anymarferol gan nad oes ganddo staff sy'n byw nac yn gweithio yng Nghymru, ac nad oedd yn ymwybodol o unrhyw staff sy'n medru'r Gymraeg. Nodwyd yn ogystal nad ydyw wedi derbyn cais am gael derbyn dogfennaeth yn ymwneud â chyflogaeth yn Gymraeg gan unrhyw aelod o staff hyd yma.

#### **Safonau ar gyfer cwynion gan aelodau o staff corff [110-113]**

Yn yr un modd, nid oes unrhyw un o'r gofynion ynghlwm yn weithredol gan Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG ar hyn o bryd. Fe nododd ei fod o'r farn y byddai gorfod cydymffurfio â'r safonau hyn yn anymarferol ac yn anghymesur a hynny am nad oes ganddo staff yn byw nac yn gweithio yng Nghymru ac nad oedd yn ymwybodol o unrhyw aelod staff sy'n medru'r Gymraeg.

#### **Safonau ar gyfer corff yn disgyblu staff [114-117]**

Pwysleisiodd y person perthnasol nad oes ganddo staff sy'n byw nac yn gweithio yng Nghymru ac nad oedd yn ymwybodol o unrhyw aelod staff sy'n medru'r Gymraeg. Gyda hynny mewn golwg, fe nododd ei fod yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn anghymesur ac yn anymarferol eu gweithredu.

#### **Safonau ar gyfer technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan gorff, ac ynghylch y fewnwyd [118-124]**

Cadarnhaodd Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG ei fod yn gweithredu system fewnwyd ond nad oedd unrhyw elfennau ohoni ar gael yn y Gymraeg. Cadarnhawyd nad oedd safon 118 yn arfer cyfredol ganddo chwaith. Nododd y person perthnasol nad oedd erioed wedi derbyn cais i dderbyn deunyddiau TG a'r fewnwyd trwy gyfrwng y Gymraeg a'i fod o'r farn y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn anghymesur ac anymarferol.

#### **Safonau ar gyfer corff yn meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu [125-133]**

Nododd y person perthnasol nad yw'n arfer cyfredol iddo asesu sgiliau iaith Gymraeg ei gyflogaion. Er iddo gadarnhau nad yw nifer o'r gofynion yn weithredol ganddo ar hyn o bryd, cadarnhawyd bod elfennau o safon 130 yn weithredol a bod gan staff sy'n gweithio o fewn ei ganolfan gyswllt ymwybyddiaeth o'i gynllun iaith Gymraeg a sut i ddefnyddio gwasanaethau cyfieithu pan fo cais am hynny yn dod. Dylid nodi nad yw'r cynllun iaith Gymraeg hwn wedi'i gymeradwyo o dan adran 14(1) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.

---

<sup>90</sup> Paragraff 2, Rhan 2, Atodlen 2, Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Gweinidogion Cymru, Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol, ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) 2015



### **Safonau ar gyfer recriwtio gan gorff [134-138]**

Eglurodd Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG nad yw'r safonau hyn yn weithredol ganddo ar hyn o bryd a'i fod o'r farn nad oes angen sgiliau Cymraeg ar gyfer unrhyw un o'i swyddi, gan fod y swyddi hynny ynghyd â'i swyddfeydd wedi'u lleoli yn Lloegr.

### **Safonau ar gyfer arwyddion a arddangosir yng ngweithle corff [139-141]**

Cadarnhaodd y person perthnasol nad oes arwyddion yn cael eu harddangos yn Gymraeg tu fewn i adeiladau'r sefydliad ar hyn o bryd.

### **Safonau ar gyfer cyhoeddiadau a negeseuon sain yng ngweithle corff [142]**

Nododd y person perthnasol nad oes cyhoeddiadau a negeseuon sain yn cael eu gwneud o fewn gweithle'r corff ac felly ei fod o'r farn na fyddai gwneud y safon hon yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

### **Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau gweithredu [170-175]**

Nododd y person perthnasol nad oedd yn ystyried y byddai gwneud safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur gan nad yw'n ystyried y byddai gwneud unrhyw un o'r safonau gweithredu yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

### **Safonau hybu [143-144]**

Cadarnhaodd Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG nad oedd yn dymuno cydsynio i wneud y safonau hybu yn gymwysadwy iddo.

### **Safonau cadw cofnodion [145-157]**

Cadarnhaodd Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG ei fod eisoes yn cadw cofnod o'r ceisiadau am gyfieithiadau o alwadau ffôn i'r Gymraeg. Yn yr un modd, cadarnhawyd bod cofnod unigol cleifion yn cynnwys gwybodaeth ynghylch unrhyw gais a dderbyniwyd am ohebiaeth yn Gymraeg. O ran hynny, nododd y person perthnasol ei fod yn ystyried y byddai gwneud y safonau cadw cofnodion yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

### **Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau cadw cofnodion [178-179]**

Cadarnhaodd y person perthnasol y byddai modd iddo gydymffurfio â'r safonau hyn ac y byddai eu gwneud yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

## Awdurdodau Tân ac Achub

### Safonau cyflenwi gwasanaethau

#### **Gweithgaredd 1: Gohebiaeth a anfonir gan gorff**

##### **Safonau ar gyfer gohebiaeth a anfonir gan gorff [1-7]**

Nododd pob un o'r 3 pherson perthnasol (100%) o fewn y grŵp Awdurdodau Tân ac Achub eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd y 3 pherson perthnasol (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 95% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer gohebiaeth a anfonir gan gorff.<sup>91</sup>

Cadarnhaodd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru fod y gofynion ynghlwm â'r safonau hyn eisoes yn weithredol ac roedd yn ystyried y byddai eu gwneud yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Yn yr un modd, fe nododd Gwasanaethau Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru fod nifer o'r safonau hyn eisoes yn weithredol ganddynt neu y gallent gydymffurfio â hwy gyda rhywfaint o waith pellach. O ran hynny, roedd y ddau yn ystyried y byddai gwneud pob un o'r safonau hyn heblaw safon 3 yn benodol gymwys iddynt, yn rhesymol a chymesur.

Roedd y ddau o'r farn y byddai'n anodd iawn cydymffurfio â safon 3 gan nodi y byddai angen buddsoddiad sylweddol o ran amser a chyllid ac nid oeddynt yn ystyried y byddai hynny'n sicrhau gwelliant mewn gwasanaethau gan eu bod eisoes yn gohebu yn ddwyieithog bob tro. Fe nodant eu bod yn pryderu am ddiogelwch y cyhoedd ac nad oeddynt yn rhagweld y byddant yn medru ymdopi â'r newidiadau cyson i gyfeiriadau unigolion.

#### **Gweithgaredd 2: Galwadau ffôn at gorff a chan gorff**

##### **Safonau ar gyfer galwadau ffôn at gorff a chan gorff [8-22]**

Nododd pob un o'r 3 pherson perthnasol (100%) o fewn y grŵp Awdurdodau Tân ac Achub eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd y 3 pherson perthnasol (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 69% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer galwadau ffôn at gorff a chan gorff.<sup>92</sup>

Cadarnhaodd pob un o'r personau perthnasol fod nifer o'r gofynion eisoes yn weithredol ganddynt neu y gallent gydymffurfio a'u bod yn ystyried y byddai gwneud detholiad o'r safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

Fodd bynnag, mynegwyd pryderon ynghylch safon 9 gan nad ydynt yn credu ei fod yn ymarferol i'w gweithredu gyda galwadau brys. Fe nododd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru mai cyfarchiad byr a roddir ar hyn o bryd fel y gellir canfod gwybodaeth hanfodol am y digwyddiad cyn gynted â phosibl.

<sup>91</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

<sup>92</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Nid oedd yr un o'r personau perthnasol yn ystyried bod safon 17 yn gymwys iddynt gan yr atebir galwadau ffôn bob awr o'r dydd.

Roedd gan Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru bryderon hefyd ynghylch ei allu i gydymffurfio â safon 20 gan nodi y byddai goblygiadau hyfforddi eang gyda hynny ac y gallai gynyddu disgwyliadau galwyr mewn ffordd gamarweiniol.

### **Gweithgaredd 3: Cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol**

#### **Safonau ar gyfer cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol [23-29]**

Nododd pob un o'r 3 pherson perthnasol (100%) o fewn y grŵp Awdurdodau Tân ac Achub eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd y 3 pherson perthnasol (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 61% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol.<sup>93</sup>

Cadarnhaodd y 3 pherson perthnasol fod nifer o'r gofynion ynghlwm â'r safonau hyn eisoes yn arfer cyfredol o fewn eu sefydliadau a, lle nad ydynt, y byddant yn medru cydymffurfio â hwy gyda gwaith pellach neu ragor o adnoddau. O ran hynny, roedd y 3 o'r farn y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

### **Gweithgaredd 4: Cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd**

#### **Safonau ar gyfer cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd [30-34]**

Nododd pob un o'r 3 pherson perthnasol (100%) o fewn y grŵp Awdurdodau Tân ac Achub eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 3 pherson perthnasol (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd.<sup>94</sup>

Cadarnhaodd y 3 pherson perthnasol fod nifer o'r gofynion ynghlwm â'r safonau eisoes yn weithredol a, lle nad ydynt, y byddant yn medru cydymffurfio. O ran hynny, nododd Gwasanaethau Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru eu bod yn ystyried y byddai eu gwneud yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

Yn yr un modd, nododd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru y byddai gwneud y safonau hyn i gyd heblaw safon 34 yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur. Mynegwyd pryderon ynghylch ei allu i gydymffurfio â'r safon honno gan nodi mai yn Saesneg yn unig y cyhoeddir papurau, agendâu a chofnodion pwyllgorau'r sefydliad ar hyn o bryd. Nododd y gallasai rhai o'r papurau hyn fod yn gannoedd o dudalennau o hyd a bod rhaid eu cyhoeddi bythefnos cyn y cyfarfod. Er cydnabod y gellid eu cyfieithu, roedd o'r farn y byddai caniatáu amser ychwanegol ar gyfer gwneud hynny yn creu problemau gweithredol a llywodraethol ac y gallai'r gost ynghlwm â hynny effeithio ar ei allu i ddarparu gwasanaethau rheng flaen.

<sup>93</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

<sup>94</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

### **Gweithgaredd 5: Digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff**

#### **Safonau ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff [35-36]**

Nododd pob un o'r 3 pherson perthnasol (100%) o fewn y grŵp Awdurdodau Tân ac Achub eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd y 3 pherson perthnasol (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff.<sup>95</sup>

Nododd y personau perthnasol fod y safonau hyn eisoes yn weithredol neu y byddai modd cydymffurfio ac y byddai eu gwneud yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

### **Gweithgaredd 6: Cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff**

#### **Safonau ar gyfer cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff [37]**

Nododd pob un o'r 3 pherson perthnasol (100%) o fewn y grŵp Awdurdodau Tân ac Achub eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd y 3 pherson perthnasol (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safon ar gyfer cyhoeddusrwydd a hysbysebu.<sup>96</sup>

Cadarnhaodd y personau perthnasol fod y safon eisoes yn weithredol a'i bod yn rhesymol a chymesur. Er hynny, nododd Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru fod ganddo ryw faint o waith pellach i'w wneud er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â rhwydweithiau cyndeithasol yn y cyswllt hwn.

### **Gweithgaredd 7: Arddangos deunydd yn gyhoeddus**

#### **Safonau ar gyfer arddangos deunydd yn gyhoeddus [38-39]**

Nododd pob un o'r 3 pherson perthnasol (100%) o fewn y grŵp Awdurdodau Tân ac Achub eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd y 3 pherson perthnasol (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer arddangos deunydd yn gyhoeddus.<sup>97</sup>

Nododd y personau perthnasol fod y gofynion ynghlwm â'r safonau eisoes yn arfer cyfredol ac y byddai eu gwneud yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

---

<sup>95</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

<sup>96</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

<sup>97</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

**Gweithgaredd 8: Corff yn cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau  
Safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau [40-49]**

Nododd pob un o'r 3 pherson perthnasol (100%) o fewn y grŵp Awdurdodau Tân ac Achub eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd y 3 pherson perthnasol (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymïadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 93% o'r ymrwymïadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau.<sup>98</sup>

Nododd y 3 pherson perthnasol fod nifer o'r gofynion ynghlwm â'r safonau hyn eisoes yn arfer cyfredol ganddynt neu y byddant yn medru cydymffurfio maes o law. Roedd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn i gyd yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur gyda Gwasanaethau Tân ac Achub De Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru yn ystyried y byddai gwneud hynny ar gyfer detholiad ohonynt yn rhesymol a chymesur.

Mynegodd Gwasanaethau Tân ac Achub De Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru bryderon ynghylch eu gallu i gydymffurfio â safon 41 gan egluro mai yn Saesneg yn unig y cyhoeddir y dogfennau hyn ar hyn o bryd. Nododd Gwasanaethau Tân ac Achub De Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru y byddai'r gwariant ychwanegol er mwyn cydymffurfio â'r gofynion yn afresymol o'i gymharu â'r nifer tebygol fyddai'n darllen y fersiynau Cymraeg.

Er i Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru nodi ei fod eisoes yn cydymffurfio'n rhannol â safon 46, eglurodd fod cymal eithrio yn ei gynllun iaith cyfredol sy'n nodi "pan fo amser yn caniatáu hynny". Gan ystyried hynny, fe nododd na fyddai modd iddo gyhoeddi'r wybodaeth honno yn ddwyieithog bob tro gan gyfeirio'n benodol at achosion brys.

**Gweithgaredd 9: Corff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni  
Safonau ar gyfer Corff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni [50-51]**

Nododd pob un o'r 3 pherson perthnasol (100%) o fewn y grŵp Awdurdodau Tân ac Achub eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd y 3 pherson perthnasol (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymïadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 75% o'r ymrwymïadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni.<sup>99</sup>

Cadarnhaodd y 3 pherson perthnasol fod safonau 50-50B eisoes yn weithredol ganddynt neu y byddant yn medru cydymffurfio maes o law ac felly y byddai eu gwneud yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Fodd bynnag, nid oeddynt yn credu bod safon 51 yn gymwys iddynt gan nad ydynt yn yr arfer o fewnosod manylion ymlaen llaw ar ffurflenni.

**Gweithgaredd 10: Gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff  
Safonau ar gyfer gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff [52-57]**

Nododd pob un o'r 3 pherson perthnasol (100%) o fewn y grŵp Awdurdodau Tân ac Achub eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd y 3 pherson perthnasol (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

<sup>98</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymïadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

<sup>99</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymïadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 67% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff.<sup>100</sup>

Nododd y personau perthnasol fod y safonau hyn eisoes yn arfer cyfredol ganddynt ac felly y byddai eu gwneud yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

Fodd bynnag, nododd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yng nghyswllt safonau 52-54 na fyddai modd iddo gyhoeddi'r wybodaeth berthnasol yn ddwyieithog yn syth bob tro gan gyfeirio'n benodol at achosion brys. Gyda hynny mewn golwg, roedd ond yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo gyhyd ag y parheir â'r eithriad cyfredol yn unol â'i gynllun iaith cyfredol.

### **Gweithgaredd 11: Arwyddion a arddangosir gan gorff Safonau ar gyfer arwyddion a arddangosir gan gorff [58-60]**

Nododd pob un o'r 3 pherson perthnasol (100%) o fewn y grŵp Awdurdodau Tân ac Achub eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd y 3 pherson perthnasol (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 78% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer arwyddion a arddangosir gan gorff.<sup>101</sup>

Derbyniwyd ymateb cadarnhaol i'r safonau hyn gyda phob un o'r personau perthnasol yn nodi eu bod yn arfer cyfredol neu y byddai modd iddynt gydymffurfio ac y byddai eu gwneud yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

### **Gweithgaredd 12: Derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff Safonau ar gyfer derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff [61-66]**

Nododd pob un o'r 3 pherson perthnasol (100%) o fewn y grŵp Awdurdodau Tân ac Achub eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd y 3 pherson perthnasol (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 33% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff.<sup>102</sup>

Derbyniwyd ymateb cadarnhaol i'r safonau hyn gyda phob un o'r 3 pherson perthnasol yn nodi fod y safonau eisoes yn arfer cyfredol ganddynt neu y byddant yn medru cydymffurfio maes o law. O ran hynny roeddynt i gyd ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Dylid nodi bod Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru o'r farn nad oedd safonau 63 a 64 yn gymwys iddo gan ei fod yn darparu gwasanaeth derbynfa ar bob adeg yn ystod oriau swyddfa.

<sup>100</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

<sup>101</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

<sup>102</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

**Gweithgaredd 13: Corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol  
Safonau ar gyfer corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol [67-68]**

Nododd pob un o'r 3 pherson perthnasol (100%) o fewn y grŵp Awdurdodau Tân ac Achub eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 3 pherson perthnasol (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 67% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol.<sup>103</sup>

Cadarnhaodd y personau perthnasol fod y safonau hyn eisoes yn weithredol neu y byddant yn medru cydymffurfio â hwy maes o law. O ran hynny, roeddynt i gyd yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

**Gweithgaredd 14: Corff yn dyfarnu ar geisiadau am grant  
Safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar geisiadau am grant [69-73]**

Ni nododd yr un o'r 3 pherson perthnasol (0%) o fewn y grŵp Awdurdodau Tân ac Achub eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 56% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar geisiadau am grant.<sup>104</sup>

Cadarnhaodd y 3 pherson perthnasol nad ydynt yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

**Gweithgaredd 15: Corff yn dyfarnu ar dendrau am gontract  
Safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar dendrau am gontract [74-78]**

Nododd pob un o'r 3 pherson perthnasol (100%) o fewn y grŵp Awdurdodau Tân ac Achub eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 2 berson perthnasol (66%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 56% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar dendrau am gontract.<sup>105</sup>

Nododd y personau perthnasol fod rhai o'r safonau hyn eisoes yn arfer cyfredol ac y byddant yn medru cydymffurfio â'r gweddill mewn amser gyda rhai goblygiadau ariannol ac o ran adnoddau. O ran hynny, roedd Gwasanaethau Tân ac Achub Gogledd Cymru a Gorllewin Cymru o'r farn y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Roedd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru hefyd yn ystyried y byddai gwneud detholiad o'r safonau hyn yn benodol gymwys iddo ond nododd mai swm cyfyngedig fyddai ar gael o fewn pob blwyddyn ariannol ar gyfer y gwaith cyfieithu ychwanegol fyddai'n dod gyda safon 74 ac felly na fyddai'n bosibl iddo warantu cydymffurfiaeth barhaol wedi i'r adnoddau hynny ddod i ben.

<sup>103</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

<sup>104</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

<sup>105</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

**Gweithgaredd 16: Codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff**

**Safonau ar gyfer codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff [79-80]**

Nododd pob un o'r 3 pherson perthnasol (100%) o fewn y grŵp Awdurdodau Tân ac Achub eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd y 3 pherson perthnasol (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 67% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer chodi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff.<sup>106</sup>

Dylid nodi bod adran 12(2)(b) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn nodi bod rhaid i gynlluniau iaith Gymraeg bennu ym mha ffyrdd y bydd sefydliad yn sicrhau cyhoeddusrwydd i'r cynllun. Pwysleisia'r Comisiynydd nad yw'r mesur hwn yn elfen ddewisol o fewn y ddeddfwriaeth.

Derbyniwyd ymateb cadarnhaol i'r safonau hyn gyda'r 3 pherson perthnasol yn nodi bod y safonau un ai'n arfer cyfredol neu ei bod hi'n bosibl eu cyflawni. O ran hynny, ystyrient i gyd y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

**Gweithgaredd 17: Hunaniaeth gorfforaethol corff**

**Safonau ar gyfer hunaniaeth gorfforaethol corff [81]**

Nododd pob un o'r 3 pherson perthnasol (100%) o fewn y grŵp Awdurdodau Tân ac Achub eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd y 3 pherson perthnasol (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safon ar gyfer hunaniaeth gorfforaethol corff.<sup>107</sup>

Nododd y 3 pherson perthnasol fod ganddynt hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog eisoes ac felly y byddai gwneud y safon hon yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

**Gweithgaredd 18: Cyrsiau a ddarperir gan gorff**

**Safonau ar gyfer cyrsiau a ddarperir gan gorff [82-84]**

Nododd pob un o'r 3 pherson perthnasol (100%) o fewn y grŵp Awdurdodau Tân ac Achub eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd y 3 pherson perthnasol (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cyrsiau a ddarperir gan gorff.

Nododd Gwasanaethau Tân ac Achub De Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru fod rhai o'r gofynion ynghlwm â'r safonau hyn yn arfer cyfredol a nododd y ddau ynghyd â Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru y byddai modd iddynt gydymffurfio â'r gweddill, er y byddai'n rhaid cynyddu adnoddau er mwyn medru gwneud hynny. Ystyrient i gyd y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

<sup>106</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

<sup>107</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.



### **Gweithgaredd 19: Systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff Safonau ar gyfer systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff [85]**

Nododd 2 o'r 3 pherson perthnasol (100%) o fewn y grŵp Awdurdodau Tân ac Achub eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 2 berson perthnasol (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safon ar gyfer systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff.

Cadarnhaodd Gwasanaethau Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru fod y safon hon eisoes yn weithredol ganddynt neu y byddant yn medru cydymffurfio â hi ac y byddai ei gwneud yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Cadarnhaodd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru nad ydyw'n gwneud y gweithgaredd.

### **Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau cyflenwi gwasanaethau [158-163]**

Nododd y 3 pherson perthnasol fod nifer o'r safonau hyn yn arfer cyfredol, neu'n debyg i'r trefniadau cyfredol o dan eu cynllun iaith Gymraeg a, lle nad ydynt, y byddant yn medru cydymffurfio â hwy. O ran hynny, roedd y 3 yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

### **Safonau llunio polisi [86-95]**

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 30% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau llunio polisi.<sup>108</sup>

Nododd y personau perthnasol fod pob polisi neu weithdrefn newydd yn destun asesiad effaith cydraddoldeb a bod yr asesiad hwnnw'n cynnwys gofynion yng nghyswllt y Gymraeg. Nodwyd hefyd fod gwahanol swyddogion a fforymau o fewn eu sefydliadau yn craffu ymhellach ar y polisiau hyn gan sicrhau fod y Gymraeg yn cael sylw pellach.

Nododd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru ei fod yn ystyried y byddai gwneud pob un o'r safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur gyda Gwasanaethau Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru yn nodi eu bod yn ystyried y byddai gwneud pob un o'r safonau heblaw safon 92, yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Nid oedd y personau perthnasol yn credu bod safon 92 yn berthnasol iddynt gan nad ydynt yn yr arfer o ddyfarnu grantiau ar hyn o bryd.

### **Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau hybu [164-169]**

Roedd y 3 pherson perthnasol yn credu bod y safonau hyn yn rhesymol a chymesur mewn egwyddor gan fod nifer o'r gofynion eisoes yn arfer cyfredol ganddynt a, lle nad ydynt, fe nodwyd y byddai modd iddynt gydymffurfio â hwy maes o law.

<sup>108</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

## **Safonau gweithredu [96-142]**

### **Safonau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol corff [96-109]**

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol corff.

Cafwyd ymatebion cymysg i'r safonau hyn gyda Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn nodi nad yw'r gofynion ynghlwm â'r safonau hyn yn weithredol ganddo ar hyn o bryd. Er cydnabod y byddai'n medru cydymffurfio â hwy roedd o'r farn y byddai safonau 99-101 yn anodd iawn i'w cyflawni gan fod anghenion hyfforddi a chynlluniau gyfa staff yn cael eu cadw ar system electronig nad yw ar gael yn y Gymraeg ar hyn o bryd.

Cydnabu Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru fod nifer o'r gofynion yn weithredol ganddo eisoes ac y byddai modd iddo gydymffurfio â hwy maes o law. Fodd bynnag, nododd y byddai'n rhaid iddo gynyddu'i adnoddau er mwyn medru cydymffurfio â safonau 97-101, ac yng nghyswllt safonau 99-101, nid oedd yn ystyried hynny'n rhesymol.

Nododd Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru fod safon 96 eisoes yn arfer cyfredol o fewn ei sefydliad. Er cydnabod bod nifer o'r dogfennau y cyfeirir atynt yng ngweddill y safonau hyn ar gael yn Gymraeg ar gais, roedd o'r farn nad oes galw amdanynt ac y byddai goblygiadau sylweddol o ran adnoddau a chostau pe byddai'n rhaid cydymffurfio â hwy.

### **Safonau ar gyfer cwynion gan aelodau o staff corff [110-113]**

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cwynion gan aelodau o staff corff.

Nododd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru fod nifer o'r gofynion ynghlwm â'r safonau hyn yn arfer cyfredol ganddo ac y byddai modd iddo gydymffurfio'n llawn â hwy gyda rhywfaint o waith pellach.

Nododd Gwasanaethau Tân ac Achub De Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru nad yw'r safonau hyn yn arfer cyfredol ar hyn o bryd ond roedd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru o'r farn y byddai modd iddo gydymffurfio â hwy i gyd. Nododd Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru y byddai modd iddo gydymffurfio â safonau 110 a 113 ond y byddai goblygiadau o ran adnoddau pe byddai'n rhaid cydymffurfio â'r gweddill.

### **Safonau ar gyfer corff yn disgyblu staff [114-117]**

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn disgyblu staff.

Nododd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru fod nifer o'r gofynion ynghlwm â'r safonau hyn yn arfer cyfredol ganddo ac y byddai modd iddo gydymffurfio'n llawn â hwy gyda rhywfaint o waith pellach.

Eglurodd Gwasanaethau Tân ac Achub De Cymru nad yw'r gofynion hyn yn arfer cyfredol ganddynt ar hyn o bryd ond roedd o'r farn y byddai'n medru cydymffurfio â hwy. Nododd Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru y byddai cydymffurfio â'r safonau hyn yn golygu goblygiadau sylweddol o ran adnoddau a chostau ac, yng nghyswllt

safon 115, nid oedd yn ystyried y byddai hynny'n rhesymol.

### **Safonau ar gyfer technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan gorff, ac ynghylch y fewnwyd [118-124]**

Wrth ddadansoddi ymrwymiadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 33% o'r ymrwymiadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan gorff, ac ynghylch y fewnwyd.<sup>109</sup>

Cadarnhaodd y 3 pherson perthnasol fod nifer o'r gofynion hyn yn arfer cyfredol ganddynt ac y byddant yn medru cydymffurfio â nifer ohonynt.

Fodd bynnag, nododd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru na fyddai modd iddo gydymffurfio â nifer o'r safonau ar hyn o bryd gan nad yw ei fewnwyd gyfredol yn cefnogi ieithoedd amryfal er bod rhai tudalennau Gymraeg ar gael. Fe nododd ei fod yn bwriadu uwchraddio'r fewnwyd yn y dyfodol i gynnwys mwy o ddeunydd Cymraeg ond nad oedd dyddiad ar gyfer hynny ac y byddai goblygiadau o ran adnoddau a chostau ynghlwm â hynny.

Nododd Gwasanaethau Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru ill dau bryderon cyffelyb gan nodi y byddai angen cynnydd sylweddol mewn adnoddau a chostau er mwyn medru cydymffurfio ac nid oeddynt yn ystyried hynny i fod yn rhesymol.

### **Safonau ar gyfer corff yn meithrin sgiliau drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu [125-133]**

Wrth ddadansoddi ymrwymiadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 78% o'r ymrwymiadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn meithrin sgiliau drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu.<sup>110</sup>

Cadarnhaodd y 3 pherson perthnasol fod pob un o'r safonau hyn eisoes yn weithredol ganddynt i raddau mwy neu lai heblaw Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a nododd nad ydyw'n darparu'r hyfforddiant y cyfeirir ato yn safonau 126, 127 a 129 ar hyn o bryd. Nodwyd ganddynt y byddai derbyn diffiniad o "sylfaenol" yng nghyswllt safon 128 yn ddefnyddiol gan eu bod o'r farn fod y geiriad yn agored i ddehongliad ar hyn o bryd. Yn yr un modd, nodwyd y byddai diffiniad o'r term "oriau gwaith" yn fuddiol wrth ystyried ei fod yn cyflogi staff ar amrywiaeth o batrymau shifft. Wrth bennu safonau mewn rheoliadau, dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod y rheoliadau terfynol yn amlinellu'r gofyniad yn glir.

### **Safonau ar gyfer recriwtio gan gorff [134-138]**

Wrth ddadansoddi ymrwymiadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 33% o'r ymrwymiadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer recriwtio gan gorff.<sup>111</sup>

Fe nododd y 3 pherson perthnasol fod y gofynion ynghlwm eisoes yn weithredol ganddynt a bod trefniadau eisoes mewn lle er mwyn penderfynu ar anghenion ieithyddol swyddi gwag a newydd.

<sup>109</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymiadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

<sup>110</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymiadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

<sup>111</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymiadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

### **Safonau ar gyfer arwyddion a arddangosir yng ngweithle corff [139-141]**

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 83% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer arwyddion a arddangosir yng ngweithle corff.<sup>112</sup>

Cadarnhaodd Gwasanaethau Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru eu bod eisoes yn arddangos arwyddion Gymraeg tu fewn i adeiladau'r sefydliad a bod y testun Gymraeg wedi'i osod fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.

Er i Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru gydnabod bod hynny'n arfer cyfredol ganddo yng nghyswllt arwyddion ar gyfer y cyhoedd, nid oedd hynny'n wir ar gyfer arwyddion eraill ac y byddai costau ychwanegol ynghlwm â sicrhau hynny.

### **Safonau ar gyfer cyhoeddiadau a negeseuon sain yng ngweithle corff [142]**

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 33% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safon ar gyfer cyhoeddiadau a negeseuon sain yng ngweithle corff.<sup>113</sup>

Cadarnhaodd Gwasanaethau Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru eu bod yn gwneud cyhoeddiadau dros offer sain o fewn eu gweithle a bod y cyhoeddiadau hyn yn cael eu gwneud yn Gymraeg. O ran hynny, fe nododd y ddau eu bod yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

Eglurodd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru nad yw'n gwneud cyhoeddiadau yn y gweithle ac nad oes ganddo gyfleuster i wneud hynny.

### **Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau gweithredu [170-175]**

Eglurodd y 3 pherson perthnasol fod nifer o'r gofynion ynghlwm â'r safonau hyn yn debyg i'w trefniadau cyfredol yng nghyswllt eu cynlluniau iaith Gymraeg ac y byddai modd iddynt gydymffurfio â'r gweddill gyda rhywfaint o waith pellach. Gan ystyried hynny, ystyrient i gyd y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

### **Safonau hybu [143-144]**

Nid oedd yr un o'r personau perthnasol yn dymuno cydsynio i wneud safonau hybu yn gymwysadwy iddynt.

### **Safonau cadw cofnodion [145-157]**

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 62% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau cadw cofnodion.<sup>114</sup>

Nododd y 3 pherson perthnasol fod nifer o'r safonau hyn yn debyg i'r trefniadau cyfredol o dan eu cynllun iaith Gymraeg. Nododd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru y byddai modd iddo ddiwygio'r mecanweithiau sydd ganddo mewn lle ar hyn o bryd i adlewyrchu gofynion y safonau. Roedd Gwasanaethau Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru o'r farn y byddai'n rhaid iddynt gynyddu eu hadnoddau er mwyn medru

<sup>112</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

<sup>113</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

<sup>114</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

cydymffurfio â safonau 152-154. Serch hynny, roedd y 3 pherson perthnasol o'r farn y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

**Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau cadw cofnodion [178-179]**

Cadarnhaodd y 3 pherson perthnasol unwaith yn rhagor fod y gofynion ynghlwm â'r safonau hyn yn debyg iawn i'w trefniadau cyfredol yng nghyswllt eu cynlluniau iaith Gymraeg ac y byddai modd iddynt gydymffurfio â hwy gyda rhywfaint o waith pellach. Roedd y 3 yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

## Awdurdodau'r Heddlu

### Safonau cyflenwi gwasanaethau

#### **Gweithgaredd 1: Gohebiaeth a anfonir gan gorff**

##### **Safonau ar gyfer gohebiaeth a anfonir gan gorff [1-7]**

Nododd y 2 berson perthnasol (100%) o fewn y grŵp Awdurdodau'r Heddlu eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. Nododd 1 person perthnasol (50%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 64% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer gohebiaeth a anfonir gan gorff.<sup>115</sup>

Tra bod ymateb i ohebiaeth Gymraeg yn Gymraeg eisoes yn arfer gan Awdurdod yr Heddlu Niwclear Sifil, mae eu hanfon ar gyfer cyfieithu yn golygu na ellir gwarantu na fydd oedi. O'r herwydd, nid oedd yn ystyried y byddai gwneud safon 7 yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Er bod Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig wedi ymrwymo o fewn ei gynllun iaith Gymraeg i ymateb yn Gymraeg i ohebiaeth a dderbynnir yn yr iaith honno, nododd mai prin iawn yw'r achlysuron ble mae wedi derbyn un. O'r herwydd credai fod gwneud detholiad o safonau yn benodol gymwys iddynt yn afresymol ac anghymesur, sef safonau 2-5.

#### **Gweithgaredd 2: Galwadau ffôn at gorff a chan gorff**

##### **Safonau ar gyfer galwadau ffôn at gorff a chan gorff [8-22]**

Nododd y 2 berson perthnasol (100%) o fewn y grŵp Awdurdodau'r Heddlu eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. Ni nododd yr un o'r personau perthnasol eu bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 43% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer galwadau ffôn at gorff a chan gorff.<sup>116</sup>

Nododd Awdurdod yr Heddlu Niwclear Sifil nad oedd siaradwyr Cymraeg ar gael i gynnal trafodaeth ffôn cyfrwng Cymraeg yn ei bencadlys yn Rhydychen. Serch hynny, byddai modd i aelod o'r cyhoedd allu cynnal sgwrs ffôn yn ei chyfanrwydd gydag un o swyddogion Uned Wylfa'r Awdurdod sydd â'r gallu, yn ddibynnol a ydynt yn gweithio ar yr adeg honno. Oherwydd na all ei holl swyddogion siarad Cymraeg, nid oedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Yn yr un modd, ystyria Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig ei fod yn afresymol ac yn anghymesur gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo oherwydd maint y sefydliad (11 aelod o staff ac 11 o lywodraethwyr rhan amser sy'n aelodau o'r Awdurdod) a'i leoliad yn Llundain.

<sup>115</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

<sup>116</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

### **Gweithgaredd 3: Cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol**

#### **Safonau ar gyfer cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol [23-29]**

Nododd y 2 berson perthnasol (100%) o fewn y grŵp Awdurdodau'r Heddlu eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. Ni nododd yr un o'r personau perthnasol eu bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol.<sup>117</sup>

Mynegodd y ddau berson perthnasol eu bod yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn afresymol ac anghymesur. Fe nodant mai Saesneg yw iaith weithredol y sefydliadau hyn, hyd yn oed yn Uned Wylfa yn ôl Awdurdod yr Heddlu Niwclear Sifil. Nododd Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig nad oedd yn rhagweld sefyllfa ble cyfyd yr angen iddo gwrdd â'r cyhoedd. Serch hynny, nododd fod safon 24A yn gymesur ond ei fod yn annhebygol o ddigwydd mewn gwirionedd.

### **Gweithgaredd 4: Cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd**

#### **Safonau ar gyfer cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd [30-34]**

Nododd y 2 berson perthnasol (100%) o fewn y grŵp Awdurdodau'r Heddlu eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. Nododd 1 person perthnasol (50%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 90% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer chyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd.<sup>118</sup>

Nododd Awdurdod yr Heddlu Niwclear Sifil fod y safonau hyn eisoes yn weithredol er mwyn sicrhau y gall aelod o'r cyhoedd gyfrannu yn Gymraeg at ei gyfarfodydd cyhoeddus.

Nododd Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig na chaiff cyfarfodydd cyhoeddus rheolaidd eu cynnal yng Nghymru ac felly y byddai gwneud safonau 30-34 yn benodol gymwys iddo yn afresymol ac anghymesur yn ei dyb ef.

### **Gweithgaredd 5: Digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff**

#### **Safonau ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff [35-36]**

Nododd 1 o'r 2 berson perthnasol (50%) o fewn y grŵp Awdurdodau'r Heddlu eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. Nododd y person perthnasol hwnnw eu bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff.<sup>119</sup>

<sup>117</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

<sup>118</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

<sup>119</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn unig a nododd ei fod yn gwneud y gweithgaredd. Serch hynny, nododd na chaiff cyfarfodydd cyhoeddus eu cynnal yng Nghymru yn rheolaidd ac felly nid oedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

#### **Gweithgaredd 6: Cyhoedduswydd a hysbysebu gan gorff Safonau ar gyfer cyhoedduswydd a hysbysebu gan gorff [37]**

Ni nododd yr un o'r 2 berson perthnasol o fewn y grŵp Awdurdodau'r Heddlu eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safon ar gyfer cyhoedduswydd a hysbysebu.<sup>120</sup>

Er iddynt nodi ill dau nad oeddynt yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, nododd Awdurdod yr Heddlu Niwclear Sifil ei fod eisoes wedi ymrwymo i gydymffurfio â'r gofyniad fel rhan o'r cynllun iaith Gymraeg. O'r herwydd, nododd ei fod yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

#### **Gweithgaredd 7: Arddangos deunydd yn gyhoeddus Safonau ar gyfer arddangos deunydd yn gyhoeddus [38-39]**

Ni nododd yr un o'r 2 berson perthnasol o fewn y grŵp Awdurdodau'r Heddlu eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer arddangos deunydd yn gyhoeddus.<sup>121</sup>

Nid oedd Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur am nad yw'n gwneud y gweithgaredd ar hyn o bryd.

Er nad yw Awdurdod yr Heddlu Niwclear Sifil yn gwneud y gweithgaredd, nododd ei fod yn credu y byddai eu gwneud yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

#### **Gweithgaredd 8: Corff yn cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau Safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau [40-49]**

Nododd y 2 berson perthnasol (100%) o fewn y grŵp Awdurdodau'r Heddlu eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. Nododd y 2 berson perthnasol (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 90% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau.<sup>122</sup>

Nododd y ddau berson perthnasol eu bod eisoes yn cydymffurfio â'r safonau hyn fel rhan o'r cynlluniau iaith Gymraeg ac y caiff dogfennau sy'n berthnasol i Gymru eu cyhoeddi'n Gymraeg.

<sup>120</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

<sup>121</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

<sup>122</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.



Nododd y ddau eu bod yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

**Gweithgaredd 9: Corff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni  
Safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni [50-51]**

Nododd 1 o'r 2 berson perthnasol (50%) o fewn y grŵp Awdurdodau'r Heddlu eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. Nododd y person perthnasol eu bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 90% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni.<sup>123</sup>

Nododd Awdurdod yr Heddlu Niwclear Sifil, sef y sawl a nododd ei fod yn gwneud y gweithgaredd, ei fod eisoes wedi ymrwymo i'r safonau hyn fel rhan o'r cynllun iaith Gymraeg. O'r herwydd, roedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

**Gweithgaredd 10: Gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff  
Safonau ar gyfer gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff [52-57]**

Nododd y 2 berson perthnasol (100%) o fewn y grŵp Awdurdodau'r Heddlu eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. Nododd y 2 berson perthnasol (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 67% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff.<sup>124</sup>

Nododd y ddau berson perthnasol bod eu gwefannau yn cynnwys testun Cymraeg. Serch hynny, fe ystyrient y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn afresymol ac anghymesur oherwydd mai Saesneg yw prif iaith y sefydliadau ac na fyddai trosi'r wefan gyfan yn gymesur â'r gwaith a wneir yng Nghymru. Er hynny, mynegodd Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig ei fod yn ystyried y byddai gwneud safon 53 yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

**Gweithgaredd 11: Arwyddion a arddangosir gan gorff  
Safonau ar gyfer arwyddion a arddangosir gan gorff [58-60]**

Nododd 1 o'r 2 berson perthnasol (50%) o fewn y grŵp Awdurdodau'r Heddlu eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. Nododd y person perthnasol hwnnw (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 67% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer arwyddion a arddangosir gan gorff.<sup>125</sup>

---

<sup>123</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

<sup>124</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

<sup>125</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Oherwydd bod y safonau hyn eisoes ar waith gan Awdurdod yr Heddlu Niwclear Sifil fel ymrwymiadau o fewn eu cynllun iaith Gymraeg, roedd yn ystyried y byddai eu gwneud yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

**Gweithgaredd 12: Derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff  
Safonau ar gyfer derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff [61-66]**

Ni nododd yr un o'r 2 berson perthnasol o fewn y grŵp Awdurdodau'r Heddlu eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Wrth ddadansoddi ymrwymiadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 57% o'r ymrwymiadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff.<sup>126</sup>

Nododd Awdurdod yr Heddlu Niwclear Sifil ei fod yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur. Nid oedd Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig o'r un farn, a hynny oherwydd nad oes ganddo swyddfeydd yng Nghymru.

**Gweithgaredd 13: Corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol  
Safonau ar gyfer corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol [67-68]**

Ni nododd yr un o'r 2 berson perthnasol o fewn y grŵp Awdurdodau'r Heddlu eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Wrth ddadansoddi ymrwymiadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 75% o'r ymrwymiadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol.<sup>127</sup>

Nododd Awdurdod yr Heddlu Niwclear Sifil ei fod yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

**Gweithgaredd 14: Corff yn dyfarnu ar geisiadau am grant  
Safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar geisiadau am grant [69-73]**

Ni nododd yr un o'r 2 berson perthnasol o fewn y grŵp Awdurdodau'r Heddlu eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Wrth ddadansoddi ymrwymiadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 92% o'r ymrwymiadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar geisiadau am grant.<sup>128</sup>

Nododd Awdurdod yr Heddlu Niwclear Sifil ei fod yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

**Gweithgaredd 15: Corff yn dyfarnu ar dendrau am gontract  
Safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar dendrau am gontract [74-78]**

Nododd y 2 berson perthnasol (100%) o fewn y grŵp Awdurdodau'r Heddlu eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. Ni nododd yr un o'r personau perthnasol eu bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

---

<sup>126</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymiadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

<sup>127</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymiadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

<sup>128</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymiadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 83% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar dendrau am gontract.<sup>129</sup>

Nododd Awdurdod yr Heddlu Niwclear Sifil ei fod yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Nododd Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig mai cyd-lofnodwr ydyw i'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig ac felly nad yw'n gyfrifol am gaffael cytundebau mewn gwirionedd. O'r herwydd, nid oedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys yn rhesymol ac chymesur.

### **Gweithgaredd 16: Codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff**

#### **Safonau ar gyfer codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff [79-80]**

Ni nododd yr un o'r 2 berson perthnasol o fewn y grŵp Awdurdodau'r Heddlu eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 25% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff.<sup>130</sup>

Dylid nodi bod adran 12(2)(b) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn nodi bod rhaid i gynlluniau iaith Gymraeg bennu ym mha ffyrdd y bydd sefydliadau yn sicrhau cyhoeddusrwydd i'r cynllun. Pwysleisia'r Comisiynydd nad yw'r mesur hwn yn elfen ddewisol o fewn y ddeddfwriaeth.

Nododd Awdurdod yr Heddlu Niwclear Sifil ei fod yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

### **Gweithgaredd 17: Hunaniaeth gorfforaethol corff**

#### **Safonau ar gyfer hunaniaeth gorfforaethol corff [81]**

Nododd y 2 berson perthnasol (100%) o fewn y grŵp Awdurdodau'r Heddlu eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 1 person perthnasol (50%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 50% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safon ar gyfer hunaniaeth gorfforaethol corff.<sup>131</sup>

Nododd y ddau berson perthnasol eu bod yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

### **Gweithgaredd 18: Cyrsiau a ddarperir gan gorff**

#### **Safonau ar gyfer cyrsiau a ddarperir gan gorff [82-84]**

Ni nododd yr un o'r 2 berson perthnasol o fewn y grŵp Awdurdodau'r Heddlu eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

<sup>129</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

<sup>130</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

<sup>131</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cyrsiau a ddarperir gan gorff.

Nododd Awdurdod yr Heddlu Niwclear Sifil ei fod yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

### **Gweithgaredd 19: Systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff Safonau ar gyfer systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff [85]**

Ni nododd yr un o'r 2 berson perthnasol o fewn y grŵp Awdurdodau'r Heddlu eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safon ar gyfer systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff.

Nododd Awdurdod yr Heddlu Niwclear Sifil ei fod yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

### **Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau cyflenwi gwasanaethau [158-163]**

Nododd Awdurdod yr Heddlu Niwclear Sifil ei fod yn amseru cyhoeddiad ei brif adroddiad yn unol â gofynion Deddf Ynni 2004 yn hytrach na'r adegau a nodir yn y safonau. O'r herwydd, nid oedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau sy'n ymdrin â materion atodol yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Roedd Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn ystyried y byddai gwneud y safonau sy'n ymdrin â materion atodol yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur. Er hynny, nododd nad oedd modd iddo gydymffurfio â safon 161 oherwydd mai prin iawn yw'r cyswllt â'r cyhoedd.

### **Safonau llunio polisi [86-95]**

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer safonau llunio polisi.<sup>132</sup>

Nododd Awdurdod yr Heddlu Niwclear Sifil mai rôl ei Swyddog Diwylliant ac Amrywiaeth, sydd hefyd yn aelod o Grŵp Rheoli'r Iaith Gymraeg, yw gwirio a chymeradwyo pob asesiad effaith a wneir ganddynt. Er nodi nad oedd yn ymgynghori ar benderfyniadau polisi nac yn meddu ar bolisi parthed dyrannu grantiau, roedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Nododd Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig mai polisiâu mewnol a wneir ganddo yn bennaf a rhai yn ymwneud â gweithredoedd sy'n berthnasol i Loegr yn unig ar y cyfan. O'r herwydd, nid oedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

### **Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau llunio polisi [164-169]**

Nid oedd Awdurdod yr Heddlu Niwclear Sifil yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur oherwydd ei fod yn ddarostyngedig i Ddeddf Ynni 2004 ar gyfer cyflwyno adroddiadau ar adegau penodol.

<sup>132</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

Nododd Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig mai polisïau mewnol a wneir ganddo yn bennaf a rhai yn ymwneud â gweithredoedd sy'n berthnasol i Loegr yn unig ar y cyfan. O'r herwydd, nid oedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

## **Safonau gweithredu [96-142]**

### **Safonau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth mewnol corff [96-109]**

Wrth ddadansoddi ymrwymïadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 50% o'r ymrwymïadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth mewnol corff.<sup>133</sup>

Nododd Awdurdod yr Heddlu Niwclear Sifil mai Saesneg yw iaith weithredol safle Wylfa, serch hynny, gellir gosod safonau 97-109 arnynt yn ei dyb ef. Nododd Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig fod pob gweithgaredd mewnol, gan gynnwys rhai yn ymwneud ag adnoddau dynol, yn digwydd y tu allan i Gymru a hynny thrwy gyfrwng y Saesneg.

### **Safonau ynghylch cwynion gan aelodau o staff corff [110-113]**

Wrth ddadansoddi ymrwymïadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 10% o'r ymrwymïadau'n cyfateb i'r safonau ynghylch cwynion gan aelodau a staff corff.<sup>134</sup>

Nododd Awdurdod yr Heddlu Niwclear Sifil mai Saesneg yw iaith weithredol safle Wylfa, serch hynny, byddai'n caniatáu i staff wneud cwynion ato, a gellir gosod y safonau hyn arno yn ei dyb ef. Nododd Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig fod pob gweithgaredd mewnol, gan gynnwys rhai yn ymwneud ag adnoddau dynol, yn digwydd y tu allan i Gymru a thrwy gyfrwng y Saesneg.

### **Safonau ynghylch corff yn disgyblu staff [114-117]**

Wrth ddadansoddi ymrwymïadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymïadau'n cyfateb i'r safonau ynghylch corff yn disgyblu staff.

Nododd Awdurdod yr Heddlu Niwclear Sifil mai Saesneg yw iaith weithredol safle Wylfa, serch hynny, byddai'n caniatáu aelod o staff ymateb yn Gymraeg i gyhuddiad a wnaed yn ei erbyn a gellir gosod y safonau hyn arno yn ei dyb ef. Nododd Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig fod pob gweithgaredd mewnol, gan gynnwys rhai yn ymwneud ag adnoddau dynol, yn digwydd y tu allan i Gymru a thrwy gyfrwng y Saesneg.

### **Safonau ynghylch technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan gorff, ac ynghylch y fewnwyd [118-124]**

Wrth ddadansoddi ymrwymïadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymïadau'n cyfateb i'r safonau ynghylch technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan gorff, ac ynghylch y fewnwyd.

Nododd y ddau berson perthnasol nad oeddynt yn darparu meddalwedd gwirio sillafu na gramadeg na rhyngwynebau Cymraeg ar gyfer eu gweithlu. Nododd Awdurdod yr Heddlu Niwclear Sifil fod tudalennau mewnwyd dwyieithog i'w cael ar safle mewnwyd Uned Wylfa. Nododd Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig fod pob gweithgaredd mewnol,

<sup>133</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymïadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

<sup>134</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymïadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

gan gynnwys rhai yn ymwneud ag adnoddau dynol, yn digwydd y tu allan i Gymru a thrwy gyfrwng y Saesneg.

### **Safonau ynghylch corff yn meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu [125-133]**

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 61% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ynghylch corff yn meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu.<sup>135</sup>

Nododd Awdurdod yr Heddlu Niwclear Sifil y caiff pob aelod o staff yng Nghymru gynnig gwersi Cymraeg. Nododd Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig fod pob gweithgaredd mewnol, gan gynnwys rhai yn ymwneud ag adnoddau dynol, yn digwydd y tu allan i Gymru a thrwy gyfrwng y Saesneg.

### **Safonau ynghylch recriwtio gan gorff [134-138]**

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 71% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ynghylch recriwtio gan gorff.<sup>136</sup>

Nodwyd mai Saesneg yw cyfrwng pob cam o'r broses recriwtio ar gyfer y ddau berson perthnasol ac eithrio'r hysbyseb swydd yn achos Awdurdod yr Heddlu Niwclear Sifil a fynegodd nad oedd safle gwaith unigolyn a benodir i swydd yn hysbys iddynt nes ar ôl y penodiad.

### **Safonau ynghylch arwyddion a arddangosir yng ngweithle corff [139-141]**

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 75% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ynghylch arwyddion a arddangosir yng ngweithle corff.<sup>137</sup>

Nododd y ddau berson perthnasol nad oeddynt yn arddangos arwyddion Cymraeg yn eu gweithleoedd ar hyn o bryd.

### **Safonau ynghylch cyhoeddiadau a negeseuon sain yng ngweithle corff [142]**

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ynghylch cyhoeddiadau a negeseuon sain yng ngweithle corff.

Nododd Awdurdod yr Heddlu Niwclear Sifil nad oedd yn gwneud cyhoeddiadau a negeseuon sain cyfrwng Cymraeg er mwyn osgoi amwysedd ac am resymau diogelwch ar ei safle yn Wylfa. Nododd Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig nad oedd yn gwneud cyhoeddiadau a negeseuon sain yn ei weithle a bod ei swyddfeydd tu allan i Gymru beth bynnag.

### **Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau gweithredu [170-175]**

Nododd Awdurdod yr Heddlu Niwclear Sifil eu bod yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn afresymol ac anghymesur oherwydd eu bod yn ddarostyngedig i Ddeddf Ynni 2004 ar gyfer cyflwyno adroddiadau ar adegau penodol.

<sup>135</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

<sup>136</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

<sup>137</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

Nododd Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig y cynhelir ei holl weithredoedd mewnol tu allan i Gymru. O'r herwydd, nid oedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

### **Safonau hybu [143-144]**

Nododd y ddau berson perthnasol nad oeddynt yn cydsynio i wneud safonau hybu yn gymwysadwy iddynt.

### **Safonau cadw cofnodion [145-157]**

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 77% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cadw cofnodion.<sup>138</sup>

Nododd Awdurdod yr Heddlu Niwclear Sifil ei fod yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur oherwydd ei fod eisoes yn cofnodi'r materion yn ymwneud â chydymffurfiaeth o fewn adroddiad monitro blynyddol ei gynllun iaith Gymraeg.

Nododd Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig nad yw'n casglu'r wybodaeth a ddisgrifir yn y safonau cadw cofnodion ac y byddai'n feichus iawn i wneud hynny. O'r herwydd, ac o ystyried maint y sefydliad, nid oedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Ymhellach, nid oedd o'r farn bod galw arnynt i ddarparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg.

### **Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau cadw cofnodion [178-179]**

Nododd Awdurdod yr Heddlu Niwclear Sifil ei fod yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur oherwydd ei fod eisoes yn cofnodi'r materion yn ymwneud â chydymffurfiaeth o fewn adroddiad monitro blynyddol ei gynllun iaith Gymraeg ac fe'i cyhoeddir ar ei wefan.

Nid oedd Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol ac chymesur oherwydd bod y prosesau a ddisgrifir yn safonau 178 ac 179 yn amherthnasol i'w sefydliad. Ni roddwyd unrhyw wybodaeth bellach i gefnogi hyn.

---

<sup>138</sup> Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

## 5 Tystiolaeth a dderbyniwyd gan aelodau o'r cyhoedd

Derbyniwyd 291 o ymatebion gan aelodau'r cyhoedd i'r ymchwiliadau safonau a gynhaliwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â'r personau a ddaw o fewn yr adroddiad safonau hwn. Derbyniwyd 155 o ymatebion i'r ymchwiliad safonau gan unigolion a ddewisodd gwblhau holiadur a ddarparwyd ar eu cyfer gan Gomisiynydd y Gymraeg ar y wefan.

Derbyniwyd 136 ymateb pellach yn seiliedig ar dempled o ymateb safonol a gyhoeddodd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg; yn yr achos hwn roedd yr holl ymatebion yr un fath. Mewn 14 o achosion derbyniwyd ymateb gan unigolion ddwywaith. Digwyddodd hyn gan fod unigolion wedi ymateb drwy gyfrwng ymgynghoriad y Comisiynydd yn ogystal â chwblhau templed Cymdeithas yr Iaith Gymraeg. Derbyniwyd 4 ymateb gan fudiadau neu sefydliadau eraill.<sup>139</sup> Mae'r Comisiynydd wedi rhoi sylw i bob ymateb a dderbyniwyd.

Ceir rhestr lawn o'r ymatebwyr a oedd yn fodlon i'w hymatebion gael eu cyhoeddi yn Atodiad B.

Mae Ffigur 1 yn dangos o ble daeth yr ymatebwyr yn ôl eu grŵp a'u lleoliad daearyddol.

**Ffigur 1** Nifer yr ymatebion i'r ymchwiliad safonau yn ôl lleoliad<sup>140</sup>

Lleoliadau	Nifer	Canran (%)
Abertawe	16	5%
Blaenau Gwent	1	0%
Bro Morgannwg	7	2%
Caerffili	5	2%
Casnewydd	0	0%
Castell-nedd Port Talbot	2	1%
Ceredigion	30	10%
Conwy	9	3%
Caerdydd	32	11%
Gwynedd	72	25%
Merthyr Tudful	3	1%
Pen-y-bont ar Ogwr	3	1%
Powys	9	3%
Rhondda Cynon Taf	13	4%
Sir Benfro	4	1%
Sir Ddinbych	22	8%

<sup>139</sup> Ceir rhestr o'r mudiadau/sefydliadau hynny yn Atodiad B yr adroddiad safonau.

<sup>140</sup> Mae'r ystadegau hyn yn cynnwys yr holl ymatebion a ddaeth drwy'r holiadur, ynghyd â thempled Cymdeithas yr Iaith.



Sir Fynwy	2	1%
Sir Gaerfyrddin	21	7%
Sir y Fflint	10	3%
Torfaen	1	0%
Wrecsam	4	1%
Ynys Môn	19	7%
Tu allan i Gymru	6	2%
Dim gwybodaeth	0	0%
Cyfanswm	291	100%

### **Ymateb y cyhoedd i'r ymchwiliad safonau a gynhelir mewn perthynas â Chyrff Cyhoeddus: Llywodraeth Leol**

#### **Safonau cyflenwi gwasanaethau**


Wrth geisio barn y cyhoedd ar resymoldeb a chymesuredd y gofynion sydd ynghlwm â'r safonau cyflenwi gwasanaethau, gofynnwyd iddynt ymateb i'r cwestiwn isod yn yr holiadur:

A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai'r sefydliadau dan sylw fod yn cynnal gweithgareddau safonau cyflenwi gwasanaethau yn Gymraeg, er mwyn eich galluogi chi fel aelod o'r cyhoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y sefyllfaoedd canlynol?

Wrth ateb y cwestiwn hwn yn rhan o'r holiadur, rhoddwyd cyfle i'r cyhoedd ymateb fesul gweithgaredd sydd o fewn cwmpas safonau cyflenwi gwasanaethau.

Mae Ffigur 2 yn dangos amrywiaeth yr ymatebion a gafwyd.

**Ffigur 2 Ymateb i gwestiwn 1 yr holiadur - Safonau cyflenwi gwasanaethau**



### Safonau llunio polisi

Wrth geisio barn y cyhoedd ar resymoldeb a chymesuredd y gofynion sydd ynghlwm â'r safonau llunio polisi, gofynnwyd iddynt ymateb i'r cwestiwn isod yn yr holiadur:

A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai penderfyniadau polisi'r sefydliadau dan sylw wella'r cyfleoedd sydd i chi ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau gwell triniaeth i'r Gymraeg?

O'r 155 a ymatebodd drwy'r holiadur ar wefan y Comisiynydd, roedd 95% (147) wedi ateb y cwestiwn hwn. O'r 147 a ymatebodd, roedd 93% (137) yn cytuno y dylai'r personau perthnasol dan sylw ystyried effaith eu penderfyniadau polisi, gan sicrhau, neu gyfrannu at sicrhau, gwell cyfleoedd i bersonau allu defnyddio'r Gymraeg ynghyd â sicrhau gwell triniaeth i'r Gymraeg.

Dengys y ffigur isod sut yr ymatebodd aelodau'r cyhoedd i'r cwestiwn hwn:

Ffigur 3 Ymateb i gwestiwn 3 yr holiadur - Safonau llunio polisi<sup>141</sup>



### Safonau gweithredu

Wrth geisio barn y cyhoedd ar resymoldeb a chymesuredd y gofynion sydd ynghlwm â'r safonau gweithredu, gofynnwyd iddynt ymateb i'r cwestiwn isod yn yr holiadur:

A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai'r sefydliadau dan sylw orfod hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn unol â'r safonau gweithredu?

O'r 155 a ymatebodd drwy'r holiadur ar wefan y Comisiynydd, roedd 95% (147) wedi ateb y cwestiwn hwn. O'r 147 a ymatebodd, roedd 93% (137) yn cytuno y dylai'r personau perthnasol dan sylw orfod hwyluso a defnyddio'r Gymraeg yn unol â diffiniad safonau gweithredu ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Dengys y ffigur isod sut yr ymatebodd aelodau'r cyhoedd i'r cwestiwn hwn:

Ffigur 4 Ymateb i gwestiwn 4 yr holiadur - Safonau gweithredu<sup>142</sup>



### Safonau cadw cofnodion

Wrth geisio barn y cyhoedd ar resymoldeb y gofynion sydd ynghlwm â'r safonau cadw cofnodion, gofynnwyd iddynt ymateb i'r cwestiwn isod yn yr holiadur:

<sup>141</sup> Noder bod yr ystadegau hyn yn ymwneud â'r ymatebwyr a oedd wedi ateb y cwestiwn hwn.

<sup>142</sup> Noder bod yr ystadegau hyn yn ymwneud â'r ymatebwyr a oedd wedi ateb y cwestiwn hwn.

A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai'r sefydliadau dan sylw gadw cofnod yn dweud sut y mae'n cadw at safonau'r Gymraeg a chadw cofnodion am gwynion?

O'r 155 a ymatebodd drwy'r holiadur ar wefan Comisiynydd y Gymraeg, roedd 95% (148) wedi ateb y cwestiwn hwn. O'r 148 a ymatebodd, roedd 94% (139) yn cytuno y dylai'r ddyletswydd hon gael ei gosod ar y personau perthnasol dan sylw.

Dengys y ffigur isod sut yr ymatebodd aelodau'r cyhoedd i'r cwestiwn hwn:

**Ffigur 5** Ymateb i gwestiwn 5 yr holiadur - Safonau cadw cofnodion<sup>143</sup>



### Sylwadau pellach

Yn ogystal â darparu ymatebion i gwestiynau penodol ar bwnc yr ymchwiliad safonau, rhoddwyd cyfle i'r cyhoedd nodi unrhyw safonau ychwanegol yr oeddynt o'r farn y dylid eu pennu a'u gwneud yn benodol gymwys i'r personau perthnasol dan sylw, ynghyd ag unrhyw sylwadau pellach a oedd yn berthnasol i'r ymchwiliad safonau hwn.

O'r 155 a ymatebodd drwy'r holiadur ar wefan y Comisiynydd, darparodd 49% (76) ohonynt sylwadau ychwanegol i'w hystyried gan Gomisiynydd y Gymraeg yn rhan o'r ymchwiliad safonau.

**Ffigur 6** Sylwadau pellach a ddarparwyd gan aelodau'r cyhoedd



Roedd yr ymatebion a dderbyniwyd yn gyffredinol gefnogol i'r cysyniad o bennu safonau, a hynny er mwyn sicrhau hawliau clir i siaradwyr Cymraeg mewn perthynas â'r gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan yr holl sefydliadau sydd wedi eu cynnwys yng nghylch 2.

<sup>143</sup> Noder bod yr ystadegau hyn yn ymwneud â'r ymatebwyr a oedd wedi ateb y cwestiwn hwn.

Mynegwyd cryn awydd unwaith eto gan y cyhoedd i sicrhau bod y safonau a gaiff eu pennu yn rhai sy'n glir, cadarn a dealladwy i bobl gyffredin. Ategwyd hynny gan nodi mai drwy hynny'n unig y sicrheir y caiff hawliau siaradwyr Cymraeg eu diogelu.

Amlinellir isod brif themâu'r ymatebion a dderbyniwyd a oedd o blaid gwneud y safonau'n benodol gymwys:

- Yr angen i sicrhau bod y safonau a bennir yn adlewyrchu'n llawn argymhellion Ymholiad Iechyd Comisiynydd y Gymraeg.
- Yr angen i sicrhau bod safonau yn sicrhau darpariaeth o wasanaethau Cymraeg yn ddiodyn, gan sicrhau bod y cysyniad o gynnig rhagweithiol yn gyson drwyddi draw.
- Sicrhau nad yw'r broses o ddyfarnu neu ddelio â thendr neu gontract uwchlaw'r angen am osod amodau iaith Gymraeg ar y grantiau/contractau a ddosberthir gan sefydliadau sydd wedi'u cynnwys yng nghylch 2.
- Yr angen i sicrhau bod safonau mewn perthynas â gwasanaeth wyneb-yn-wyneb yn mynd tu hwnt i brif dderbynfeydd a chyfarfodydd personol sydd wedi eu trefnu ymlaen llaw.
- Yr angen i sicrhau eglurder bod y diffiniad o gyfarfodydd personol yn cynnwys pob cyswllt wyneb-yn-wyneb.
- Yr angen i bennu safon sydd yn gosod gofynion clir ar bolisiau recriwtio sefydliadau.

Derbyniwyd rhai ymatebion gan aelodau'r cyhoedd a oedd yn mynegi gwrthwynebiad cyffredinol i ddyletswyddau iaith.

Amlinellir prif themâu'r ymatebion a dderbyniwyd a oedd yn erbyn gwneud y safonau'n benodol gymwys isod:

- Yr angen i ystyried yr hinsawdd economaidd bresennol, a'r modd y caiff arian cyhoeddus ei wario ar y Gymraeg.
- Blaenoriaethu meysydd polisi eraill dros y Gymraeg.
- Perthnasedd y Gymraeg yng Nghymru.
- Anghytuno â'r gofyniad y dylai'r Gymraeg ymddangos neu gael ei chyhoeddi'n gyntaf.

### **Safonau cyflenwi gwasanaethau**

Derbyniwyd sylwadau gan aelodau o'r cyhoedd oedd yn galw am yr angen i sicrhau y caiff safonau penodol eu pennu ar gyfer y cyrff iechyd sydd yn adlewyrchu canfyddiadau Comisiynydd y Gymraeg yn ei hadroddiad 'Fy Iaith, Fy Iechyd: Ymholiad Comisiynydd y Gymraeg i'r Gymraeg mewn Gofal Sylfaenol'. Ategwyd hynny drwy nodi y dylid pennu safonau mewn perthynas â chontractau cenedlaethol â meddygon teulu a darparwyr gofal sylfaenol.

Derbyniwyd sylwadau oedd yn nodi bod gwendid anfwriadol, yn eu tyb hwy, yn y rheoliadau drafft, a hynny oherwydd nad yw'r safonau mewn perthynas â derbyn gwasanaeth Cymraeg wyneb-yn-wyneb yn mynd tu hwnt i gyfarfodydd personol sydd wedi eu trefnu ymlaen llaw, a gwasanaeth mewn prif dderbynfeydd. Yn yr un modd, nodwyd ei bod hi'n hollbwysig bod rheoliadau mewn perthynas â chyrrff iechyd yn pennu safonau cyfarfodydd personol sy'n cwmpasu apwyntiadau, ymgynghoriadau a phob cyswllt wyneb-yn-wyneb arall o'r fath.

Pwysleisiwyd pwysigrwydd cyfarfodydd personol yn y maes iechyd, y maes addysg a'r

maes cyfiawnder, gan dynnu sylw at y ffaith nad oeddynt o'r farn y byddai'r rheoliadau drafft yn sicrhau darpariaeth Gymraeg wyneb-yn-wyneb y tu hwnt i gyfarfodydd personol ac mewn derbynfydd. Ategwyd hynny gan nodi y dylid ymestyn y diffiniad i gyd-destunau amrywiol eraill.

Derbyniwyd nifer o ymatebion a oedd yn cefnogi'r safonau mewn perthynas â chyfarfodydd nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol, a hynny gan gofio bod nifer o sefydliadau yn y maes cyfiawnder wedi eu cynnwys yng nghylch 2. Er bod y safonau yn cyfeirio at fuddiant neu lesiant personol, mynegwyd pryder gan rai nad oedd hi'n gwbl eglur a fyddai hynny'n cwmpasu hawl person i gael ei gyfweld yn Gymraeg yn y cyd-destun uchod.

O ran y safonau yn ymwneud â chysiau, pwysleisiodd nifer o ymatebwyr bwysigrwydd hyfforddiant proffesiynol ym maes iechyd ynghyd â sectorau eraill, a'r angen i bennu safonau a fyddai'n gwarantu cyrsiau datblygiad proffesiynol drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ogystal â hynny, mynegwyd pryder ynglŷn ag eglurder y diffiniad o gyrsiau, gyda pherygl y gellid gweld cyrsiau sy'n agored i'r cyhoedd fel rhai ar gyfer aelodau o'r cyrff neu sy'n cael eu rheoli gan y cyrff yn unig.

## 6 Tystiolaeth a dderbyniwyd gan Banel Cyngori Comisiynydd y Gymraeg

Derbyniwyd tystiolaeth gan y Panel Cyngori yn unol â'r gofynion a amlinellir yn adran 63(3) Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Roedd yr ymatebion a dderbyniwyd gan y Panel yn dangos cefnogaeth i bwrpas y rheoliadau sef gwireddu amcanion sylfaenol Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011: bod y Gymraeg yn iaith swyddogol yng Nghymru ac na ddylid ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Yn yr un modd â'r hyn a nodwyd yng nghyswllt y personau y cynhaliwyd ymchwiliadau safonau iddynt yng nghylch 1, roedd y Panel o'r farn y dylid ystyried rhesymoldeb a chymesuredd gwneud y safonau'n benodol gymwys i'r personau perthnasol ochr yn ochr â'r cyd-destun. Roedd hynny, yn eu tyb hwy, yn cynnwys bwriad y ddeddfwriaeth a dymuniad y Ddeddfwrfa o ran statws cyfreithiol y Gymraeg; maint y sefydliadau dan sylw; eu hymwneud â'r cyhoedd; a'r gwahaniaeth rhwng gosod safonau a'r amserlen ar gyfer cydymffurfio â'r safonau hynny.

Ategwyd at hynny gan nodi y gellir ystyried rhesymoldeb a chymesuredd mewn un o ddwy ffordd, sef; pennu safonau gwahanol i bersonau mewn ardaloedd gwahanol o Gymru gan adlewyrchu natur ieithyddol yr ardaloedd perthnasol neu bennu safonau cyffredin ar draws Cymru gan ddatgan diwrnodau gosod gwahanol ar gyfer pryd y bydd yn ofynnol iddynt orfod cydymffurfio â safon(au) e.e. lle bo angen elfen o hyfforddiant staff er mwyn cydymffurfio â safon, caniatáu rhagor o amser i berson gydymffurfio â safon o'i gymharu â pherson lle mae adnoddau staff priodol ar gael eisoes. Roedd y Panel unwaith eto'n gryf o'r farn mai'r ail ddull yw'r mwyaf addas i Gomisiynydd y Gymraeg ei weithredu yn y mwyafrif o achosion, gan ystyried bod sicrhau gwell cysondeb rhwng personau o ran darparu gwasanaethau Cymraeg yn un o brif amcanion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Er hynny, derbyniwyd sylwadau gan y Panel ynglŷn â rhesymoldeb a chymesuredd gwneud y safonau'n benodol gymwys i bersonau sydd â'u pencadlys tu allan i Gymru, gan ei gwneud hi'n ofynnol iddynt gydymffurfio â hwy ar draws y DU. Pwysleisiwyd y dylid sicrhau bod unrhyw ofynion sy'n cael eu gosod ar bersonau tebyg yn nodi'r amgylchiadau hynny lle bydd disgwyl iddynt gydymffurfio â safon(au).

## Cyrff Cyhoeddus: Llywodraeth Leol

### **Safonau cyflenwi gwasanaethau**

Roedd y Panel o'r farn y dylid gwneud safonau cyflenwi gwasanaethau sy'n ymwneud â phob un o'r gweithgareddau yn benodol gymwys i'r personau perthnasol, gan alluogi aelodau o'r cyhoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y sefyllfaoedd dan sylw.

Wrth ddod i'r casgliad hwnnw, nododd y Panel eu bod o'r farn nad oedd unrhyw reswm na ddylai'r personau perthnasol allu cyflawni mwyafrif y gweithgareddau dan sylw a chydymffurfio â hwy, a thrwy hynny ymwneud â'r cyhoedd yn Gymraeg yn gynyddol. Er hynny, roedd y Panel o'r farn y dylid sicrhau ychydig o hyblygrwydd mewn perthynas â rhai gweithgareddau, gan dynnu sylw penodol at gynhyrchu a chyhoeddi dogfennau, derbyn ceisiadau am grant ynghyd â chysiau. Pwysleisiwyd mai hyblygrwydd mewn sefyllfaoedd neu amgylchiadau eithriadol fyddai ei angen, gan dynnu sylw'n benodol at ddogfennau fyddai'n gyfyngedig o ran pwnc a'r gynulleidfa darged dybiedig.

Yn yr un modd, roedd y Panel o'r farn y dylid rhoi ystyriaeth i leoliadau canolfannau neu swyddfeydd y personau dan sylw wrth gyflwyno hysbysiadau cydymffurfio. Ategwyd at hynny gan nodi y byddai angen ystyried a fyddai'n rhesymol i bersonau o'r fath gydymffurfio â detholiad o'r safonau pan nad oes ganddo bresenoldeb yng Nghymru. Pwysleisiwyd y cymalau perthnasol yn adran 44 (3) y Mesur fel modd i'r Comisiynydd allu goresgyn sefyllfaoedd cyffelyb.

### **Safonau llunio polisi**

Croesawyd y safonau llunio polisi a bennwyd yn y rheoliadau drafft gan y Panel. Ategwyd at hynny gan nodi y dylai'r safonau hyn gael eu gosod ar bob person y cynhelir ymchwiliad safonau mewn perthynas â hwy yng nghylch 2, gan bwysleisio pwysigrwydd cydymffurfiaeth â hwy ar bob lefel.

Roedd y Panel yn gytûn y dylai penderfyniadau polisi'r personau perthnasol wella'r cyfleoedd sydd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau gwell triniaeth i'r Gymraeg, ac y dylid gwneud safonau llunio polisi yn benodol gymwys iddynt.

### **Safonau gweithredu**

Roedd y Panel yn gytûn y dylai'r personau perthnasol orfod hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn unol â'r safonau gweithredu, ac y dylid gwneud safonau gweithredu'n benodol gymwys iddynt.

### **Safonau cadw cofnodion**

Roedd y Panel yn unfryd o'r farn bod gwneud safonau cadw cofnodion yn benodol gymwys i bersonau cylch 2 yn gwbl angenrheidiol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â gweddill y safonau y bydd yn ofynnol iddynt gydymffurfio â hwy.

Roedd y Panel yn gytûn y dylai'r personau perthnasol gadw cofnod yn dweud sut y maent yn cadw at safonau penodedig eraill, a chadw cofnodion o gwynion. Daethpwyd i'r casgliad y dylid gwneud safonau cadw cofnodion yn benodol gymwys iddynt.



## 7 Casgliadau'r ymchwiliad safonau

### Sylwadau cyffredinol

Daethpwyd i'r casgliadau isod ar sail y dystiolaeth a dderbyniwyd gan y personau perthnasol, y cyhoedd a'r Panel Cyngori i bwnc yr ymchwiliad safonau, ynghyd â thystiolaeth annibynnol a gasglwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg yng nghyd-destun cynllun iaith y person perthnasol dan sylw.

Nodir ym Memorandwm Esboniadol Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 mai un o brif amcanion y ddeddfwriaeth oedd moderneiddio ac adeiladu ar y system o gynlluniau iaith Gymraeg a grëwyd o dan Ddeddf 1993. Yn yr un modd, nodir mai nod Llywodraeth Cymru wrth Ddeddfu oedd sicrhau gwell cysondeb rhwng personau, yn enwedig rhwng personau yn yr un sector, o ran darparu gwasanaethau Cymraeg.

Yn yr un modd, nodir bod adran 42 y Mesur yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod rheoliadau'n darparu bod safonau cyflenwi gwasanaethau sy'n ymwneud â phob un o'r gweithgareddau a bennir yn Atodlen 9 yn benodol gymwys i berson os yw'r person, ac i'r graddau y mae'r person, yn gwneud y gweithgareddau hynny.

Er hynny, dylid nodi nad oes rhaid iddynt wneud hynny os yw'r Comisiynydd yn nodi mewn adroddiad safonau, neu os yw Gweinidogion Cymru o'r farn, y byddai'n afresymol neu'n anghymesur i safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys i berson mewn perthynas â'r gweithgaredd hwnnw. Dylid nodi nad yw'r adran hon yn y Mesur yn atal rheoliadau o dan adran 39 rhag darparu bod safonau cyflenwi gwasanaethau eraill yn benodol gymwys i berson.

Yn unol â'r uchod, os amlygwyd drwy'r ymchwiliad safonau bod person yn gwneud y gweithgaredd<sup>144</sup>, boed hynny i raddau mwy neu lai, daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai'r holl safonau mewn perthynas â'r gweithgaredd hwnnw gael eu gwneud yn benodol gymwys iddo. Daethpwyd i'r casgliadau hynny gan fod y safonau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru yn gyd-ddibynnol ar ei gilydd o fewn cwmpas gweithgaredd.

Nodir hefyd y gall y modd y cyflenwir gwasanaeth mewn perthynas â gweithgaredd newid yn y dyfodol ac y byddai angen addasu i adlewyrchu hynny drwy amrywio'r hysbysiad cydymffurfio, yn hytrach na mynd yn ôl at reoliadau.

Er hynny, lle ceir tystiolaeth nad yw person yn gwneud gweithgaredd o gwbl, boed hynny drwy dystiolaeth a ddaw yn rhan o'r ymchwiliad safonau, neu drwy ddulliau eraill, daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad na ddylai safonau o dan y gweithgaredd hwnnw fod yn benodol gymwys iddynt, oni bai bod rhesymau dilys wneud hynny.

Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn ystyried y dystiolaeth a ddarparwyd er mwyn dod i farn ar gynnwys hysbysadau cydymffurfio a roddir i bersonau perthnasol o dan adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

<sup>144</sup> Gweithgaredd cyflenwi gwasanaethau fel y'i diffinnir yn adran 28 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

## Safonau y dylid eu gwneud yn benodol gymwys i'r personau a ddaw o fewn yr adroddiad safonau Cyrff Cyhoeddus: Llywodraeth Leol

### Safonau cyflenwi gwasanaethau

Yn sgil cynnal yr ymchwiliad safonau hwn, ac ar sail y dystiolaeth a dderbyniwyd, daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai'r personau a ddaw o fewn yr adroddiad Cyrff Cyhoeddus: Llywodraeth Leol allu cyflenwi gwasanaethau mewn perthynas â'r gweithgareddau perthnasol.

Unwaith eto, dymuna'r Comisiynydd nodi pwysigrwydd gwahaniaethu'n glir rhwng ymrwymadau person (yr hyn sy'n ddisgwyliedig ohonynt) a pherfformiad (i ba raddau maent yn cydymffurfio â'r disgwyliadau hynny ar hyn o bryd). Mae pob cynllun iaith Gymraeg yn dwyn awdurdod llawn y person wrth ddod i gytundeb ar gynnwys. Byddai peidio â phennu safonau sy'n gydradd, a'u gwneud yn benodol gymwys i'r personau dan sylw, yn gam yn ôl ac yn mynd yn groes i fwriad Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Nodir bod perfformiad, ynghyd ag i ba raddau y gall person gydymffurfio â safon ar gyfnod amser penodol, yn fater ymarferol. Gall y graddau hynny wella, gwaethygu neu aros yr un fath. Mae Comisiynydd y Gymraeg o'r farn y dylai ymrwymadau ddiwallu anghenion defnyddwyr y Gymraeg y maent yn eu gwasanaethu, gydag amserlen resymol wedi ei phennu ar gyfer delio ag unrhyw rwystrau sy'n bodoli. Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn ystyried y rhwystrau hynny wrth benderfynu ar gynnwys hysbysiadau cydymffurfio a gyflwynir o dan adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Cydnabyddir i'r personau adnabod heriau a rhwystrau posibl i gydymffurfiaeth lawn â rhai o'r safonau cyflenwi gwasanaeth. Serch hynny, mae'r Comisiynydd o'r farn y gellid cwrdd ag ymrwymadau sy'n gymesur ag anghenion defnyddwyr y Gymraeg gydag amserlen resymol ar gyfer gweithredu ac ymdrin ag unrhyw heriau.

Amlygwyd pryder cyffredinol gan nifer o'r Byrddau Iechyd Lleol a nododd fod dehongli rhai o'r safonau wedi bod yn anodd o fewn cyd-destun eu gwaith hwy gan eu bod o'r farn bod y safonau fel ag y maent yn adlewyrchu rhai sefydliadau cyhoeddus eraill yn well na'i gilydd. Yn yr un modd, nodwyd eisoes fod Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi nodi eu bod yn credu bod rhai diffiniadau yn aneglur, gan gyfeirio'n benodol at y term "person". Serch hynny, fe nododd Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd fod rhai o'r safonau yn orfanwl ac y byddai'r fiwrocratiaeth sydd ynghlwm â hynny yn debygol o leihau'r ymrwymiad sydd tuag at y Gymraeg yn eu tyb hwy.

Cydnabyddir hefyd fod personau wedi nodi nad oeddynt yn gwneud pob un o'r gweithgareddau dan sylw. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau cysondeb o fewn sectorau, pan fo o leiaf un person o fewn grŵp wedi nodi eu bod yn gwneud gweithgaredd, daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylid gwneud y gweithgaredd hwnnw'n benodol gymwys i'r holl bersonau o fewn y grŵp hwnnw. Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn ystyried yr anghysonderau hynny ymhellach wrth benderfynu ar gynnwys hysbysiadau cydymffurfio unigol a gyflwynir o dan adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

**Casgliad 1: Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau cyflenwi gwasanaethau mewn perthynas â'r gweithgareddau isod fod yn benodol gymwys i bob person perthnasol a ddaw o fewn adroddiad safonau Cyrff Cyhoeddus: Llywodraeth Leol:**

- gohebiaeth a anfonir gan gorff

- galwadau ffôn at gorff a chan gorff
- cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol
- cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd
- corff yn cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau
- corff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni
- gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff
- corff yn dyfarnu ar dendrau am contract
- hunaniaeth gorfforaethol corff.

Nododd pob person o fewn y grŵp Awdurdodau'r Heddlu nad ydynt yn cynhyrchu deunydd cyhoeddusrwydd neu ddeunydd hysbysebu, yn arddangos deunydd yn gyhoeddus nac yn cyhoeddi ac arddangos hysbysiadau swyddogol ychwaith. Noda'r rheoliadau drafft mai diffiniad hysbysiad swyddogol yw 'unrhyw hysbysiad y mae corff yn ei gyhoeddi er mwyn rhoi gwybod i bersonau am weithgareddau cyflenwi gwasanaethau neu newidiadau i weithgareddau cyflenwi gwasanaethau'r corff'<sup>145</sup>. Gyda hynny mewn golwg, daw'r Comisiynydd i'r casgliad y gall y rhain fod yn weithgareddau perthnasol i'r personau hyn yn y dyfodol.

Yn yr un modd, nododd pob person o fewn y grŵp Awdurdodau'r Heddlu nad ydynt yn codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg y maent yn eu darparu. Serch hynny, daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai fod y personau hyn fod yn codi ymwybyddiaeth ynghylch y gwasanaethau Cymraeg y maent yn eu darparu.

Nododd yr Awdurdod Iechyd Arbennig ei fod yn arddangos arwyddion ac yn derbyn ymwelwyr o fewn ei swyddfa yn Lloegr ond nad yw hynny'n digwydd yng Nghymru am nad oes ganddo unrhyw swyddfeydd yno ar hyn o bryd. Fe nododd hefyd nad ydyw'n trefnu nac yn ariannu digwyddiadau cyhoeddus, yn arddangos deunydd yn gyhoeddus, cyhoeddi nac arddangos hysbysiadau swyddogol, cynnig cyrsiau addysg i'r cyhoedd nac yn defnyddio systemau annerch cyhoeddus. Fodd bynnag, nid yw'n eglur o'r dystiolaeth a dderbyniwyd a yw hynny am nad yw'r gweithgareddau hyn yn cael eu cyflenwi o gwbl, nteu a ydynt yn cael eu cyflenwi yn Lloegr ond nid yng Nghymru.

Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn ystyried yr amgylchiadau hyn ymhellach wrth benderfynu ar gynnwys hysbysiadau cydymffurfio o dan adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

**Casgliad 2: Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau cyflenwi gwasanaethau mewn perthynas â'r gweithgareddau isod fod yn benodol gymwys i bob person perthnasol a ddaw o fewn yr adroddiad Cyrff Cyhoeddus: Llywodraeth Leol:**

- digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff
- cyhoeddusrwydd a hysbysebu
- arddangos deunydd yn gyhoeddus
- arwyddion a arddangosir gan gorff
- derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff
- corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol
- codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff
- systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff.

<sup>145</sup> Paragraff 35, Rhan 3, Atodlen 1, Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Gweinidogion Cymru, Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol, ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) 2015.

Nododd pob person o fewn y grwpiau Cynghorau Iechyd Cymuned a'r Awdurdodau'r Heddlu nodi nad ydynt yn darparu cyrsiau i'r cyhoedd. Fodd bynnag, dylid nodi bod Rhan 3, Atodlen 1, Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Gweinidogion Cymru, Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol, ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) 2015 yn cyfeirio at gyrsiau addysg a'u dehongli fel:

*“...unrhyw seminar, hyfforddiant, gweithdy neu ddarpariaeth debyg sy'n cael ei ddarparu neu ei darparu ar gyfer addysgu neu wella sgiliau aelodau o'r cyhoedd...”*

Gan ystyried y diffiniad uchod, gallasai ystod eang o weithgarwch personau fod yn berthnasol. Gan ystyried hynny, daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y gall hwn fod yn weithgaredd perthnasol i'r holl bersonau yn yr adroddiad hwn.

**Casgliad 3: Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau cyflenwi gwasanaethau mewn perthynas â'r gweithgareddau isod fod yn benodol gymwys i bob person perthnasol a ddaw o fewn yr adroddiad Cyrff Cyhoeddus: Llywodraeth Leol:**

- cyrsiau a ddarperir gan gorff.

Cadarnhaodd pob person o fewn y grwpiau Awdurdodau'r Heddlu, Awdurdodau Tân ac Achub a'r Cynghorau Iechyd Cymuned nad ydynt yn dyfarnu ar geisiadau am grant. Fodd bynnag, o'r sawl sydd â chynllun iaith Gymraeg, roedd ymrwymadau rhannol neu lawn sy'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar geisiadau am grant gan bob person sydd o fewn yr adroddiad safonau hwn.

**Casgliad 4: Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau cyflenwi gwasanaethau mewn perthynas â'r gweithgareddau isod fod yn benodol gymwys i bob person perthnasol a ddaw o fewn yr adroddiad Cyrff Cyhoeddus: Llywodraeth Leol, i'r graddau bod y pŵer a'r swyddogaeth gan y personau i wneud hynny:**

- corff yn dyfarnu ar geisiadau am grant.

## **Safonau llunio polisi**

Yn sgil cynnal yr ymchwiliad safonau hwn, ac ar sail y dystiolaeth a dderbyniwyd, daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai penderfyniadau polisi sefydliadau a ddaw o fewn yr adroddiad Cyrff Cyhoeddus: Llywodraeth Leol wella'r cyfleoedd sydd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Rhesymau'r Comisiynydd dros ddod i'r casgliad hwnnw yw bod eisoes disgwyl i nifer o'r personau hyn asesu goblygiadau ieithyddol polisiâu a mentrau newydd yn ystod y broses o'u creu a'u hadolygu. Cadarnhawyd hyn oll yn y dystiolaeth a dderbyniwyd fel rhan o'r ymchwiliad safonau hwn.

Cydnabyddir fod materion wedi eu codi ynghylch gallu rhai o'r personau i gydymffurfio â holl ofynion y safonau. Cydnabyddir hefyd fod peth aneglurder wedi codi yn sgil y dystiolaeth a dderbyniwyd gan rhai personau ynghylch pwy sy'n gyfrifol am lunio eu polisiâu. Dylid nodi bod y safonau llunio polisi wedi'i diffinio'n eang ac y nodir yn nogfen Rheoliadau Safonau'r Gymraeg mai ystyr “penderfyniad polisi” yw

“unrhyw benderfyniad a wneir gan gorff sy'n ymwneud ag arfer ei swyddogaethau neu gynnal ei fusnes neu ymgymeriad arall, ac mae hynny'n cynnwys, ymysg pethau eraill (ac

fel y bo'n briodol i'r corff), penderfyniadau ynghylch-

- (a) cynnwys deddfwriaeth;
- (b) y defnydd o bwerau statudol;
- (c) cynnwys datganiadau polisi;
- (d) strategaethau neu gynlluniau strategol;
- (e) strwythurau mewnol.<sup>146</sup>

Mae'r mesurau gofynnol sy'n sail ar gyfer cynnwys cynlluniau iaith Gymraeg i'w gweld ar ffurf canllawiau statudol a gymeradwywyd gerbron Tŷ'r Cyffredin (pasiwyd Canllawiau ar Ffurf a Chynnwys Cynlluniau Iaith gan Senedd y DU ar 19 Gorffennaf 1995). Nodir yn y canllawiau hynny y dylai sefydliadau orfod pennu'r mesurau y bwriedir eu cymryd wrth asesu effaith polisiau, strategaethau a mentrau newydd a'u gweithredu.

**Casgliad 5: Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau llunio polisi fod yn benodol gymwys i bob person perthnasol a ddaw o fewn yr adroddiad Cyrff Cyhoeddus: Llywodraeth Leol.**

## Safonau gweithredu

Noda adran 30 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 mai ystyr safon gweithredu yw:

safon y bwriedir iddi hybu neu hwyluso defnyddio'r Gymraeg

- (i) gan A wrth i A wneud ei weithgareddau perthnasol,
- (ii) gan A a pherson arall wrth iddynt ddelio â'i gilydd mewn cysylltiad â gweithgareddau perthnasol A, neu
- (iii) gan berson heblaw A wrth iddo wneud gweithgareddau at ddibenion gweithgareddau perthnasol A, neu mewn cysylltiad â hwy.

Golyga hynny mai diben y safonau gweithredu yw sicrhau bod aelod o staff yn cael defnyddio'r Gymraeg wrth wneud ei weithgareddau perthnasol gydag eraill. Gall hynny olygu â'r cyhoedd yng Nghymru, neu â pherson perthnasol arall. Drwy'r safonau yma, fe sicrhau bod sgiliau iaith staff yn ddigonol er mwyn i unigolion sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg â'r person hwnnw allu gwneud hynny. Dylid pwysleisio bod yr amcan hwnnw'r un mor briodol i bersonau sydd wedi eu lleoli mewn mannau eraill o'r DU, ond sydd yn cyflenwi gwasanaethau i Gymru, ag y mae i bersonau sydd wedi eu lleoli yng Nghymru. Caiff yr uchod ei ategu gan y ffaith bod Atodlen 6 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn nodi bod safonau gweithredu yn gymwysadwy i'r holl bersonau.

Noda Comisiynydd y Gymraeg bod rhai personau o'r math hwn (h.y. sydd ddim wedi eu lleoli yng Nghymru) wedi eu cynnwys o fewn yr adroddiad safonau hwn, sef

- Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG
- Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig

Ar 24 Mawrth 2015, cymeradwywyd Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 yng Nghyfarfod Llawn Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Cafodd y rheoliadau hyn eu datblygu i osod dyletswyddau ar gynghorau bwrdeistref sirol a chynghorau sir, awdurdodau parciau cenedlaethol a Gweinidogion Cymru. Lleolir yr holl sefydliadau hynny yng Nghymru. Dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod safonau gweithredu y caiff eu pennu mewn rheoliadau ar

<sup>146</sup> Paragraff 2, Rhan 2, Atodlen 2, Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Gweinidogion Cymru, Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol, ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) 2015.

gyfer cylch 2 yn cyflawni'r un amcanion a nodir uchod, gan gydnabod nad yw rhai personau wedi eu lleoli yng Nghymru ar hyn o bryd.

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cydnabod bod rhai elfennau ynghlwm â'r safonau gweithredu yn newydd i nifer o'r personau perthnasol a ddaw o fewn yr adroddiad safonau hwn. I'r un perwyl, derbyniwyd rhai enghreifftiau ble nad oes trefniadau mewn lle er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth lawn â'r gofynion ar hyn o bryd. Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn ystyried hynny ymhellach wrth benderfynu ar gynnwys hysbysiadau cydymffurfio a roddir o dan adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Er yr uchod, dylid nodi bod nifer o'r gofynion yn bethau sy'n ddisgwyliedig i nifer o bersonau eu gwneud o dan gynlluniau iaith Gymraeg. Mae'r rhain yn cynnwys pennu mesurau i sicrhau bod gweithleoedd sydd â chyswllt â'r cyhoedd yng Nghymru yn ceisio cael digon o siaradwyr Cymraeg sydd â'r sgiliau priodol; mesurau i glustnodi'r swyddi hynny lle ystyrir bod y gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol a'r rhai lle ystyrir ei fod yn ddymunol; ynghyd â mesurau i asesu'r angen am hyfforddiant a'i ddarparu i gyflogeion.

I'r perwyl hwn, ac ar sail y dystiolaeth a dderbyniwyd, daw'r Comisiynydd i'r casgliad ei bod hi'n rhesymol a chymesur i'r personau hyn alluogi eu gweithwyr wneud eu gweithgareddau perthnasol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Gyda'r elfennau hynny nad ydynt wedi eu gwreiddio yn eu cynllun iaith Gymraeg, neu'n weithredol ar hyn o bryd, daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y byddai caniatáu amser digonol i ymgynraedd at y nod polisi newydd hwn, yn ogystal â chynnwys mesurau lleddfu eraill mewn hysbysiadau cydymffurfio, lle bo'n briodol, yn rhesymol a chymesur.

Daw'r Comisiynydd i'r un casgliadau ar gyfer y sefydliadau hynny sydd wedi nodi nad oes ganddynt staff sy'n medru'r Gymraeg ar hyn o bryd, a hynny er mwyn eu galluogi hwy i weithredu'r dosbarthiadau eraill o safonau.

**Casgliad 6:** Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau gweithredu mewn perthynas â'r materion isod fod yn benodol gymwys i Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG ac Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig:

- Safonau ynghylch corff yn meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu
- Safonau ynghylch recriwtio gan gorff.

**Casgliad 7:** Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru ystyried pennu safonau amgen mewn perthynas â'r materion isod ar gyfer Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer lechyd a Gofal Cymdeithasol a Chomisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau:

- Safonau ynghylch defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol corff
- Safonau ynghylch cwynion a wneir gan aelod o staff corff
- Safonau ynghylch corff yn disgyblu staff
- Safonau ynghylch technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan gorff, ac ynghylch y fewnwyd
- Safonau ynghylch arwyddion a arddangosir yng ngweithle corff
- Safon ynghylch cyhoeddiadau a negeseuon sain yng ngweithle corff.

**Casgliad 8:** Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau gweithredu mewn perthynas â'r materion isod fod yn benodol gymwys i bob person perthnasol arall a ddaw o fewn yr adroddiad safonau hwn:

- Safonau ynghylch defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol corff
- Safonau ynghylch cwynion gan aelodau o staff corff
- Safonau ynghylch corff yn disgyblu staff
- Safonau ynghylch technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan gorff, ac ynghylch y fewnwyd
- Safonau ynghylch corff yn meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu
- Safonau ynghylch recriwtio gan gorff
- Safonau ynghylch arwyddion a arddangosir yng ngweithle corff
- Safonau ynghylch cyhoeddiadau a negeseuon sain yng ngweithle corff.

### Safonau cadw cofnodion

Yn sgil cynnal yr ymchwiliad safonau hwn, ac ar sail y dystiolaeth a dderbyniwyd, daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai'r personau a ddaw o fewn yr adroddiad Cyrff Cyhoeddus: Llywodraeth Leol gadw cofnod yn dweud sut y maent yn cadw at safonau y disgwylir iddynt gydymffurfio â hwy, ynghyd â chwynion. Mae'n ofynnol o dan gynlluniau iaith Gymraeg i'r sefydliadau dan sylw bennu camau sydd i'w cymryd i gyhoeddi gwybodaeth ar berfformiad y sefydliad yn erbyn y gofynion statudol. Cadarnhawyd hynny yn y dystiolaeth a dderbyniwyd, gyda'r mwyafrif o'r personau hyn, ar y cyfan, yn nodi bod y safonau cadw cofnodion, mewn egwyddor, ac yn weithredol i raddau helaeth, yn arfer cyfredol.

**Casgliad 9:** Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau cadw cofnodion fod yn benodol gymwys i bob person perthnasol a ddaw o fewn yr adroddiad Cyrff Cyhoeddus: Llywodraeth Leol.

### Safonau hybu

Cyngor lechyd Cymuned Hywel Dda oedd yr unig berson o fewn yr adroddiad Cyrff Cyhoeddus: Llywodraeth Leol a oedd yn dymuno cydsynio i wneud safonau hybu yn gymwysadwy ac yn benodol gymwys iddynt.

**Casgliad 10:** Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau hybu fod yn benodol gymwys i Gyngor lechyd Cymuned Hywel Dda.

### Safonau sy'n ymdrin â materion atodol

Ceir darpariaethau ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 sy'n ymwneud â threfniadau monitro a gofynion adrodd ar gyfer y gyfundrefn safonau (Adran 27 – Darpariaethau Atodol). Yn dilyn cymeradwyaeth 'Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015'<sup>147</sup> yng nghyfarfod llawn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 24 Mawrth 2015, pennwyd safonau sy'n ymdrin â materion atodol o dan adran 26 y Mesur.

Noda Comisiynydd y Gymraeg ei bod hi'n ofynnol o dan gynlluniau iaith Gymraeg i bennu camau sydd i'w cymryd i gyhoeddi gwybodaeth ar berfformiad y sefydliad yn erbyn y gofynion statudol.

<sup>147</sup> <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2015/996/made/welsh/data.pdf>

Mae dogfen polisi Llywodraeth Cymru, ‘Arolygu, Archwilio a Rheoleiddio’<sup>148</sup>, yn egluro mai rôl arolygwyr yw “gwirio’n annibynnol gan ddefnyddio arbenigedd proffesiynol a phŵer cyfreithiol”. Caiff hynny ei ategu gan Adroddiad Crerar ar arolygu yn yr Alban sy’n nodi mai rôl arolygwyr allanol yw darparu sicrwydd annibynnol fod gwasanaethau’n cael eu rheoli’n dda ac yn addas i bwrpas. Yn ôl Crerar, pum prif egwyddor arolygu yw’r angen i ganolbwyntio ar y cyhoedd; annibyniaeth; cymesuredd; tryloywder ac atebolrwydd. Mae cynigion Crerar yn gyson ag egwyddorion Hampton sy’n nodi y dylai arolygu ddigwydd ar sail risg; na ddylid cynnal arolygon heb reswm ac y dylai rheoleiddwyr allu rhoi cyngor awdurdodol a hygyrch. Yn yr un modd, ceir cydnabyddiaeth hefyd nad oes modd i gyrrff arolygu oruchwylio popeth y mae darparwyr gwasanaethau yn ei wneud. Hynny yw, mae disgwyliad cynyddol ar ddarparwyr gwasanaeth i gael trefniadau craffu ac archwilio mewnol cadarn. Ymhellach i hynny, mae hunan asesu yn chwarae rhan gynyddol bwysig mewn trefniadau arolygu allanol.

**Casgliad 11:** Yn sgil cynnal yr ymchwiliad safonau, ac wrth ystyried yr uchod, daw Comisiynydd y Gymraeg i’r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau sy’n ymdrin â materion atodol fod yn benodol gymwys i’r holl bersonau perthnasol a ddaw o fewn yr adroddiad safonau hwn.

## **Safonau ychwanegol y dylid eu pennu a’u gwneud yn benodol gymwys i’r personau a ddaw o fewn yr adroddiad Cyrff Cyhoeddus: Llywodraeth Leol**

Nodir yr isod yn adran 64(3) Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011:

Os -

- (a) casgliadau’r ymchwiliad safonau (boed yn llwyr neu’n rhannol) yw y dylai safonau fod yn benodol gymwys i berson, a
- (b) nad yw unrhyw un neu ragor neu’r oll o’r safonau hynny wedi ei phennu neu eu pennu gan Weinidogion Cymru o dan adran 26(1), rhaid i’r adroddiad safonau nodi’r safonau sydd heb eu pennu.

Daw Comisiynydd y Gymraeg i’r casgliad y dylid pennu safonau ychwanegol at y rhai a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 7 Tachwedd 2014. Lluniwyd y farn hon yn dilyn derbyn tystiolaeth gan y cyhoedd a’r personau perthnasol fel rhan o’r ymchwiliad safonau.

## **Gweithgareddau: cyfryngau cymdeithasol; peiriannau hunanwasanaeth**

Ers i gyfnod yr ymchwiliad safonau ddirwyn i ben, fe osodwyd fersiwn ddrafft o Reoliadau Safonau’r Gymraeg (Rhif 1) (Cymru) 2015 yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Mawrth 2015. Derbyniodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru y Rheoliadau hyn yng Nghyfarfod Llawn 24 Mawrth 2015. Gwelwyd safonau cyflenwi gwasanaeth ynghylch defnydd corff o’r cyfryngau cymdeithasol, ynghyd â pheiriannau hunanwasanaeth yn ychwanegol at yr ystod o weithgareddau a oedd yn destun yr ymchwiliad safonau hwn. Safonau 58, 59, a 60 yw’r safonau hyn ymhlith Rheoliadau Safonau’r Gymraeg (Rhif 1) (Cymru) 2015.<sup>149</sup>

**Casgliad 12:** Daw Comisiynydd y Gymraeg i’r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau cyflenwi gwasanaethau mewn perthynas â’r gweithgareddau isod fod yn benodol gymwys i bob person perthnasol a ddaw o fewn yr adroddiad Cyrff Cyhoeddus: Llywodraeth Leol, pe bai

<sup>148</sup><http://gov.wales/docs/dpsp/publications/inspectionpolicystatement/090930inspstatementcy.pdf>

<sup>149</sup><http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2015/996/made/welsh/data.pdf>



Gweinidogion Cymru o'r farn bod y gweithgareddau isod yn rhai gallasai'r personau fod yn ymgymryd â nhw ar hyn o bryd, neu yn y dyfodol:

- defnydd corff o'r cyfryngau cymdeithasol
- peiriannau hunanwasanaeth

## Gweithgaredd: darparu gwasanaethau cymorth ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Gwladol Cymru

Mae darparu gwasanaethau cwsmeriaid rhagorol yn ganolbwynt i gyflenwi gwasanaethau i unigolion a chymunedau. Mae Awdurdod Gwasanaeth Busnes y GIG yn sefydliad hyd braich o Adran Iechyd y Llywodraeth sy'n darparu amrywiaeth o wasanaethau canolog allweddol i sefydliadau'r GIG, contractwyr y GIG, cleifion a'r cyhoedd, boed hynny ar draws y DU, yng Nghymru a Lloegr, neu yn Lloegr yn unig.<sup>150</sup>

**Casgliad 13:** Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru bennu safon(au) mewn perthynas â'r isod, a'u gwneud yn benodol gymwys i Awdurdod Gwasanaeth Busnes y GIG, i'r graddau bod y swyddogaethau a'r pwerau hynny'n berthnasol i Gymru:

- Wrth ddarparu unrhyw wasanaeth a/neu swyddogaeth cymorth berthnasol a ddarperir ar gyfer GIG Cymru neu bersonau eraill, rhaid sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

## Gwasanaethau gofal sylfaenol

Cyhoeddodd Comisiynydd y Gymraeg adroddiad 'Fy Iaith, Fy Iechyd: Ymholiad i'r Gymraeg mewn Gofal Sylfaenol' yn ôl ym Mehefin 2014 a oedd yn canolbwyntio ar ddefnydd o'r Gymraeg o fewn gwasanaethau gofal sylfaenol yng Nghymru. Roedd yr adroddiad hwnnw'n cynnwys 33 o argymhellion i Weinidogion Cymru a llunwyr polisi er mwyn gwella profiad y claf yng Nghymru. Ymysg yr argymhellion hynny oedd yr argymhelliad i Weinidogion Cymru gymryd camau penodol i sicrhau bod deddfwriaeth ac is-ddeddfwriaeth sydd yn yr arfaeth yn adlewyrchu'r angen i hybu'r Gymraeg mewn gwasanaethau gofal sylfaenol.

Cyfeiriwyd eisoes at Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) (Cymru) 2015 a dderbyniwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 24 Mawrth 2015. Cynhwysir yn y ddogfen honno'r diffiniad canlynol:

*Yn y Rheoliadau hyn-*

- mae cyfeiriadau at unrhyw weithgaredd sy'n cael ei gyflawni gan gorff, neu at unrhyw wasanaeth sy'n cael ei ddarparu gan gorff, i'w darllen fel pe baent yn cynnwys cyfeiriad at y gweithgaredd hwnnw yn cael ei gyflawni ar ran y corff, neu at y gwasanaeth hwnnw yn cael ei ddarparu ar ran y corff, gan drydydd parti o dan drefniadau a wneir rhwng y trydydd parti a'r corff;*
- yn unol â hynny, oni bai bod hysbysiad cydymffurfio yn darparu i'r gwrthwyneb, bydd corff wedi methu â chydymffurfio â safon mewn cysylltiad â gweithgaredd y mae wedi trefnu iddo gael ei gyflawni, neu wasanaeth y mae wedi trefnu iddo gael ei ddarparu, gan drydydd parti os nad yw'r gweithgaredd hwnnw neu'r gwasanaeth hwnnw wedi ei gyflawni neu ei ddarparu yn unol â'r safon.*

<sup>150</sup> <http://www.nhsbsa.nhs.uk/About.aspx>

**Casgliad 14:** Gan mai gofal sylfaenol yw cyswllt cyntaf mwyafrif aelodau'r cyhoedd gyda'r gwasanaeth iechyd, cred Comisiynydd y Gymraeg ei bod yn hanfodol sicrhau cysondeb ymddygiad ieithyddol ar draws y gwasanaeth iechyd yng Nghymru yn ei gyfanrwydd. O ganlyniad, rhaid i ddarparwyr gwasanaethau gofal sylfaenol fod yn ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg o dan yr un fframwaith statudol â'r sefydliadau iechyd a fu'n destun i'r ymchwiliad safonau hwn. Daw'r Comisiynydd felly i'r casgliad bod angen safonau ychwanegol er mwyn galluogi hyn i ddigwydd.

## 8 Y camau nesaf

Wrth ddarparu'r adroddiad safonau hwn, mae Comisiynydd y Gymraeg wedi ystyried yr holl ymatebion a gyflwynwyd i'r ymchwiliad safonau. Caiff yr adroddiad hwn ei gyflwyno i'r isod yn unol ag adran 64(4) Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011:

- pob person perthnasol
- Panel Cyngori Comisiynydd y Gymraeg
- pob person a gymerodd ran yn ymgynghoriad y Comisiynydd yn unol ag adran 63
- Gweinidogion Cymru.

Ochr yn ochr ag ymchwiliadau safonau Comisiynydd y Gymraeg, disgwylir i Weinidogion Cymru gynnal asesiadau effaith rheoleiddiol mewn perthynas ag is-ddeddfwriaeth berthnasol y maent yn bwriadu ei gwneud, gan ddefnyddio eu pwerau is-ddeddfwriaethol eu hunain.

Noda Deddf Llywodraeth Cymru 2006 mai asesiad effaith rheoleiddiol yw'r isod:

*'A regulatory impact assessment is an assessment as to the likely costs and benefits of complying with relevant Welsh subordinate legislation.'*<sup>151</sup>

Yn hyn o beth, gall asesiad effaith rheoleiddiol gael ei ystyried:

- yn broses i helpu Gweinidogion Cymru ystyried effaith y rheoliad arfaethedig ar fuddiannau unigolion, grwpiau, sefydliadau ac ati.
- yn gyfrwng i alluogi Gweinidogion Cymru i bwysu a mesur costau a manteision yr holl opsiynau sydd ar gael iddynt cyn gweithredu polisi; ac
- yn fodd o gyflwyno'r dystiolaeth berthnasol ar effeithiau cadarnhaol a negyddol ymyriadau o'r fath at ddibenion craffu ar y dystiolaeth honno.<sup>152</sup>

Bydd disgwyl i Weinidogion Cymru ystyried y dystiolaeth a gasglwyd ganddynt at ddibenion yr asesiad effaith rheoleiddiol, ochr yn ochr â chasgliadau Comisiynydd y Gymraeg mewn adroddiad safonau wrth benderfynu a ddylent arfer y pwerau sydd wedi eu rhoi iddynt o dan Rhan 4 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ai peidio.

Cadarnhaodd y Gwir Anrh. Carwyn Jones AC, Prif Weinidog Cymru mewn datganiad ar 24 Mawrth 2015 y rhagwelir ar hyn o bryd y bydd y broses o gyflwyno rheoliadau ar gyfer y personau perthnasol a nodir yn yr adroddiad hwn yn dechrau erbyn diwedd 2015, â dadl a phleidlais ar gymeradwyo'r rheoliadau yng Nghyfarfod Llawn y Cynulliad Cenedlaethol.

<sup>151</sup> Adran 76(2)(a) Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

<sup>152</sup> <http://wales.gov.uk/docs/legislation/guidance/091020riacodecy.doc>

## Atodiad A – Sylwadau cyffredinol a dderbyniwyd gan y cyhoedd ar ymchwiliadau safonau cylch 2

Roedd yr ymatebion a dderbyniwyd yn gyffredinol gefnogol i'r cysyniad o bennu safonau, a hynny er mwyn sicrhau hawliau clir i siaradwyr Cymraeg mewn perthynas â'r gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan yr holl sefydliadau sydd wedi eu cynnwys yng nghylch 2.

Mynegwyd cryn awydd unwaith eto gan y cyhoedd i sicrhau bod y safonau a gaiff eu pennu yn rhai sy'n glir, cadarn a dealladwy i bobl gyffredin. Ategwyd hynny gan nodi mai drwy hynny'n unig y sicrheir y caiff hawliau siaradwyr Cymraeg eu diogelu.

Amlinellir isod brif themâu'r ymatebion a dderbyniwyd a oedd o blaid gwneud y safonau'n benodol gymwys:

- Yr angen i sicrhau bod y safonau a bennir yn adlewyrchu'n llawn argymhellion Ymholiad Iechyd Comisiynydd y Gymraeg.
- Yr angen i sicrhau bod safonau yn sicrhau darpariaeth o wasanaethau Cymraeg yn ddiofyn, gan sicrhau bod y cysyniad o gynnig rhagweithiol yn gyson drwyddi draw.
- Sicrhau nad yw'r broses o ddyfarnu neu ddelio â thendr neu contract uwchlaw'r angen am osod amodau iaith Gymraeg ar y grantiau/contractau a ddosberthir gan sefydliadau sydd wedi'u cynnwys yng nghylch 2.
- Yr angen i sicrhau bod safonau mewn perthynas â gwasanaeth wyneb-yn-wyneb yn mynd tu hwnt i brif dderbynfeydd a chyfarfodydd personol sydd wedi eu trefnu ymlaen llaw.
- Yr angen i sicrhau eglurder bod y diffiniad o gyfarfodydd personol yn cynnwys pob cyswllt wyneb-yn-wyneb.
- Yr angen i bennu safon sydd yn gosod gofynion clir ar bolisiâu recriwtio sefydliadau.

Derbyniwyd rhai ymatebion gan aelodau'r cyhoedd a oedd yn mynegi gwrthwynebiad cyffredinol i ddyletswyddau iaith.

Amlinellir prif themâu'r ymatebion a dderbyniwyd a oedd yn erbyn gwneud y safonau'n benodol gymwys isod:

- Yr angen i ystyried yr hinsawdd economaidd bresennol, a'r modd y caiff arian cyhoeddus ei wario ar y Gymraeg.
- Blaenoriaethu meysydd polisi eraill dros y Gymraeg.
- Perthnasedd y Gymraeg yng Nghymru.
- Anghytuno â'r gofyniad y dylai'r Gymraeg ymddangos neu gael ei chyhoeddi'n gyntaf.

### Safonau cyflenwi gwasanaethau

Derbyniwyd sylwadau gan aelodau o'r cyhoedd oedd yn galw am yr angen i sicrhau y caiff safonau penodol eu pennu ar gyfer y cyrff iechyd sydd yn adlewyrchu canfyddiadau Comisiynydd y Gymraeg yn yr adroddiad 'Fy Iaith, Fy Iechyd: Ymholiad Comisiynydd y Gymraeg i'r Gymraeg mewn Gofal Sylfaenol'. Ategwyd hynny drwy nodi y dylid pennu

safonau mewn perthynas â chontractau cenedlaethol â meddygon teulu a darparwyr gofal sylfaenol.

Derbyniwyd sylwadau oedd yn nodi bod gwendid anfwriadol, yn eu tyb hwy, yn y rheoliadau drafft, a hynny oherwydd nad yw'r safonau mewn perthynas â derbyn gwasanaeth Cymraeg wyneb-yn-wyneb yn mynd tu hwnt i gyfarfodydd personol sydd wedi eu trefnu ymlaen llaw a gwasanaeth mewn prif dderbynfeydd. Yn yr un modd, nodwyd ei bod hi'n hollbwysig bod rheoliadau mewn perthynas â chyrrff iechyd yn pennu safonau cyfarfodydd personol sy'n cwmpasu apwyntiadau, ymgynghoriadau a phob cyswllt wyneb-yn-wyneb arall o'r fath.

Pwysleisiwyd pwysigrwydd cyfarfodydd personol yn y maes iechyd, y maes addysg a'r maes cyfiawnder, gan dynnu sylw at y ffaith nad oeddynt o'r farn y byddai'r rheoliadau drafft yn sicrhau darpariaeth Gymraeg wyneb-yn-wyneb y tu hwnt i gyfarfodydd personol ac mewn derbynfeydd. Ategydd hynny gan nodi y dylid ymestyn y diffiniad i gyd-destunau amrywiol eraill.

Derbyniwyd nifer o ymatebion a oedd yn cefnogi'r safonau mewn perthynas â chyfarfodydd nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol, a hynny gan gofio bod nifer o sefydliadau yn y maes cyfiawnder wedi eu cynnwys yng nghylch 2. Er bod y safonau yn cyfeirio at fuddiant neu lesiant personol, mynegwyd pryder gan rai nad oedd hi'n gwbl eglur a fyddai hynny'n cwmpasu hawl person i gael ei gyfweld yn Gymraeg yn y cyd-destun uchod.

Yng nghyd-destun arwyddion, roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylid sicrhau bod arwyddion electronig ac arddangosfeydd clywedol mewn lleoedd megis amgueddfeydd yn cael eu cwmpasu o fewn diffiniad y gweithgaredd hwn. Yn yr un modd, nodwyd y dylai uwchdeitlau ac is-deitlau mewn dramâu a pherfformiadau fod o fewn y diffiniad o arwyddion hefyd, gyda golwg ar osod safonau ar bersonau megis y Theatr Genedlaethol ac Opera Cenedlaethol Cymru.

Mewn cysylltiad â'r safonau yn ymwneud â chyrsgiau, pwysleisiodd nifer o ymatebwyr bwysigrwydd hyfforddiant proffesiynol ym maes iechyd ynghyd â sectorau eraill, a'r angen i bennu safonau a fyddai'n gwarantu cyrsiau datblygiad proffesiynol drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ogystal â hynny, mynegwyd pryder ynglŷn ag eglurder y diffiniad o gyrsgiau, a'r perygl y gellid gweld cyrsiau sy'n agored i'r cyhoedd fel rhai ar gyfer aelodau o'r cyrrff neu sy'n cael eu rheoli gan y cyrrff yn unig. Nododd un ymatebwr bwysigrwydd y safonau hyn mewn perthynas â Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.

Wrth ymateb i'r safonau mewn perthynas â dyfarnu ar geisiadau am grant, cyfeiriodd nifer o unigolion at bwysigrwydd pennu safonau a fyddai'n sicrhau bod amodau iaith Gymraeg yn cael eu gosod ar y grantiau a ddsberthir gan y sefydliadau sydd wedi'u cynnwys yng nghylch 2. Rhoddwyd pwyslais ar gyrrff megis Chwaraeon Cymru, Cyngor y Celfyddydau a'r Gronfa Loteri Fawr, gan nodi eu bod yn sefydliadau lle mae dosbarthiad grantiau yn hollbwysig o ran cynyddu defnydd a darpariaeth Gymraeg.

I'r un perwyl, nododd rhai ymatebwyr y dylid pennu safon ychwanegol mewn perthynas â dyfarnu ar dendrau am gontract, gyda golwg ar sicrhau bod cwmnïau cynhyrchu annibynnol sy'n gyfrifol am gyflenwi gwasanaethau ar ran S4C hefyd yn dod o dan ddyletswyddau i symud tuag at ddefnydd mewnol o'r Gymraeg yn eu gweithgareddau dan gontract i'r sianel Gymraeg.

Mynegwyd pryderon gan nifer o aelodau o'r cyhoedd nad oedd safon wedi ei phennu yn y rheoliadau drafft ar gyfer penodiadau cyhoeddus. Ategwyd hynny gan nodi bod y cyn-Weinidog Llywodraeth Leol wedi datgan y byddai safonau yn ymwneud â'r broses penodiadau cyhoeddus er mwyn gosod trothwyon ar gyfer y nifer o siaradwyr Cymraeg.

Wrth ystyried y safonau mewn perthynas â hysbysiadau swyddogol, nododd nifer o ymatebwyr y dylid sicrhau bod y safonau hynny'n cael eu gwneud yn benodol gymwys i bob sefydliad sydd wedi eu cynnwys yn y cylch hwn. Ategwyd hynny gan un ymatebwr a nododd y dylid sicrhau bod presgripsiynau yn cael eu cwmpasu o fewn diffiniad y gweithgaredd hwn. Er hynny, derbyniwyd rhai sylwadau oedd yn cwestiynu priodoldeb cyhoeddi hysbysiadau ar bynciau arbenigol yn y ddwy iaith, gan fynd ymlaen i gwestiynu'r angen i gyhoeddi hysbysiad swyddogol o gwbl yn yr achosion hynny.

Nododd un ymatebwr y dylai'r safonau mewn perthynas â chorfforaethau addysg (bellach ac uwch) ei gwneud hi'n ofynnol iddynt ymrwmo i ddarpariaeth addysgol, drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog, gan ddefnyddio eu hadnoddau eu hunain, yn ogystal â'r adnoddau a dderbynnir drwy ffrydiau allanol. Ategwyd hynny gan nodi y dylai'r cyrff dan sylw hefyd ysgogi galw gan fyfyrwyr, yn ogystal ag ymateb iddo. Nodir yr isod yn 'Rheoliadau Safonau'r Gymraeg 2015'<sup>153</sup>:

At ddibenion safonau 84, 85 a 86 (cyrsiau), ystyr "cwrs addysg" yw unrhyw seminar, hyfforddiant, gweithdy neu ddarpariaeth debyg sy'n cael ei ddarparu neu ei darparu ar gyfer addysgu neu wella sgiliau aelodau o'r cyhoedd; ond nid yw'n cynnwys gweithgareddau na chysiau sy'n cael eu darparu fel rhan o'r cwricwlwm yn unol ag unrhyw Ddeddfiad.

Dylai Gweinidogion Cymru sicrhau eglurder ar yr uchod wrth bennu safonau, a'u gwneud yn benodol gymwys i gorfforaethau addysg bellach ac uwch mewn rheoliadau.

### **Safonau llunio polisi**

Cyfeiriodd un ymatebwr at bwysigrwydd gosod y safonau uchod ar bob sefydliad yng nghylch 2, gan ystyried mai'r polisiâu sy'n sail i'w holl weithredoedd. Cyfeiriodd ymatebwr arall yn benodol at sefydliadau megis y Comisiynwyr Heddlu a Throsedd, Chwaraeon Cymru, Canolfan y Mileniwm ynghyd â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol gan nodi y dylent roi mwy o ystyriaeth i'r Gymraeg wrth wneud penderfyniadau polisi.

I'r un perwyl, cyfeiriodd un ymatebwr at bwysigrwydd gwneud y safonau llunio polisi yn benodol gymwys i'r Comisiynwyr a enwir yng nghylch 2, gan nodi bod nifer o adroddiadau ganddynt lle nad oes sôn am y Gymraeg o gwbl, a hynny mewn meysydd lle bo hawliau ieithyddol yn cael eu tramgwyddo.

Derbyniwyd sylwadau penodol mewn perthynas â'r Swyddfa Gyfathrebiadau, gan nodi ei rôl hollbwysig wrth ddyfarnu trwyddedau radio a theledu. Gyda hynny mewn golwg, roedd yr ymatebwr dan sylw o'r farn y dylid pennu safon sydd yn gosod amodau iaith ar drwyddedau o dan y safonau llunio polisi neu'r safonau mewn perthynas â dyfarnu contractau.

O'r dystiolaeth a dderbyniwyd gan aelodau o'r cyhoedd, bu cyfeiriadau at nifer o'r cyrff rheoleiddio proffesiynau yng nghylch 2, gan nodi y dylid sicrhau y caiff safonau eu pennu ar eu cyfer a fydd yn arwain at well cynllunio gweithlu ar gyfer dibenion Cymru ddwyieithog.

<sup>153</sup> Paragraff 37, Rhan 3, Atodlen 1, Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Gweinidogion Cymru, Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol, ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) 2015

Mynegwyd pryder gan un ymatebwr ynglŷn â chyfyngder effeithiolrwydd y safonau llunio polisi y bwriedir eu pennu. Ategwyd hynny drwy nodi nad oes llawer o bolisiau'n gallu bodoli ar lefel leol yn unig, ac y dylent fod yn rhan o gyd-destun ehangach, yn aml yn genedlaethol.

### **Safonau gweithredu**

Pwysleisiwyd pwysigrwydd rôl sefydliadau megis Amgueddfa Cymru, Canolfan Mileniwm Cymru, S4C, Cyfoeth Naturiol Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru a Chyngor Llyfrau Cymru o ran cyfrannu at y Gymraeg fel iaith gwaith gan un ymatebwr. Nododd y dylai'r sefydliadau dan sylw, ymysg eraill, fod yn rhai sydd yn gweithio tuag at weinyddu'n fewnol yn Gymraeg. O'r herwydd, roedd o'r farn y dylid pennu safonau gweithredu ychwanegol at y rhai yn y rheoliadau drafft a fyddai'n galluogi'r sefydliadau hyn, ymysg eraill, i weithio tuag at y nod hwnnw.

Yn yr un modd, roedd nifer o'r farn y dylid pennu safonau haen uwch mewn perthynas â recriwtio, gan ei gwneud hi'n ofynnol i sefydliadau sydd eisoes yn gweinyddu drwy gyfrwng y Gymraeg recriwtio staff sy'n medru'r Gymraeg yn unig.

Derbyniwyd nifer o ymatebion gan y cyhoedd oedd yn nodi'r angen i bennu safonau a fyddai'n rhoi dyletswyddau ar brifysgolion i gynnig a darparu cyfleoedd i'w myfyrwyr yn Gymraeg (ac i'r di-Gymraeg ddysgu'r iaith yn rhugl), ynghyd â safon a fyddai'n sicrhau bod dyletswydd arnynt mewn perthynas â hyfforddi gweithlu'r dyfodol.

Wrth gyflwyno sylwadau mewn perthynas â Chomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru, nododd un ymatebwr y dylid pennu safon a fyddai'n sicrhau bod cyfran o'r bobl sy'n cael eu penodi i'r Comisiwn yn siaradwyr Cymraeg, a hynny er mwyn adlewyrchu'r hyn a fynegwyd wrth ddiwygio'r gyfraith berthnasol honno. Derbyniwyd nifer o sylwadau a oedd yn nodi pwysigrwydd pennu safon o'r math hwn ar draws y sefydliadau dan sylw, a hynny er mwyn sicrhau y gall sefydliadau weithredu a chydymffurfio'n llawn â'r gofynion. I'r un perwyl, nododd un ymatebwr y dylid sicrhau bod safon yn cael ei phennu er mwyn gosod dyletswydd ar sefydliadau i gynnig rhaglenni dysgu Cymraeg dwys.

Derbyniwyd rhai sylwadau a oedd o'r farn y dylid eithrio swyddfeydd sefydliadol sydd tu allan i Gymru yng nghyd-destun y safonau gweithredu.

### **Safonau cadw cofnodion**

Derbyniwyd nifer o ymatebion oedd yn gryf o'r farn y dylai fod sefydliadau yn gorfod cadw cofnodion, a hynny er mwyn sicrhau atebolrwydd a thryloywder cyhoeddus mewn perthynas â chydymffurfio â'r gofynion.

Er hynny, pwysleisiodd rhai ymatebwyr y dylai'r ddyletswydd i gadw cofnodion fod yn gymesur, ac y byddai'n fuddsoddiad gwell i sefydliadau wella ystod ac ansawdd eu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg. Ategwyd hynny gan nodi bod cyfrifoldeb ar Gomisiynydd y Gymraeg i ddyfarnu ar y cydbwysedd priodol hwnnw.

### **Undebau myfyrwyr corfforaethau addysg bellach ac uwch**

Wrth ymateb i'r ymchwiliad safonau a gynhelir mewn perthynas â chorfforaethau addysg bellach ac uwch, derbyniwyd nifer o sylwadau a oedd yn nodi'r angen i wneud safonau'n gymwysadwy ac yn benodol gymwys i'r undebau myfyrwyr. Pwysleisiodd un ymatebwr y rhan hanfodol bwysig sydd gan undebau myfyrwyr wrth ddarparu gwasanaethau i'r myfyrwyr ar y cyd â'r corfforaethau dan sylw, gan gyfeirio yn benodol at gymorth a

chynrychiolaeth academaidd ynghyd â diogelu lles a buddiannau'r myfyrwyr.

Cyfeiriodd yr ymatebwr dan sylw at y dylanwad uniongyrchol a phellgyrhaeddol y caiff yr undebau ar brofiad myfyrwyr, ynghyd â'r ffaith eu bod yn derbyn symiau sylweddol o arian gan y corfforaethau dan sylw. Ategwyd hynny gan nodi bod cynllun iaith Gymraeg presennol un gorfforaeth yn cydnabod y berthynas sydd rhyngddynt hwy â'r undeb, a'r cyfrifoldeb sydd ganddynt i'r perwyl hynny.

Cyflwynwyd nifer o enghreifftiau o undebau myfyrwyr yn gweithredu'n ddwyieithog yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf. Er hynny, gan ystyried y gofynion ynghlwm â'r rheoliadau drafft, pwysleisiodd un ymatebwr mai tameidiog oedd hynny, ac yn aml wedi llawer o waith pwysu gan fyfyrwyr. Gyda hynny mewn golwg, mynegwyd pryder ynglŷn â'r diffyg cynllunio strategol a chanolog sydd ar gyfer datblygu'r Gymraeg o fewn undebau myfyrwyr, gan beri i'r undebau drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

I'r perwyl hwnnw, roedd yr ymatebwr o'r farn y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod safonau penodol yn cael eu pennu a'u gwneud yn benodol gymwys i gorfforaethau addysg, a hynny er mwyn cydnabod y berthynas hollbwysig â'r undebau, ynghyd â'r ystod o wasanaethau a ddarperir ganddynt i fyfyrwyr ar ran y corfforaethau dan sylw. Aeth yr ymatebwr dan sylw ymlaen i nodi ei fod o'r farn y byddai peidio â phennu safonau o'r math hwn yn golygu na chaiff hawliau ieithyddol myfyrwyr Cymru eu diogelu, ac, o safbwynt y myfyrwyr hynny, mai yn ofer yr aiff unrhyw ymgais i osod safonau ar lefel gorfforaethol.



## Atodiad B – Rhestr o'r ymatebwyr i'r ymchwiliad safonau

Isod ceir rhestr o'r personau perthnasol y cynhaliwyd ymchwiliad safonau mewn perthynas â hwy, y Panel Cyngori, ynghyd ag aelodau'r cyhoedd a oedd yn fodlon inni gyhoeddi eu sylwadau.

### Personau perthnasol

- Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
- Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan
- Bwrdd Iechyd Cwm Taf
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
- Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned Cymru
- Cyngor Iechyd Cymuned Abertawe Bro Morgannwg
- Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan
- Cyngor Iechyd Cymuned Betsi Cadwaladr
- Cyngor Iechyd Cymuned Brycheiniog a Maesfed
- Cyngor Iechyd Cymuned Caerdydd a'r Fro
- Cyngor Iechyd Cymuned Cwm Taf
- Cyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda
- Cyngor Iechyd Cymuned Sir Drefaldwyn
- Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
- Ymddiriedolaeth GIG Felindre
- Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG
- Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
- Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
- Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
- Awdurdod yr Heddlu Niwclear Sifil
- Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig

### Aelodau'r cyhoedd

- Alun Jones
- Alun Ceri Jones
- Eifion Jones
- Elin Walker Jones
- Elliw Alwyn
- Selwyn Lloyd-Jones
- Hywel Wyn Jones
- John Arwel Griffiths
- Lloyd Evans
- Anthony Barry
- Sharon Roberts
- Sion Jobbins
- Owen Saer

- Einir Sion
- Sian Gwenllian
- Lisbeth McLean
- Amanda Evans
- Rhys Glyn
- Anthony Barnard
- Anthony Caradog Evans
- Tim Jones
- Yasmin Morris
- Llinos Jones
- Aled Jones
- Dewi Snelson
- Emrys Wynne
- Curon Wyn Davies
- Bethan Harvey
- Mair Edwards
- Kathryn
- Helen Thomas
- Geraint Brython Edwards
- Rhodri Williams
- Ruth Evans
- Penri Williams
- Huw Jones
- Emyr Tomos
- Bethan Williams
- Llyr ap Gruffydd
- Robin Farrar
- Robert Jones
- Iago ap Steffan
- Sophie Hughes
- Huw Alun Roberts
- Chris Andrew
- Heledd Gwyndaf
- John Wynn Jones
- Manon James
- Gill Stephen
- Gwyn Williams
- Daron Pierce
- Sian Wyn Jones
- Emma Lloyd
- Neville Evans
- Diane Jones
- Jane Aaron
- Emyr Puw
- Harri Bryn Jones
- Liz Saville Roberts
- Craig ab Iago
- Rhian Davies
- Gwyn Sion Ifan
- Anna Williams
- Dyfan Jones
- Dai Hawkins

- Trefor Jones-Morris
- Dilwyn Morgan
- Y Parch. Emyr Wyn Thomas
- Bryn Davies
- Dr Ceridwen Lloyd Morgan
- Howard Thomas
- Connor
- Lydia Jones
- Rhodri Jones
- Bob Gaffey
- Angharad
- Ruth Williams
- Nic Daniels
- Jeffrey Jones
- Pablo Dubois
- Gareth Wood
- Llinos Roberts
- Bethan Jones
- Sian Mererid Jones
- Duncan Brown
- B Griffiths
- Awen M G Schiavone
- Osian Wyn Owen
- Robin Owain
- Judith Griffith
- Richard John Griffith
- Clive James
- Sion Williams
- Mathew Rees
- Thomas John Davies
- Ben Screen
- Mari Williams
- Enfys Jones
- Thomas Shaw
- Dafydd Thomas
- Angharad Brown
- John Jones
- Iago Sion
- Dafydd Williams
- Ieuan Parry
- Huw Thomas
- William Schleising

#### **Sefydliadau/Mudiadau**

- Cymdeithas yr Iaith
- Dyfodol i'r Iaith
- Mentrau Iaith Cymru
- Swyddog y Gymraeg, Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd a Phwyllgor y Gymdeithas Gymraeg, Prifysgol Caerdydd
- Coleg Cymraeg Cenedlaethol

**Panel Cynghori Comisiynydd y Gymraeg**

- Dr Ian Rees
- Gareth Jones
- Yr Athro Gwynedd Parry
- Bethan Jones Parry
- Carl Cooper